Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
01/2023
Dyddiad Cyhoeddi:
10/01/2023

# Gwerthusiad o LEADER yng Nghymru: Adroddiad Technegol

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80535-242-6

**Gwerthusiad o LEADER yng Nghymru: Adroddiad Technegol**

Awduron: Endaf Griffiths, Dr Nina Sharp, Sam Grunhut (oll o Wavehill), yr Athro Mike Woods (Prifysgol Aberystwyth)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Griffiths, E et al. (2023). *Gwerthusiad o LEADER yng Nghymru: Adroddiad Technegol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 01/2023.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-leader-yng-nghymru

wavehill™
social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwilio, Monitro a Gwerthuso
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**


1. Introduction ....................2
2. Cyflwyniad i bob elfen o'r dull LEADER....................3
3. Dull LEADER a'i weithrediad yng Nghymru cyn 2014 ....................9
4. Rhestr o Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru (2014-2020)....................14
5. Amcanion Strategol a Thematig Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 ....................15
6. Adolygiad o lenyddiaeth academaidd....................17
7. Canfyddiadau adolygiad o lenyddiaeth lwyd y tu allan i Gymru....................45
8. Theori Newid ar gyfer LEADER....................55
9. Y cwestiynau ymchwil a osodwyd ar gyfer y gwerthusiad ....................58
10. Enghreifftiau o brosiectau a ariannwyd gan y cynllun LEADER presennol yng Nghymru....................63
11. Astudiaethau achos o brosiectau a ariannwyd gan gynlluniau LEADER blaenorol yng Nghymru....................79
12. Offer Ymchwil....................106
13. Torri lawr ymatebion i’r arolwg ar-lein ....................143

# 1. Cyflwyniad

1.1 Dylid darllen yr Adroddiad Technegol hwn ar y cyd â'r adroddiad terfynol ar werthusiad o weithrediad y cynllun LEADER fel rhan o Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

1.2 Mae'n darparu ystod o wybodaeth ychwanegol sy'n llywio ac yn ategu i'r drafodaeth yn y prif adroddiad. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn rhoi cyflwyniad i bob elfen o'r 'dull LEADER'
- Mae Pennod 3 yn rhoi hanes byr o LEADER a'i weithrediad yng Nghymru
- Mae rhestr o Grwpiau Gweithredu Lleol (GGLl) yng Nghymru ar gyfer cyfnod presennol y rhaglen i'w gweld ym Mhennod 4
- Nodir yr amcanion strategol ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ym Mhennod 5
- Mae Penodau 6 a 7 yn cynnwys yr adolygiadau academaidd a llenyddiaeth lwyd a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad
- Mae Pennod 8 yn cynnwys theori newid ar gyfer LEADER yn gyffredinol ac yn benodol ar gyfer cynllun 2014-2020 a ddatblygwyd fel rhan o'r gwerthusiad
- Mae Pennod 9 yn nodi'r cwestiynau ymchwil a osodwyd ar gyfer y gwerthusiad
- Mae Pennod 10 yn rhoi enghreifftiau o brosiectau yng Nghymru a ariennir o dan bob thema yng nghynllun LEADER 2014-2020
- Mae astudiaethau achos ar gyfer prosiectau a ariannwyd a/neu sy'n gysylltiedig ag iteriad blaenorol o'r cynllun LEADER yng Nghymru i'w gweld ym Mhennod 11
- Mae Pennod 12 yn cynnwys yr offer ymchwil a ddefnyddiwyd yn ystod y gwerthusiad
- Yn olaf, mae dadansoddiad o'r sampl a gasglwyd gan yr arolwg ar-lein o'r rhai sy'n ymwneud ag LEADER yng Nghymru a drafodwyd yn y prif adroddiad wedi'i gynnwys ym Mhennod 13.

## 2. Cyflwyniad i bob elfen o'r dull LEADER[1]

2.1 Mae'r dull LEADER yn seiliedig ar saith nodwedd benodol ac mae'n dibynnu ar fod pob un o'r rhain yn bresennol ac yn cael eu defnyddio gyda'i gilydd. Mae'r saith nodwedd hyn yn diffinio LEADER fel methodoleg ac yn ei wahanu oddi wrth fod yn gynllun ariannu yn unig.

*Dull gweithredu o'r gwaelod i fyny*

2.2 Mae'r dull gweithredu o'r gwaelod i fyny yn greiddiol i LEADER. Mae LEADER yn ystyried mai pobl leol yw'r arbenigwyr gorau i yrru datblygiad eu tiriogaeth. Mae'r dull gweithredu hwn o'r gwaelod i fyny yn golygu y gall y gymuned leol a chwaraewyr lleol helpu i ddiffinio llwybr datblygu ar gyfer eu hardal sy'n gyson â'u hanghenion, eu disgwyliadau a'u cynlluniau. Mae'n gwneud hyn drwy ddull cyfunol gan wneud penderfyniadau dirprwyedig sy'n eu galluogi i gymryd cyfrifoldeb am ddyfodol eu hardal eu hunain. Maent yn gwneud penderfyniadau am y strategaeth leol ac yn dewis y blaenoriaethau sydd i'w dilyn. Caiff cyfranogiad gweithredol ei annog ar bob cam drwy gydol y broses; yn y Grŵp Gweithredu Lleol ac wrth ddatblygu strategaeth, gweithredu, gwerthuso ac adolygu. Dylai'r arfer o gynnwys gweithredwyr lleol fod yn deg a thryloyw gan gynnwys y boblogaeth yn gyffredinol, grwpiau economaidd, dinesig a buddiannau cymdeithasol, a sefydliadau cyhoeddus a phreifat cynrychioliadol.

2.3 Mae'r dull gweithredu hwn o'r gwaelod i fyny wedi'i ymgorffori yn rheoliadau'r UE gyda darpariaethau ar gyfer annog a gwneud penderfyniadau gan sicrhau na all unrhyw grŵp buddiant gael mwyafrif.

*Dull seiliedig ar ardal*

2.4 Mae LEADER a Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yn seiliedig ar ffordd wahanol o wneud pethau, gan gysylltu tair elfen ardal leol, partneriaeth a strategaeth ddatblygu oddi mewn i un dull gweithredu. Mae'r ardal yn sail i ddatblygu'r bartneriaeth a'r strategaeth leol, gan greu gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer yr hyn y gellid ei ategu gan gynghrair weithredol o randdeiliaid lleol. O dan y 'dull seiliedig ar ardal' mae cyllid LEADER yn targedu blaenoriaethau'r ardal gyfan, nid prosiectau neu grwpiau penodol o brosiectau (felly mae'n wahanol i 'ddull seiliedig ar brosiectau').

[1] Ffynhonnell: Addaswyd o Rwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop

2.5 Mae'r ardal fel arfer yn diriogaeth fach, unffurf, sy'n gydlynol yn gymdeithasol ac yn swyddogaethol, ac sy'n aml wedi'i nodweddu gan draddodiadau cyffredin, hunaniaeth leol, ymdeimlad o berthyn neu anghenion a disgwyliadau cyffredin. Mae cael ffocws o'r fath ar ardal yn galluogi'r bartneriaeth leol i gydweithio i nodi a mynd i'r afael â chryfderau, heriau a chyfleoedd lleol, gan ysgogi potensial ac adnoddau mewndarddol yr ardal.

2.6 Rhaid i'r ardal a ddewisir fod â digon o gydlyniad a màs critigol o ran adnoddau dynol, ariannol ac economaidd i gynnal strategaeth datblygu lleol hyfyw.

2.7 Rhaid i'r ardal fod â ffiniau daearyddol wedi'u diffinio'n glir. Egwyddor LEADER yw nad oes rhaid i'r rhain ddilyn y ffiniau gweinyddol (gan ddilyn ffiniau swyddogaethol yn lle hynny, efallai).

2.8 Rhaid i ardaloedd fodloni meini prawf poblogaeth LEADER (rhwng 10,000 a 150,000 yn y rhan fwyaf o achosion, fel y nodir yn Rheoliad Darpariaethau Cyffredin yr UE Rhif 1303/2013) a gallant hefyd fod yn destun meini prawf pellach sy'n benodol i'r Aelod-wladwriaethau. Gellir diwygio ffiniau'r ardal wrth i'r strategaeth a'r bartneriaeth ddatblygu yn dibynnu ar y blaenoriaethau datblygu a phwy sy'n cymryd rhan.

*Y bartneriaeth leol*

2.9 Mae'r partneriaethau lleol ar gyfer datblygu ardal yn gweithio drwy fecanwaith llywodraethu penodol a strwythuredig – yn LEADER cyfeirir at hyn fel y Grŵp Gweithredu Lleol. Mae bod yn rhan o'r bartneriaeth yn golygu bod y bobl a oedd gynt yn 'fuddiolwyr' goddefol polisi bellach yn bartneriaid gweithredol ac yn gyrru datblygiad eu hardal; mae hyn yn nodwedd ddiffiniol o Ddatblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned.

2.10 Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw ddwy bartneriaeth yr un fath yn eu tarddiad na'u datblygiad ac nad oes unrhyw bartneriaeth yn cael ei ffurfio'n berffaith. Rhaid i bartneriaethau gyd-fynd â'u hardal a realiti eu cyd-destun lleol gan gydnabod ei bod yn cymryd amser, ymdrech ac ymrwymiad i feithrin yr ymddiriedaeth a'r perthnasoedd gwaith angenrheidiol. Mae'n arferol i aelodaeth y bartneriaeth esblygu wrth i strategaeth a gwaith y Grŵp Gweithredu Lleol ddatblygu.

2.11 Mae deall 'eco-system' ehangach y rhaglen y mae LEADER yn cael ei weithredu ynddi hefyd yn bwysig yn ogystal â'r newidiadau yn yr eco-system honno o un rhaglen i'r nesaf. Er enghraifft, ar gyfer cyfnod y rhaglen flaenorol, roedd

integreiddio agos rhwng gweithgareddau Echel 3[2] ac Echel 4 (LEADER) nad yw'n wir am gyfnod y rhaglen gyfredol. At hynny, ni all y cynllun presennol ddarparu unrhyw gymorth a fyddai'n gyfystyr â chymorth gwladwriaethol. Bydd y gwahaniaethau hyn yn dylanwadu ar yr hyn y gall LEADER ei gyflawni yng nghyfnod pob rhaglen.

2.12 Nid yw'r mater hwn yn unigryw i Gymru. Ar lefel Ewropeaidd, yn ystod cyfnod Rhaglen Datblygu Gwledig 2007–2013, daeth pryderon i'r amlwg bod y dull LEADER yn cael ei beryglu gan 'brif ffrydio'. Ystyriwyd bod y ffocws cryf a ddaeth i'r amlwg ar gyfer LEADER ar y mesurau diffiniedig o dan y Cynllun Datblygu Gwledig yn cyfyngu ar bosibiliadau'r Grwpiau Gweithredu Lleol i weithredu prosiectau integredig ac arloesol.

2.13 Fodd bynnag, mae rhai egwyddorion hanfodol wedi'u hymgorffori yn Rheoliadau'r UE. Dylai Grŵp Gweithredu Lleol gynnwys partneriaid cyhoeddus a phreifat ac o'r gymdeithas sifil; dylai fod yn gytbwys ac yn lled-gynrychioliadol o fuddiannau lleol a'r gwahanol sectorau economaidd-gymdeithasol sydd yn yr ardal. Ar lefel gwneud penderfyniadau, ni all unrhyw un sector gynrychioli mwy na 49 y cant o aelodaeth y bartneriaeth leol (Rheoliad Darpariaethau Cyffredin yr UE Rhif 1303/2013). Gall ffurf gyfreithiol y Grŵp Gweithredu Lleol amrywio o wlad i wlad, ond bydd yn aml yn sefydliad cofrestredig nid-er-elw. Beth bynnag fo'u ffurf gyfreithiol, gall Grwpiau Gweithredu Lleol enwebu partner addas i weithredu fel eu corff atebol ffurfiol.

2.14 Mae'r honiad bod parhad rhwng cyfnodau rhaglennu yn bwysig iawn bellach yn cael ei ystyried yn wireb ond wrth edrych ar y Grŵp Gweithredu Lleol fel endid efallai y dylid herio hyn? Nid oes unrhyw Grŵp Gweithredu Lleol yn sicr o barhau i fod yn Grŵp Gweithredu Lleol LEADER. Wrth edrych ymlaen, beth am edrych ar y cyfle i adfywio neu adnewyddu'r Grŵp Gweithredu Lleol? Sut mae'r Grŵp Gweithredu Lleol yn gwneud y gorau o'r profiad, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddadansoddol lleol hanfodol sy'n cael eu darparu gan ei aelodau? Gall gwaed newydd neu newid ffocws ddarparu egni a momentwm hanfodol newydd. Bydd Grŵp Gweithredu Lleol mwy cynrychioliadol a chynhwysol nid yn unig yn cynnwys pobl newydd ond gallai agor cyfleoedd newydd, a chynnig adnoddau, syniadau ac arloesedd newydd, a thrwy gryfhau cysylltiadau lleol gallai annog eraill i gymryd rhan.

[2] Cymorth i brosiectau i wella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig ac arallgyfeirio'r economi wledig.

*Strategaeth integredig ac aml-sectoraidd*

2.15 Mae'r Rheoliad Darpariaethau Cyffredin (UE Rhif 1303/2013) yn nodi y dylid ymgymryd â Datblygu Lleol da Arweiniad y Gymuned drwy strategaethau datblygu lleol integredig ac aml-sectoraidd sy'n seiliedig ar ardaloedd. Bu hyn yn nodwedd o genedlaethau olynol o LEADER, gan wahaniaethu'r dull hwn o weithredu oddi wrth bolisïau amaethyddol sectoraidd traddodiadol o'r brig i lawr. Fel y mae'r acronym LEADER yn awgrymu, ei nod yw adeiladu'r 'cysylltiadau rhwng yr economi wledig a chamau datblygu'. Felly, nod Partneriaethau a'u Strategaethau Datblygu Lleol yw manteisio ar y cysylltiadau rhwng sectorau lleol er mwyn manteisio ar yr effeithiau lluosydd posibl.

2.16 Wrth wneud hynny, maent yn archwilio ac yn mynd i'r afael ag anghenion a chyfleoedd yr ardal mewn ffordd integredig i gyflawni'r nodau cyffredin a ddymunir. Felly, dylai'r camau gweithredu a'r prosiectau sydd wedi'u cynnwys mewn strategaethau lleol gael eu cysylltu a'u cydlynu fel cyfanwaith cydlynol. Fodd bynnag, nid yw integredig yn golygu hollgynhwysol; ni ddylai strategaethau geisio mynd i'r afael â phopeth ar unwaith na rhoi'r un pwysau i bopeth. Mae rhai pethau'n gorwedd y tu allan i'r hyn y mae modd dylanwadu arno neu'i gyflawni'n lleol. Yn eu Strategaeth Datblygu Lleol integredig, dylai Grwpiau Gweithredu Lleol wneud dewisiadau a chanolbwyntio ar yr amcanion a'r camau gweithredu hynny sy'n ychwanegu gwerth at gymorth sydd eisoes yn bodoli ac sydd â'r cyfleoedd mwyaf o gyfrannu at y newidiadau y maent am eu cyflawni.

2.17 Mae'r broses ymgynghori wrth baratoi ac adolygu Strategaeth Datblygu Lleol yn rhoi cyfle delfrydol i Grwpiau Gweithredu Lleol gyrraedd pobl a sefydliadau newydd ac ymgysylltu â hwy. Mae'n caniatáu iddynt archwilio nid yn unig beth yw'r anghenion a'r cyfleoedd datblygu ond hefyd sut y gall pobl gyfrannu a sut y gallant gymryd rhan. Er mwyn i Grŵp Gweithredu Lleol gyrraedd pobl newydd, rhaid iddynt feddwl am sut maent yn eu cyrraedd a sut maent yn eu hannog i gymryd rhan. Nid yw dull drws agored yn ddigon; gall fod llawer o rwystrau. Gall pellter, trafnidiaeth, amseru, gofal plant, oriau ysgol, a hyd yn oed iaith annog pobl i beidio â chymryd rhan. Mae angen gwahodd pobl i mewn, ac mae angen i bobl gael caniatâd i gyfrannu. Meddyliwch amdano: sut allwch chi helpu pobl i gyfrannu? Pa offer, dulliau a chyfryngau allwch chi eu defnyddio?

2.18 Dyma rai dulliau o blith nifer y gall Grwpiau Gweithredu Lleol eu defnyddio i'w helpu i fod mor ffres a pherthnasol â phosibl, gan chwilio am werth ychwanegol a'i

gyflawni, a sicrhau cyfranogiad gwirioneddol o'r gwaelod i fyny. Fodd bynnag, nid dulliau untro yw'r rhain; fel gyda'r Strategaeth Datblygu Lleol, maen nhw'n ddulliau ac offer deinamig sydd, o'u rheoli'n briodol, yn bwydo'r broses o adnewyddu'n barhaus.

*Rhwydweithio*

2.19 Mae rhwydweithio yn greiddiol i'r hyn yw LEADER a sut mae'n gweithio. Rhwydwaith o bartneriaid lleol yw'r Grŵp Gweithredu Lleol, a thrwy'r rhwydwaith hwn mae ei strategaeth a'i weithgareddau yn hybu cysylltiadau rhwng gweithredwyr lleol ac eraill yn y gadwyn ddatblygu. Mae manteision rhwydweithio yn LEADER yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r gorwel lleol hwn; daeth rhwydweithiau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn fwyfwy pwysig o ran cysylltu pobl, lleoedd a chamau gweithredu gwledig. Gyda dyfodiad Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned, gall rhwydweithiau ehangach sy'n cynnwys cysylltiadau ag ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwledig gynnig posibiliadau newydd. Mae rhwydweithio'n dod â'r rhai sy'n rhan o'r gwaith ynghyd i ledaenu a rhannu gwybodaeth, eu profiad, eu datblygiadau arloesol, eu syniadau a'u gwybodaeth, datblygu cymorth gan gymheiriaid, goresgyn arwahanrwydd a meithrin gallu. Mae rhwydweithio'n chwarae rhan bwysig o ran ysgogi a chefnogi gweithgarwch cydweithredu.

2.20 Mae Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol wedi'u sefydlu yn yr holl Aelod-wladwriaethau drwy'r Rhaglenni Datblygu Gwledig. Er eu bod yn targedu ystod ehangach o randdeiliaid gwledig, mae eu cylch gwaith yn cynnwys cymorth yn benodol i Grwpiau Gweithredu Lleol; mae rhai yn cynnwys is-grwpiau Grwpiau Gweithredu Lleol. Mae Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop yn gweithredu ar y lefel Ewropeaidd, gan helpu'r Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol a'r Grwpiau Gweithredu Lleol, ac maen nhw'n cynnwys is-grŵp LEADER / Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned.

2.21 Mae Cymdeithas LEADER Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (ELARD) yn sefydliad aelodaeth a fforwm cydweithredu nid-er-elw rhyngwladol. Mae aelodau ELARD yn cynnwys nifer fawr o Grwpiau Gweithredu Lleol a llawer o'r grwpiau LEADER cenedlaethol a rhanbarthol gwirfoddol.

*Arloesedd*

2.22 Mae'r ymgais i arloesi yn parhau i fod yn un o'r nodweddion mwyaf cyffrous, arloesol ond heriol o'r dull LEADER. Mae chwilio am atebion newydd ac arloesol i

broblemau lleol a'u meithrin neu fanteisio ar gyfleoedd wedi bod yn rhan greiddiol o LEADER o'r cychwyn cyntaf. Mae arloesedd yn berthnasol i'r hyn a wneir, y mathau o weithgarwch a gefnogir, y cynhyrchion neu'r gwasanaethau a ddatblygir ac ati, ond yn bwysig iawn mae hefyd yn berthnasol i sut mae pethau'n cael eu gwneud. Yn wir, yn y dechrau, y dull LEADER ei hun oedd y prif arloesedd.

2.23 Dylai pob Grŵp Gweithredu Lleol geisio cyflwyno elfennau ac atebion newydd i ddatblygiad ei diriogaeth. Mae hyn yn berthnasol yn ei strategaeth, ei strwythurau a'i brosesau cyflawni ac annog ac wrth wneud penderfyniadau a dewis prosiectau. Wrth gwrs, ni fydd pob syniad arloesol yn llwyddo; bydd yn rhaid asesu prosiectau'n ofalus bob amser, ond rhaid caniatáu lefel o risg ym mhenderfyniadau'r Grŵp Gweithredu Lleol. Drwy greu'r amodau cywir a meithrin syniadau newydd a ffres yn ofalus gall Grwpiau Gweithredu Lleol greu newidiadau a manteision sylweddol a pharhaus i'w tiriogaethau, sef y gwerth ychwanegol gwirioneddol y mae LEADER wedi'i ddylunio i'w gyflawni.

*Cydweithrediad*

2.24 Mae cydweithredu rhyng-diriogaethol a rhyngwladol yn ychwanegu dimensiwn ehangach i ddatblygu lleol mewn ardaloedd gwledig. Mae cydweithredu'n mynd y tu hwnt i rwydweithio drwy gynnwys pobl leol a Grwpiau Gweithredu Lleol wrth weithio gydag eraill i ymgymryd â phrosiect ar y cyd. Gall hyn gynnwys grwpiau LEADER eraill neu grŵp a ffurfiwyd yn yr un modd mewn rhanbarth neu Aelod-wladwriaeth arall, o dan Gronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd wahanol, neu hyd yn oed mewn gwlad nad yw'n rhan o'r UE.

2.25 Wrth gwrs, nid yw cydweithredu'n nod ynddo'i hun; dylai fod diben a budd clir o ran gweithio gydag eraill. Gall cydweithredu â rhanbarthau eraill fod yn ffynhonnell ardderchog o arloesi a throsglwyddo gwybodaeth i bobl leol. Mae cydweithredu drwy LEADER yn caniatáu i ardaloedd gwledig fynd i'r afael â'u hamrywiaeth, a manteisio arni, gan gyflwyno safbwyntiau a dealltwriaeth newydd o ardaloedd eraill, a derbyn a darparu dulliau gweithredu llwyddiannus ac arferion da.

2.26 Er y gall manteision cydweithredu fod yn sylweddol, gall yr heriau sydd ynghlwm wrth weithredu fod yn sylweddol hefyd. Felly, mae'n bwysig cynllunio'n ofalus, dewis y pynciau cywir a'r partneriaid cywir a manteisio ar y cymorth a gynigir drwy Rwydweithiau Gwledig Cenedlaethol a Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop.

# 3. Dull LEADER a'i weithrediad yng Nghymru cyn 2014

3.1 Wedi'i gyflwyno fel ffordd wahanol i'r dull o'r brig i lawr confensiynol ar gyfer y sector amaethyddol, cychwynnwyd ar LEADER ym 1991 fel 'mesur ategol' i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Fel 'Menter Gymunedol' Ewropeaidd, roedd LEADER yn ymwneud â dod o hyd i atebion newydd a datblygu ffyrdd arloesol o wneud pethau. O'r herwydd, roedd yn gorwedd ochr yn ochr â Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol prif ffrwd, ac yn eu hategu.

3.2 Yn **LEADER I (1991-93)**, y prif arloesedd oedd y dull ei hun yn y modd yr oedd yn cynnwys ac yn cefnogi cymunedau, gan ddefnyddio menter a sgiliau'r poblogaethau lleol, hybu a chefnogi'u proses o gaffael gwybodaeth, a mynd ar drywydd datblygiad lleol mewn ffordd integredig.

3.3 Ariannwyd pedwar grŵp yng Nghymru yn y cyfnod hwn, gan weithio yn yr ardaloedd canlynol:[3]

- Powys
- De Sir Benfro
- Gwynedd
- Sir Gaerfyrddin.

3.4 Cymhwyswyd **LEADER II (1994–1999)** yn ehangach gan weithredu fel 'labordy' a oedd yn ymestyn y gwaith o arloesi y tu hwnt i'r dull yn unig i gynnwys y prosiectau a gefnogwyd. Bu wyth grŵp yn llwyddiannus yn eu ceisiadau i gymryd rhan yn LEADER II yng Nghymru, gan gwmpasu'r ardaloedd canlynol:[4]

- Ynys Môn
- De Sir Benfro
- Gogledd Sir Benfro
- Conwy, Sir Ddinbych a de Wrecsam
- Powys
- Gwynedd
- Cwm Taf, Sir Gaerfyrddin

[3] Dylid nodi nad yw LEADER o reidrwydd yn cwmpasu holl ardaloedd yr awdurdodau lleol a restrir; roedd yr ardaloedd dan sylw yn newid o gyfnod i gyfnod ac roedd ardaloedd trefol bob amser wedi'u heithrio.
[4] Unwaith eto, nodir ardaloedd awdurdodau lleol ond nid oedd yr ardaloedd dan sylw o reidrwydd yn glynu wrth y ffiniau hynny'n union, gan weithio'n unol â ffiniau ac ardaloedd cymunedau traddodiadol, fel Dyffryn Teifi er enghraifft.

- Ceredigion a gogledd Sir Gaerfyrddin.

3.5 Un o ofynion hanfodol LEADER II yng Nghymru oedd ei fod yn canolbwyntio ar annog cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a oedd yn codi yn yr ardaloedd dan sylw, o ddewislen o weithgareddau:

- hyfforddiant a chymorth i fusnesau bach a chanolig a busnesau crefft
- twristiaeth wledig
- yr amgylchedd ac amodau byw
- gwasanaethau sylfaenol
- ychwanegu gwerth at gynhyrchion ffermio, pysgodfeydd a choedwigaeth.

3.6 Nid oedd **LEADER+ (2000-2006)** bellach wedi'i gyfyngu i ddiffiniad o 'ardaloedd difreintiedig', gan olygu y gwnaeth ardaloedd a niferoedd y Grwpiau Lleol ledled Ewrop ehangu ymhellach a daeth ffocws llawer cryfach i'r amlwg ar sut roedd y Grwpiau hyn yn paratoi a chyflwyno Strategaethau Datblygu Lleol.

3.7 Roedd ffocws mwy cyfyng i'r dull nag mewn cyfnodau blaenorol, ac roedd gofyn i'r Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru ddewis un neu ddau fesur o restr o bedwar:

- gwybodaeth newydd a gwybodaeth ymarferol arbennig newydd
- gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol a diwylliannol
- ychwanegu gwerth at gynnyrch lleol
- gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig.

3.8 Er bod yr arbenigedd hwn wedi helpu i atal Grwpiau Gweithredu Lleol rhag 'taenu'r jam yn rhy denau', canlyniad annisgwyl hyn oedd na allai'r Grwpiau hyn weithredu mewn ffordd cwbl integredig.

3.9 Roedd saith Grŵp Gweithredu Lleol yng Nghymru yn y cyfnod hwn, wedi'u dewis o 14 o geisiadau am gyllid, yn cwmpasu'r ardaloedd canlynol:

- Ynys Môn
- Conwy
- Sir Benfro
- Wrecsam Wledig (Gogledd y Gororau)
- Sir Fynwy
- Clwyd (Sir Ddinbych a Sir y Fflint)
- Powys.

3.10 Gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru (fel yr oedd bryd hynny) hefyd gyflwyno **rhaglen Gweithredu dros Gymunedau Gwledig** yn ystod y cyfnod hwn (yn 2003). Cynhaliwyd y rhaglen hon tan 2009 ac fe'i dyluniwyd yn rhannol i fynd i'r afael â rhai o'r materion a ddeilliodd o geisiadau aflwyddiannus am gyllid LEADER+ o sawl ardal a chyflwynodd gymorth i rannau ehangach o Gymru. Roedd hefyd yn ymateb i ddull mwy penodol/cyfyngol LEADER+ o gymharu â'r cynllun blaenorol. Cyflwynwyd rhaglen Gweithredu dros Gymunedau Gwledig mewn 12 ardal awdurdod lleol ledled Cymru gan ychwanegu Gwynedd, Ceredigion, Bro Morgannwg a Sir Gaerfyrddin at y rhestr o grwpiau LEADER+.

3.11 Mae hefyd yn werth nodi bod **Erthygl 33 o'r rhaglen Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer 2000-2006** hefyd wedi'i chyflwyno drwy rai o grwpiau Gweithredu dros Gymunedau Gwledig. Buddsoddodd Erthygl 33 yn seilwaith cymunedau gwledig yn Nwyrain Cymru drwy brosiectau a gyflwynwyd gan grwpiau LEADER / Gweithredu dros Gymunedau Gwledig yn y rhanbarth hwnnw ac roedd ganddi dair blaenoriaeth: (a) darparu gwasanaethau sylfaenol, (b) adnewyddu pentrefi, ac (c) twristiaeth a gweithgareddau crefft. Darparwyd cymorth tebyg yng Ngorllewin Cymru drwy Raglenni Amcan 1 (ERDF), lle nad oedd y Grwpiau Gweithredu Lleol yn ymwneud yn uniongyrchol â nhw. Darparodd Gweithredu dros Gymunedau Gwledig gyllid refeniw, a oedd yn ddefnyddiol i ardaloedd a oedd yn elwa o Erthygl 33, a oedd yn gronfa gyfalaf yn unig.

3.12 Fel rhan o **raglen 2007-2013**, cyflwynwyd pedair Echel a ddyluniwyd i ddarparu dull mwy integredig. Roedd yn rhagweld **y byddai LEADER (drwy Echel 4)** yn cael ei 'phrif ffrydio', hynny yw, wedi'i integreiddio i'r Rhaglenni Datblygu Gwledig yn hytrach na'i bod yn fenter annibynnol. Gan nad oedd yn cael ei llywodraethu gan ei fframwaith rheoleiddio ei hun mwyach, roedd LEADER bellach yn gorwedd oddi mewn i'r Cynlluniau Datblygu Gwledig fel methodoleg ategol, yn cyfrannu at amcanion y tair Echel 'brif ffrwd' drwy Strategaethau Datblygu Lleol, a hefyd yn dilyn y flaenoriaeth lorweddol o wella llywodraethu a pharatoi potensial datblygiad mewndarddol ardaloedd gwledig.

3.13 Roedd Llywodraeth Cymru yn rheoli ac yn gweithredu gweithgareddau Echel 1 (cystadleurwydd amaethyddiaeth a choedwigaeth) ac Echel 2 (yr amgylchedd a chefn gwlad) yn genedlaethol. Gweithredwyd Echel 3 (ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig) ac Echel 4 (dull LEADER) ar sail ardaloedd awdurdodau lleol, gan bartneriaethau lleol atebol a chynrychioliadol (Partneriaethau Cynllun Datblygu Gwledig a Grwpiau Gweithredu Lleol).

3.14 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol yn gweithredu yng Nghymru (yn ogystal â'r Partneriaethau Gwledig ym mhob ardal) gan gyflwyno'r dull LEADER i sawl ardal arall am y tro cyntaf.[5]

- Ynys Môn
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerffili
- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Gwynedd
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Castell-nedd Port Talbot
- Sir Benfro
- Powys
- Abertawe
- Torfaen
- Bro Morgannwg
- Wrecsam

3.15 Yn seiliedig ar y dull thematig a oedd yn cael ei weithredu fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig, roedd yn rhaid i weithgarwch Echel 4 (LEADER) a gwaith y Grwpiau Gweithredu Lleol gyfrannu at amcanion y tair Echel arall. Fodd bynnag, roedd gwaith LEADER y rhan fwyaf o'r Grwpiau Gweithredu Lleol yn canolbwyntio ar themâu Echel 3 (Arallgyfeirio'r Economi Wledig a Gwella Ansawdd Bywyd mewn Ardaloedd Gwledig) er bod nifer o brosiectau LEADER wedi'u cysylltu â Mesurau Echel 1.

3.16 Roedd hyn o leiaf yn rhannol am fod Echelau 3 a 4 yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'i gilydd yng Nghymru ar sail ardal awdurdod lleol ac yn cael eu harweinir gan Bartneriaethau Lleol, gyda'r nod o hybu'r arfer o weithio ar draws Echelau a phrif

[5] Dylid nodi mai dim ond yr ardaloedd gwledig yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hyn oedd yn gymwys fel rhan o'r cynllun, gydag ardaloedd trefol wedi'u heithrio.

ffrydio'r dull LEADER. Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am ddarparu cymorth ac arweiniad i Gorff Arweiniol y Bartneriaeth (yr awdurdod lleol fel arfer), arfarnu ceisiadau am brosiectau a gweinyddu'r cynllun yn ariannol, yn ogystal â monitro'r cynlluniau ar ôl hynny. Roedd ffocws Echel 3 ar:

- ddarparu ystod ehangach o gyfleoedd gwaith sy'n talu'n well
- helpu i godi cyfraddau gweithgarwch economaidd
- gwella gwasanaethau prif ffrwd ar gyfer yr economi wledig neu ddarparu rhagor ohonynt
- darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd yn y dyfodol, gan gynnwys twristiaeth a gweithgareddau crefft
- gwella amgylchedd ffisegol pentrefi a gwarchod y dreftadaeth wledig
- mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol drwy wella mynediad i ystod o wasanaethau gan ddatblygu cysylltiadau gwell rhwng ardaloedd anghysbell a mwy poblog.

## 4. Rhestr o Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru (2014-2020)

1) Ynys Môn – a elwir yn 'Arloesi Môn' ac a weinyddir gan Fenter Môn

2) Pen-y-bont ar Ogwr – a elwir yn ‘reach’ ac a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

3) Caerffili a Blaenau Gwent – a elwir yn ‘Cwm a Mynydd’ ac a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

4) Sir Gaerfyrddin – a elwir yn ‘CDG Sir Gâr’ ac a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin

5) Ceredigion – a elwir yn ‘Cynnal y Cardi’ ac a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin

6) Conwy – a elwir yn ‘Conwy Cynhaliol’ ac a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

7) Sir Ddinbych – gweinyddir gan Cadwyn Clwyd

8) Sir y Fflint – gweinyddir gan Cadwyn Clwyd

9) Gwynedd – a elwir yn ‘Arloesi Gwynedd’ ac a weinyddir gan Fenter Môn

10) Merthyr a Rhondda Cynon Taf – a elwir yn “Rhaglen LEADER Gweithredu Gwledig Cwm Taf”, gweinyddir gan Merthyr Tydfil CBC

11) Sir Fynwy a Chasnewydd – cyflawnir gan Busnes a Menter Sir Fynwy, gweinyddir gan Gyngor Sir Fynwy

12) Castell-nedd Port Talbot – a elwir yn ‘Adfywio Castell-nedd Port Talbot’, gweinyddir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot

13) Sir Benfro – a elwir yn ‘Arwain Sir Benfro’, gweinyddir gan PLANED

14) Powys – a elwir yn ‘Arwain’, gweinyddir gan Gyngor Sir Powys

15) Abertawe – Cynllun Datblygu Gwledig Abertawe, gweinyddir gan Ddinas a Sir Abertawe

16) Torfaen – gweinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

17) Bro Morgannwg – ‘Cymunedau Gwledig Creadigol’, gweinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

18) Wrecsam – gweinyddir gan Cadwyn Clwyd

## 5. Amcanion Strategol a Thematig Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020

5.1 Rhaid i weithgareddau o dan y mesur LEADER fynd i'r afael ag o leiaf un o Feysydd Ffocws y Rhaglen. O dan Erthygl 5 o Reoliad y Comisiwn 1305 / 2013 ar gymorth ar gyfer datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, nodwyd 18 o feysydd ffocws o dan chwe blaenoriaeth ar gyfer datblygu gwledig a nodir isod. At ddibenion monitro, mae'r cynllun LEADER yng Nghymru wedi'i raglennu yn erbyn Maes Ffocws 6b "Datblygu Lleol", er ei bod yn bosibl cofnodi meysydd ffocws eilaidd.

5.2 **Blaenoriaeth 1 – Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesedd mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig** gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol: a. meithrin arloesedd a'r sylfaen wybodaeth mewn ardaloedd gwledig; b. cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth a choedwigaeth ac ymchwil ac arloesi; c. meithrin dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn y sectorau amaethyddol a choedwigaeth.

5.3 **Blaenoriaeth 2 – Gwella cystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth a gwella hyfywedd ffermydd**, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol: a. hwyluso ailstrwythuro ffermydd sy'n wynebu problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd sydd â lefel isel o gyfranogiad yn y farchnad, ffermydd sy'n canolbwyntio ar y farchnad mewn sectorau penodol, a ffermydd y mae angen iddynt arallgyfeirio yn amaethyddol; b. hwyluso adnewyddu rhwng y cenedlaethau yn y sector amaethyddol.

**5.4** **Blaenoriaeth 3 – Hybu trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth**, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol: a. integreiddio cynhyrchwyr cynradd yn well yn y gadwyn fwyd drwy gynlluniau ansawdd, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchoedd cyflenwi byr, grwpiau cynhyrchwyr a sefydliadau rhyng-gangen; b. cynorthwyo rheoli risg ar ffermydd.

5.5 **Blaenoriaeth 4 – Adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth**, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol: a. adfer a chadw bioamrywiaeth, gan gynnwys mewn ardaloedd Natura 2000 a ffermio gwerth natur uchel, a chyflwr tirweddau Ewropeaidd; b. rheoli dŵr yn well; c. rheoli pridd yn well.

5.6 **Blaenoriaeth 5 – Hybu effeithlonrwydd adnoddau a chynorthwyo'r newid tuag at economi carbon isel sy'n wydn o ran yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddol, bwyd a choedwigaeth**, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol: a. cynyddu effeithlonrwydd o ran y defnydd o ddŵr mewn amaethyddiaeth; b. cynyddu effeithlonrwydd o ran y defnydd o ynni mewn amaethyddiaeth a phrosesu bwyd; c. hwyluso'r gwaith o gyflenwi a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy, sgil-gynnyrch, gwastraff, gweddillion a deunydd crai arall nad yw'n fwyd at ddibenion y fio-economi; d. lleihau allyriadau ocsid nitrus a methan o amaethyddiaeth; e. meithrin dulliau atafaelu carbon mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth;

5.7 **Blaenoriaeth 6 – Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygiad economaidd mewn ardaloedd gwledig**, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol: a. hwyluso arallgyfeirio, creu mentrau bach newydd a chreu swyddi; b. meithrin datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig; c. gwella hygyrchedd technolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ardaloedd gwledig, eu defnydd a'u hansawdd.

# 6. Adolygiad o lenyddiaeth academaidd

## Cyflwyniad

6.1 Yn y tri degawd ers ei sefydlu, o bryd i'w gilydd, bu LEADER yng Nghymru yn destun astudio a thrafod mewn llenyddiaeth academaidd, yn bennaf fel enghraifft o ddatblygu a chyflawni gwledig o'r gwaelod i fyny, sy'n canolbwyntio ar diriogaeth, drwy weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned. Cyhoeddwyd nifer o astudiaethau a phapurau a oedd yn archwilio neu'n cyfeirio at Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER yng Nghymru yn gymharol gynnar yn oes LEADER, yn ystod cyfnodau rhaglennu LEADER I neu LEADER II (Asby a Midmore 1996; Bristow, 2000; Edwards et al. 2000; Midmore 1998; Moseley 2003; Müller 2001; Shucksmith 2000), gydag ychydig o drafodaethau diweddarach hefyd yn ymwneud â LEADER+ (Asby et al. 2007; Bickerton 2004; Gardner 2011); ond ychydig iawn o ymchwil academaidd a gyhoeddwyd yn ymwneud â LEADER neu Ddatblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned ym maes datblygu gwledig yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf, a'r eithriad nodedig yw Navarro et al. (2016).

6.2 Roedd sawl astudiaeth gynnar yn seiliedig yn bennaf ar brofiad uniongyrchol yr awduron o sefydlu, rheoli neu werthuso Grwpiau Gweithredu Lleol, gan gynnwys Asby a Midmore (1996), Bickerton (2004) a Midmore (1998). Roedd yr astudiaethau hyn, ynghyd ag erthyglau yn y 'llenyddiaeth lwyd' anacademaidd, wedi helpu i gyflwyno Grwpiau Gweithredu Lleol Cymru, gan gynnwys Antur Teifi, yn gweithio yn Ne Ceredigion a Gogledd Sir Gaerfyrddin, a SPARC (Gweithredoedd De Sir Benfro dros Gymunedau Gwledig) fel astudiaethau achos amlwg o'r dull LEADER o fewn llenyddiaeth yr astudiaethau gwledig. O ganlyniad, mae'r achosion hyn o Gymru hefyd wedi'u trafod fel enghreifftiau mewn trafodaethau ehangach ynghylch y dull LEADER ar raddfa Ewropeaidd neu'r DU, gan gynnwys gan Moseley (1995, 2003) a Shucksmith (2000), gan ddefnyddio ffynonellau eilaidd.

6.3 Dim ond ychydig o astudiaethau academaidd a aeth ati i gasglu a dadansoddi data sylfaenol yn ymwneud â Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru, gan gynnwys astudiaethau PhD gan Müller (2001) a Bickerton (2004), ymchwil Edwards et al. (2000) ar weithio mewn partneriaeth mewn ardaloedd gwledig, ac yn fwyaf diweddar dadansoddiad cymharol Navarro et al. (2016) o LEADER yng Nghymru ac Andalusa. Yn ogystal â’r ffaith mai Navarro et al. (2016) yw’r astudiaeth ddiweddaraf o LEADER yng Nghymru, hithau hefyd yw un o'r dadansoddiadau

systematig mwyaf cynhwysfawr, sy'n cynnwys ymatebion i arolwg holiadur gan reolwyr 11 o'r 17 Grŵp Gweithredu Lleol yng Nghymru ac yn myfyrio ar brofiadau LEADER rhwng 1991 a 2013.

6.4 Mae'r dull LEADER a Grwpiau Gweithredu Lleol unigol yng Nghymru hefyd wedi'u harchwilio fel rhan o drafodaethau ehangach ar ymgysylltu â'r gymuned wledig (Day 1998; Edwards 1998; Gardner 2011), datblygu gwledig integredig (Bristow 2000) a gweithio mewn partneriaeth (Derkzen 2008; Edwards et al. 2000). Tra bo cyfraniadau Bristow, Day, Edwards a Gardner yn seiliedig ar ffynonellau eilaidd yn bennaf, roedd yr ymchwil gan Edwards et al. (2000) ar weithio mewn partneriaeth yng Nghanolbarth Cymru a Sir Amwythig yn cynnwys casglu data sylfaenol gan Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru fel rhan o arolwg o 33 o sefydliadau partneriaeth a chyfweliadau â 63 o gyfranogwyr a chynrychiolwyr partneriaeth. Roedd y cyfweliadau hyn yn canolbwyntio ar Fenter Powys fel un o chwe astudiaeth achos (a oedd hefyd yn cynnwys Grŵp Gweithredu Lleol Oswestry Hills yn Swydd Amwythig). Roedd ymchwil Derkzen yn canolbwyntio'n bennaf ar raglen Gweithredu dros Gymunedau Gwledig, ond roedd yn ymwneud yn anuniongyrchol â LEADER drwy astudiaethau achos lle y datblygodd y bartneriaeth Gweithredu dros Gymunedau Gwledig o weithgarwch blaenorol LEADER neu lle'r oedd yn cynnwys Grŵp Gweithredu Lleol fel partner (Derkzen 2009, 2010; Derkzen a Bock 2009; Derkzen et al. 2008).

6.5 Yn ogystal ag ymchwil a wnaed yn uniongyrchol ar LEADER yng Nghymru, mae llenyddiaeth academaidd helaeth wedi datblygu ar weithredu LEADER mewn rhannau eraill o Ewrop. Gellir dod o hyd i astudiaethau o LEADER a Grwpiau Gweithredu Lleol ar gyfer y rhan fwyaf o aelod-wladwriaethau'r UE, er bod nifer anghymesur wedi canolbwyntio ar Wlad Pwyl neu Sbaen. Gall tystiolaeth a chanfyddiadau astudiaethau o'r fath helpu i lenwi bylchau yn y sylfaen dystiolaeth ar gyfer LEADER yng Nghymru, yn enwedig o ran materion sy'n ymwneud â chyfranogiad, gwerthuso ac effeithiau economaidd. Ond dylid cymryd gofal hefyd i nodi amrywiadau ar ffurf, arfer a phrofiad LEADER mewn gwahanol rannau o'r Undeb Ewropeaidd (Konecny 2019) – fel a nodwyd hefyd gan ddadansoddiadau cymharol o LEADER yng Nghymru a Sbaen gan Navarro et al. (2016) ac yng Nghymru a'r Almaen gan Müller (2001) yn ogystal â chymhariaeth ehangach Derkzen o weithio mewn partneriaeth mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru a'r Iseldiroedd (Derkzen 2008).

**Llwybr LEADER yng Nghymru a Materion Allweddol**

6.6 Roedd astudiaethau cynnar o LEADER yng Nghymru yn pwysleisio newydd-deb y dull gweithredu a'i bwyslais ar ddulliau arloesol, ac amlygwyd pedair nodwedd yr ystyriwyd eu bod yn golygu bod LEADER yn wahanol i strategaethau blaenorol ar gyfer datblygu gwledig sy'n fwy o'r brig i lawr ac sy'n canolbwyntio mwy ar fewnfuddsoddi. Yn gyntaf, y lle canolog sydd i ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol; yn ail, y gofyniad am weithio mewn partneriaeth ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol; yn drydydd, llunio camau gweithredu o amgylch hunaniaethau a blaenoriaethau tiriogaethol, gan felly gydnabod cymeriad gwahanol y Gymru wledig; ac yn bedwerydd, yr arwyddocâd a roddir i ddatblygu gwledig integredig sy'n torri ar draws sectorau economaidd confensiynol (Bristow 2000; Day 1998; Edwards 1998; Edwards et al. 2000; Müller 2001; Shucksmith 2000).

6.7 Gyda'i gilydd, cyflwynwyd bod y nodweddion hyn yn creu dull o ddatblygu gwledig sydd wedi'i arwain gan y cymunedau gwledig eu hunain a'r modd y maent yn nodi eu problemau a'u blaenoriaethau eu hunain. Gweithredwyd y dull hwn gan Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru yn LEADER I a LEADER II drwy ddefnyddio arfarniadau cymunedol a thechnegau tebyg i lunio eu rhaglenni (Asby a Midmore 1996; Edwards 1998; Müller 2001). Fel y cofnododd Asby a Midmore (1996) ac Edwards (1998), datblygwyd y dull hwn drwy sawl fersiwn o weithredu cymunedol yng Nghymru cyn i LEADER gael ei gyflwyno, yn bennaf gan SPARC, ond roedd yn addas iawn ar gyfer egwyddorion menter LEADER. Roedd cwmpasu problemau a blaenoriaethau drwy arfarniadau cymunedol ac ymgysylltu â grwpiau cymunedol wrth gynllunio yn rhoi sylfaen dystiolaeth gadarn i LEADER I a LEADER II ar gyfer gweithredu. Roedd hyn yn gwrthgyferbynnu â sylw Moseley (2003) bod y modd brysiog y cyflwynwyd LEADER I mewn mannau eraill wedi arwain at lawer o achosion lle na chynhaliwyd arolwg cychwynnol digonol o anghenion ac adnoddau, neu nad oedd arolwg o'r fath yn bodoli i bob pwrpas (t 152). Yn unol â hynny, roedd trafodaethau cyffredinol am raglen LEADER gan Moseley (2003), Midmore (1998) a Shucksmith (2000) oll yn hyrwyddo SPARC fel model rôl. Cyfrannodd hyn at ddatblygu enw da SPARC ledled Ewrop fel model clodwiw o'r dull LEADER (Moseley 2003, t 16) (er bod Müller (2001) hefyd yn nodi bod Grwpiau Gweithredu Lleol Antur Teifi, Menter Powys De Gwynedd yn defnyddio dulliau tebyg).

6.8 Roedd y pwyslais a roddwyd ar rymuso'r gymuned a meithrin gallu yn LEADER I a II yng Nghymru, yn ogystal â chyfranogiad gweithredol cynrychiolwyr cymunedol a phartneriaid eraill mewn Grwpiau Gweithredu Lleol, yn ôl yr ymchwilwyr, yn nodweddion pellach o ymrwymiad cryf i ddefnyddio LEADER i gryfhau cynllunio o'r gwaelod i fyny, democrateiddio a llywodraethu cynhwysol y nodwyd unwaith eto eu bod yn llai amlwg mewn gwladwriaethau eraill. Nododd Müller (2001), er enghraifft, fod y sylw i ddulliau gweithredu o'r gwaelod i fyny yn fwy helaeth mewn Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru nag mewn Grwpiau Gweithredu Lleol yn yr Almaen, ac roedd Derkzen (2010) yn ystyried bod gweithio mewn partneriaeth mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru yn fwy cyffredinol yn amlygu pwyslais ar ddilysrwydd a chynnwys cymdeithas sifil mewn datblygu gwledig nad oedd i'w gweld yn yr Iseldiroedd. Ac eto, mewn cymhariaeth ddiweddarach o LEADER yng Nghymru a Sbaen, mae Navarro et al. (2016) yn dod i gasgliad cyferbyniol, gan ganfod bod rheolwyr Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru yn llai tebygol na'u cymheiriaid yn Andalusia o ystyried bod LEADER wedi cyfrannu at ddatganoli'r broses o wneud penderfyniadau yn eu hardal (Tabl 6.1).

**Tabl 6.1 Ymatebion rheolwyr Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru ac Andalusa i'r cwestiwn 'A yw'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi cyfrannu at ddatganoli'r broses o wneud penderfyniadau yn ei ardal?', o Navarro et al. (2016)**

| | Pob ymateb | % | Cymru | % | Andalusia | % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydy | 24 | 55.8 | 4 | 36.4 | 20 | 62.5 |
| Nac ydy | 10 | 23.3 | 3 | 27.3 | 7 | 21.9 |
| Dim barn | 5 | 11.6 | 3 | 27.3 | 2 | 6.3 |
| Dim ateb | 3 | 7.0 | 0 | 0 | 3 | 9.4 |
| 'Ydy a Nac ydy' | 1 | 2.3 | 1 | 9.1 | 0 | 0.0 |
| Cyfanswm | 43 | 100.0 | 11 | 100.0 | 32 | 100.0 |

6.9 Mae'n werth nodi bod priodoleddau cadarnhaol LEADER yng Nghymru a ganmolwyd mewn astudiaethau academaidd cynnar yn ymwneud â *phroses* yn hytrach na *chanlyniadau*, er gwaethaf sylw Shucksmith (2000) fod y rhan fwyaf o grwpiau LEADER y DU wedi mynd ar drywydd creu swyddi ac allbynnau tebyg eraill a dim ond ychydig a roddodd bwyslais ar nodau proses (t 212) (er bod Shucksmith yn cyfeirio at SPARC fel un o'r eithriadau). Gellir egluro'r duedd hon yn y llenyddiaeth yn rhannol gan amserlenni, gan fod y rhan fwyaf o'r papurau dan sylw wedi'u cyhoeddi yn ystod blynyddoedd cyntaf LEADER pan nad oedd effeithiau materol yn amlwg efallai, ond mae hefyd yn adlewyrchu y gall methodoleg arloesol LEADER fod yn anodd i'w gwerthuso.

6.10 Ymhelaethodd Midmore (1998) ar yr her o werthuso mewn papur a oedd yn trafod y dull LEADER fel cynllun trawswladol ond a ddangoswyd i raddau helaeth gan enghreifftiau o Gymru. Gan fyfyrio ar LEADER I, dadleuodd Midmore, er y gellir ystyried bod y cynllun yn llwyddiant ar sail yr amrywiaeth rhyfeddol o weithgarwch datblygu gwledig lleol a oedd yn rhan ohono, roedd rhwydweithio ac (yn amlycach) monitro a gwerthuso yn llawer llai effeithiol (t 413). Daeth materion i'r amlwg yn sgil cynnwys nodau proses na ellid eu tracio'n hawdd gan ddefnyddio metrigau meintiol, absenoldeb ystadegau priodol ar ardaloedd bach ar gyfer dangosyddion economaidd-gymdeithasol a oedd yn mapio i diriogaethau'r Grwpiau Gweithredu Lleol, ac anhawster datgysylltu effeithiau achosol LEADER o rai ymyriadau eraill a phrosesau economaidd-gymdeithasol ehangach (wedi'i waethygu, gellid ychwanegu, gan y ffaith bod sawl sefydliad a oedd yn cynnal Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru fel rhan o LEADER I, LEADER II a LEADER+ wedi cael arian o sawl rhaglen, fel y noda Derkzen (2010) yn achos Cadwyn Clwyd).

6.11 Mewn ymateb i'r heriau hyn, roedd Midmore yn argymell dull deinamig gan werthuso drwy gydol cyfnod cyllid LEADER, nid yn unig ar y diwedd, a chynnwys ystod ehangach o weithgareddau ymgysylltu a oedd yn cynnwys asesiadau ansoddol. Er enghraifft, nododd Midmore fod dulliau arbrofol o werthuso Antur Teifi a SPARC yn LEADER I wedi cynnwys cofnodi a dadansoddi dogfennau, arsylwi mewn cyfarfodydd a chyfweliadau â chyfranogwyr a buddiolwyr (Midmore et al. 1994; Venus 1995). Awgryma Midmore fod y dulliau hyn yn caniatáu dealltwriaeth o broses datblygu gwledig a rhyngweithio â'r broses, gan wella rheolaeth y prosiect a'i effeithiolrwydd tra'n parhau'n allanol i bob pwrpas, ac felly'n gredadwy" (t 421). O'r herwydd, roedd Midmore yn argymell y dylai gwerthuso fod yn rhan annatod o brosiectau datblygu gwledig lleol (t 409).

6.12 Mae gwerthuso yn rhan integredig o gynlluniau LEADER dilynol, a defnyddiwyd dulliau deinamig ac ansoddol wrth werthuso Grwpiau Gweithredu Lleol eraill yng Nghymru ac mewn mannau eraill (Bosworth et al. 2016; High a Nemes 2007; Moseley 2003), fodd bynnag, mae'r broblem o asesu effaith faterol prosiectau LEADER yn ddigonol wedi parhau, ac mae hyn yn adlewyrchu profiadau mewn rhannau eraill o Ewrop. Nododd Márquez et al. (2005) yn Sbaen, er enghraifft, mai canlyniadau cymysg sydd i bolisïau datblygu gwledig mewn ardaloedd LEADER, a bod hyn yn ffaith sydd wedi'i hamlygu ond heb ei gwerthuso'n ddigonol" (t 138, dyfynnwyd gan Navarro et al. 2016), a dywedodd Navarro et al. (2016) fod

canlyniadau cymysg canfyddiedig LEADER wedi cyfrannu at ailddiffinio ei rôl ym mholisi datblygu gwledig yr UE o 2007 (t. 274).

6.13 Y tu hwnt i faterion gwerthuso, mewn gwaith ymchwil ar LEADER yng Nghymru yn ystod cyfnodau cynnar y rhaglen, nodwyd nifer o gyfyngiadau gyda'r dull. Yn gyntaf, nodwyd bod natur gyfyngedig y tymor cyllido yn creu diffyg parhad yn y cymorth rhwng rhaglenni (Gardner 2011) a bod y gofynion am arian cyfatebol wedi'u bodloni drwy lywodraeth leol, a oedd wedi cyfyngu ar ymreolaeth y Grwpiau Gweithredu Lleol drwy eu clymu'n agosach at flaenoriaethau awdurdodau lleol (Shucksmith 2000). At hynny, dywedodd Bristow (1998) a Shucksmith (2000) fod y cyfyngiadau yn sgil dibyniaeth ar arian cyfatebol drwy awdurdodau lleol wedi'u gwaethygu gan doriadau i gyllidebau cynghorau. Nododd Bristow er enghraifft fod cyfyngiadau ariannu awdurdodau lleol wedi cwtogi ar weithgareddau arloesol mewn busnes bwyd gan SPARC (t 29).

6.14 Yn ail, gwelwyd hefyd bod y gallu i weithredu ac effeithiolrwydd Grwpiau Gweithredu Lleol yn cael eu llesteirio gan strwythur sefydliadol cymhleth llywodraeth leol a rhanbarthol yng Nghymru. Felly, er bod Day (1998) yn dadlau bod SPARC wedi gweithredu fel hwylusydd ar gyfer datblygu gwledig drwy osod ei hun yng nghanol gwe sefydliadol, sy'n croesi adrannau sectoraidd, gan gysylltu'r lleol, a phryderon lleol, â'r fframweithiau llywodraethu a rheoleiddio rhanbarthol, cenedlaethol ac Ewropeaidd ehangach (t 101), roedd Midmore (1998) yn fwy gofalus, gan nodi,

> One major obstruction encountered by the LEADER scheme has been, paradoxically, as a result of their horizontal, integrated orientation. In the context of state and regional administrations, organised in predominantly hierarchical, sectoral order, this has caused difficulties in unravelling complexities and also generating insecurity (t 423).

6.15 Rhybuddiodd Edwards et al. (2000) yn yr un modd fod llawer wedi'i wneud o'r gallu sydd gan bartneriaethau i gyfuno mentrau 'o'r brig i lawr' ac 'o'r gwaelod i fyny’, ond bod tensiynau'n parhau wrth fynd i'r afael â chyfranogiad statudol a chymunedol (t. 35). Daeth Derzken (2008) i'r casgliad bod y posibilrwydd o ddylanwadu ar ddatblygu gwledig yng Nghymru yn dibynnu'n fawr ar barodrwydd yr awdurdod lleol i rannu gwybodaeth a'r broses o wneud penderfyniadau oddi mewn i bartneriaethau gwledig (t 132).

6.16 Nododd Bristow (2000) yn benodol fod absenoldeb un corff cydgysylltu ar gyfer datblygu gwledig yn ffactor a oedd yn cyfyngu ar allu LEADER I a LEADER II, gan olygu bod gwahanol ffrydiau yn cyflwyno blaenoriaethau gwahanol ar gyfer arian cyfatebol:

> No single agency within the region has the authority to direct and fund the actions of all the other agencies, such that there exists both fragmented financial sponsorship and a competitive culture for bidding for the necessary funds. The problem is particularly acute for the LEADER groups in Wales which, since local government reorganisation, have seen a higher proportion of their funding handed over to local authority control (t 29).

6.17 Fodd bynnag, lleddfwyd y mater hwn gan ddatganoli a'r rôl strategol a chwaraewyd wedyn gan Lywodraeth Cymru a'i hasiantaethau, fel y rhagwelwyd gan Bristow (1998).

6.18 Yn drydydd, mae'r llenyddiaeth academaidd hefyd wedi nodi bod gweithrediad ac effaith LEADER yng Nghymru yn anwastad, o leiaf yn ystod ei chyfnodau cynnar, a nododd Gardner (2011) nad yw'r rhan fwyaf o'r Gymru wledig wedi elwa o'r holl raglenni dilynol (t 99). Arweiniodd fformat cystadleuol LEADER I, LEADER II a LEADER+ at gwmpas wedi'i dargedu, gyda dim ond pedwar o 14 cais o Gymru ar gyfer LEADER er enghraifft yn derbyn cyllid, ac roedd hefyd yn rhoi mantais i geisiadau gan sefydliadau sefydledig sydd eisoes yn weithgar ym maes datblygu gwledig (ffactor a nodwyd hefyd gan Moseley 2003 yn achos LEADER yn Lloegr). Mae Asby a Midmore (1996) ac Edwards (1998) yn disgrifio sut y cafodd gweithrediad llwyddiannus Antur Teifi a SPARC fel Grwpiau Gweithredu Lleol yn LEADER ei alluogi gan eu gwaith datblygu cymunedol blaenorol cyn LEADER, ac yn ôl Shucksmith (2000), pan gyrhaeddodd LEADER, roedd SPARC yn glir yn ei weledigaeth ac yn hyderus yn ei allu (t 212).

6.19 At hynny, roedd presenoldeb Grŵp Gweithredu Lleol LEADER a'r gwaith o feithrin gallu a wnaed gyda chymunedau lleol yn atgyfnerthu ymhellach fantais gystadleuol cymunedau a sefydliadau mewn ardaloedd LEADER wrth wneud cais am ragor o gronfeydd datblygu gwledig. Yn eu hadolygiad o weithio mewn partneriaeth ac adfywio gwledig yng Nghanolbarth Cymru a Swydd Amwythig, gwnaeth Edwards et al. (2000) ganfod bod grwpiau mewn ardaloedd a fu'n ymwneud â LEADER mewn sefyllfa well i wneud cais am gyllid ac i addasu i weithio mewn partneriaeth na'r rhai

mewn ardaloedd gwledig eraill, a dyfynnwyd un cynrychiolydd asiantaeth ariannu a ddywedodd,

> LEADER areas are notorious for this … you can almost plot them on a map in terms of applications that they make to a whole range of bodies because they are confident, and they have also developed ‘style’ and experience. (Cyfarwyddwr corff cyllido, dyfynnwyd gan Edwards et al., 2000, t 15).

6.20 Roedd Midmore (1998) yn yr un modd yn dadlau bod y pwyslais gan rai Grwpiau Gweithredu Lleol ar roi grantiau, o leiaf i ddechrau, o fudd i'r rhai sydd eisoes â mantais ac a all fuddsoddi (t. 423), gan atgyfnerthu anghydraddoldebau oddi mewn i ardaloedd LEADER. Yn unol â hynny, daeth Edwards et al. (2000) i'r casgliad bod mecanweithiau'r polisi cystadleuol sy'n cael ei hybu gan LEADER a chynlluniau tebyg yn arwain at 'enillwyr' a 'chollwyr' – mae rhai ardaloedd yn dod yn gyfoethog o gynlluniau adfywio, mae eraill yn dlawd – ac mae'r broses yn gronnol ac yn atgyfnerthu (tt 45-46).

6.21 Yn bedwerydd, er bod Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru wedi'u canmol yn y llenyddiaeth academaidd fel modelau rôl mewn perthynas â'u hymagwedd at ymgysylltu â'r gymuned a meithrin gallu, nododd ymchwilwyr hefyd na chafodd agweddau eraill ar fethodoleg LEADER eu croesawu cystal, yn enwedig rhwydweithio trawswladol. Er bod Moseley (2003) a Müller (2001) ill dau yn darparu enghreifftiau o Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn cyfnewidfeydd ac ymweliadau trawswladol, canfu ymchwil Müller fod rhwydweithio trawswladol yn flaenoriaeth isel i grwpiau LEADER I yng Nghymru, gan nodi barn un cynrychiolydd Grŵp Gweithredu Lleol bod prosiectau lleol yn cynnig gwell gwerth am arian ac felly dylid eu hystyried fel y ffordd allweddol i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer datblygu lleol (t. 210). Fodd bynnag, ar y llaw arall, nodwyd yn y llenyddiaeth academaidd bod rhwydweithio rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru yn arfer gorau, yn enwedig ar ôl prif ffrydio LEADER yn 2007 ac ehangu'r cwmpas. Mae Brown (2010) yn dweud yr aeth Cymru ati'n gyflym gan ffurfio Rhwydwaith Gwledig Cymru yn 2009 a hwyluso dysgu rhwng cyfranogwyr LEADER sefydledig a newydd.

6.22 Mewn addasiadau i'r rhaglen yn LEADER+ ac yn enwedig ar ôl prif ffrydio yn 2007, aethpwyd i'r afael â llawer o'r materion a'r cyfyngiadau a nodwyd mewn astudiaethau academaidd cynnar a oedd yn canolbwyntio ar LEADER I a LEADER II, ond gellid dadlau bod cost ynghlwm wrth hynny. Mor gynnar â diwedd y 1990au,

roedd Bristow (2000) wedi rhybuddio bod y rôl gynyddol i awdurdodau lleol o ran rheoli ceisiadau gan Grwpiau Gweithredu Lleol ar gyfer cronfeydd y Swyddfa Gymreig (fel ag yr oedd bryd hynny) yn bygwth sefydliadu gweithgareddau LEADER drwy bwysau i gydymffurfio â blaenoriaethau awdurdodau lleol a'u cyflawni (t 29). Dadleuodd Shucksmith (2000) yn yr un modd mai un o nodweddion LEADER II mewn sawl rhan o'r DU oedd bod asiantaethau ac awdurdodau eraill wedi 'cipio' LEADER a bod hyn yn llesteirio datblygiad gwirioneddol fewndarddol (t 213). Daeth adolygiad gan Arsyllfa Wledig Cymru (2004) i'r casgliad pellach fod cryfhau rheolaethau o'r brig i lawr yn LEADER wedi cyfyngu ar ddisgresiwn lleol, fel nad yw cymunedau wedi'u cynnwys i'r graddau yr oeddent eisiau bod (t 34).

6.23 Wrth brif ffrydio LEADER ar ôl 2007, cafwyd mwy o gydgysylltu strategol a mwy o gysondeb o ran dull gweithredu, ac ehangwyd ei gwmpas i bob rhan o Gymru a oedd yn gymwys i gael cymorth gan y Rhaglen Datblygu Gwledig. Fodd bynnag, roedd hefyd wedi gwreiddio LEADER yn fwy cadarn yn y sector cyhoeddus, wedi cyflwyno mwy o lywio o'r brig i lawr, ac wedi gwneud y broses o ymgeisio am gyllid yn fwy cymhleth (Brown 2010). Fel y gwnaeth swyddog o Lywodraeth Cymru gydnabod mewn dyfyniad yn yr adroddiad gan Ymddiriedolaeth Carnegie UK, roedd y rhaglen newydd yn dangos tensiwn rhwng hyblygrwydd y dull LEADER a'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r Cynllun Datblygu Gwledig (Brown 2010, t 13).

6.24 Nododd rheolwyr Grwpiau Gweithredu Lleol a fu'n rhan o arolwg gan Navarro et al. (2016) fod prif ffrydio LEADER yn drobwynt a symudodd bwyslais strategol oddi wrth gyfranogiad ac ymreolaeth leol. Mewn dyfyniad gan un, dywedwyd bod penderfyniadau datganoledig wedi'u cefnogi ar gyfer LEADER I, II a + yn unig, ac yn llai felly hyd yma yn y Rhaglen Ddatblygu Gwledig yn y cyfnod 2007/2013 (t 277). Nododd Navarro et al. fod wyth o'r 11 o reolwyr Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru a ymatebodd i'w harolwg wedi sôn am ymyriadau gormodol gan Lywodraeth Cymru mewn sylwadau agored wrth drafod canfyddiadau o weithrediad y Cynllun Datblygu Gwledig, a bod saith ymatebydd wedi beirniadu colli nodweddion ac athroniaeth y dull LEADER ers integreiddio i'r Cynllun Datblygu Gwledig (t 280).

6.25 Fodd bynnag, dylai'r sylwadau hyn fod yn amodol drwy gydnabod mai prin iawn yw'r dystiolaeth empirig sydd ar gael mewn gwaith ymchwil academaidd am weithrediad neu effaith LEADER yng Nghymru ar ôl prif ffrydio yn 2007, a Navarro et al. (2016) yw'r unig astudiaeth nodedig. At hynny, er gwaethaf y pryderon a fynegwyd am y

canfyddiad bod athroniaeth LEADER wedi'i gwanhau, roedd yr ymatebwyr i arolwg Navarro et al. yn gadarnhaol ar y cyfan am yr ymreolaeth a oedd gan y Grŵp Gweithredu Lleol i wneud penderfyniadau a'r cyfraniad at yr arfer o wneud penderfyniadau yn lleol (Tabl 6.2), yn ogystal â'u gallu i gynnwys cyfranogwyr o wahanol gyrff a chefndiroedd.

**Tabl 6.2: Canfyddiadau rheolwyr Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru ac Andalusia o ymreolaeth a chyfraniadau at yr arfer o wneud penderfyniadau yn lleol, o Navarro et al. (2016) (Cymru n = 11, Andalusia n = 32)**

| | Faint o ymreolaeth gafodd y Grŵp Gweithredu Lleol i wneud penderfyniadau? Graddfa 1 (dim) i 5 (llwyr) | I ba raddau roedd yr arfer o wneud penderfyniadau lleol wedi'i gwella gan eich Grŵp Gweithredu Lleol? Graddfa 1 (dim) i 5 (llwyr) |
|---|---|---|
| Cymedr: pob ymateb | 3.8 | 4.1 |
| Cymedr: GGLlau Cymru | 3.6 | 3.7 |
| Cymedr: GGLlau Andalusia | 3.9 | 4.2 |
| Gwyriad safonol | 0.8 | 0.8 |
| Modd | 4 | 4 |
| Dim ateb | 5 | 0 |

6.26 Un o gyflawniadau mwyaf nodedig LEADER yng Nghymru sy'n amlwg o'r llenyddiaeth academaidd yw meithrin gallu, nid yn unig o ran cymunedau gwledig ond hefyd y sefydliadau sy'n ymwneud â chyflawni LEADER. Mae Derkzen (2008), Edwards et al. (2000) a Gardner (2011) oll yn darparu enghreifftiau o sefydliadau sy'n cynnal Grwpiau Gweithredu Lleol a ehangodd gwmpas eu gweithrediadau drwy wneud cais i ffynonellau ariannu ychwanegol; cynorthwyo, ymuno â neu arwain partneriaethau eraill; ac mewn rhai achosion, sicrhau cynaliadwyedd i barhau'n annibynnol ar gyllid LEADER ar ôl i'r rhaglen ddod i ben. Gwnaeth adroddiad Ymddiriedolaeth Carnegie UK amlygu bod hyn yn nodwedd benodol o LEADER yng Nghymru, gan gyferbynnu â Lloegr lle mai ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o ddull meithrin gallu (Brown 2010, t 5). Yn benodol, nododd yr adroddiad fod Menter Môn yn enghraifft eithriadol o ddatblygiad Grŵp Gweithredu Lleol i fod yn grŵp datblygu lleol amlswyddogaethol a oedd yn darparu mwy neu lai yr ystod gyflawn o wasanaethau datblygu economaidd cymunedol a gwledig – gan gynnwys LEADER – ar gontract i Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff eraill (tt 4-5) ond gresynodd mai ychydig iawn o Grwpiau Gweithredu Lleol yn y DU a ddilynodd y llwybr rhagorol a droediwyd gan Fenter Môn (t 4).

**Agweddau ar y dull LEADER sydd fwyaf angenrheidiol i fynd i'r afael â phroblemau y mae cymunedau gwledig yng Nghymru yn eu hwynebu**

6.27 Cyflwynwyd y dull LEADER gan y Comisiwn Ewropeaidd ym 1991 i fynd i'r afael â phryderon bod amodau strwythurol rhanbarthau gwledig, gan gynnwys bod yn ymylol a chyflogaeth ostyngol mewn amaethyddiaeth a sectorau cynradd eraill ynghyd â thwf araf cyflogaeth amgen, yn cyfyngu ar eu gallu i gystadlu oddi mewn i'r Farchnad Sengl a oedd newydd ei chreu. O'r herwydd, nod LEADER oedd cynyddu cystadleurwydd ardaloedd gwledig drwy ddull arbrofol a oedd yn ystyried datblygu gwledig yn bennaf fel datblygiad tiriogaethol (Van Depoele 2003). Yn wahanol i bolisïau datblygu sectoraidd a rhanbarthol blaenorol, roedd methodoleg LEADER wedi'i ffurfio o amgylch saith prif gydran arloesol (Van Depoele 2003, t 82):

- y dull o'r gwaelod i fyny
- sefydlu strategaeth diriogaethol
- y dull integredig ac aml-sectoraidd
- gwella'r potensial lleol
- y bartneriaeth lorweddol a chyhoeddus-preifat
- rheoli cyllid mewn ffordd ddatganoledig a chyflawn
- rhwydweithio.

6.28 Disgrifiwyd y dull arloesol sydd wedi'i ymgorffori yn yr egwyddorion hyn wedyn yn y llenyddiaeth academaidd fel 'datblygu gwledig neo-fewndarddol', gan ddefnyddio cyllid allanol i ysgogi datblygiad a defnyddio ac ychwanegu gwerth at adnoddau a ganfuwyd o fewn tiriogaeth yn ôl blaenoriaethau a bennwyd yn lleol (Moseley 2003; Ray 2000, 2006). Yn hyn o beth, roedd yn gwrthgyferbynnu â'r dull alldarddol o ddatblygu a oedd yn dibynnu ar ddenu mewnfuddsoddiad ac a oedd yn elfen allweddol o strategaethau datblygu rhanbarthol prif ffrwd a feirniadwyd am wasanaethu ardaloedd gwledig yn wael.

6.29 Roedd y modd yr ystyriwyd yr heriau sy'n wynebu rhanbarthau gwledig a'r feirniadaeth o ddulliau alldarddol yn atseinio'n gryf yng nghefn gwlad Cymru. Roedd rhannau gwledig o Gymru wedi profi heriau strwythurol hirdymor, yn sgil y lleihad yn arwyddocâd ffermio a diwydiannau traddodiadol, seilwaith gwael ac allfudo (Woods 2010). O'r 1960au, roedd Llywodraeth y DU wedi ceisio mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy ymyriadau o'r brig i lawr, gyda phwyslais ar ddenu mewnfuddsoddiad. Er y cafodd y strategaeth hon rywfaint o lwyddiant, yn enwedig ar gyfer clystyrau twf

lleol, denodd feirniadaeth hefyd am gyflwyno mathau newydd o gyflogaeth, yn aml heb fod yn gysylltiedig, nad ydynt efallai'n ymwneud â gweithgarwch sy'n bodoli eisoes ac sydd, yn hytrach nag yn diwallu anghenion pobl leol yn uniongyrchol, yn arwain at newydd-ddyfodiaid yn symud i mewn, a hwythau'n fwy addas ar unwaith i ateb gofynion y drefn economaidd newydd (Day 1998, t 99; gweler hefyd Day a Hedger 1990, Lovering 1983). O'r herwydd, croesawyd LEADER a'i bwyslais ar ddatblygiad mewndarddol dan arweiniad y gymuned gan sylwebyddion fel Day (1998) fel math mwy *priodol* o ddatblygiad ar gyfer cefn gwlad Cymru.

6.30 Roedd y pwyslais yn y dull LEADER ar ddatblygu gwledig integredig hefyd yn cyd-fynd â chydnabyddiaeth gynyddol yng Nghymru o'r cysylltiadau sydd rhwng problemau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a'r angen am safbwyntiau traws-sectoraidd (Bristow 2000). Dros y cyfnod ers cyflwyno LEADER, mae ymchwil academaidd wedi ymhelaethu ymhellach ar yr heriau sy'n wynebu ardaloedd gwledig Cymru sydd nid yn unig yn cynnwys addasu economaidd a chystadleurwydd, ond hefyd faterion sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau, newid demograffig, amddifadedd a thlodi gwledig cudd, tai, pwysau mewnfudo ac allfudo, a thrafnidiaeth, yn ogystal â chynaliadwyedd amgylcheddol a gwydnwch cymunedau Cymraeg (Burholt a Sardini 2018; Cowell 2011; Day 2011; Doheny a Milbourne 2017; Higgs a Langford 2013; Kitchen a Marsden 2011; Milbourne 2011a, 2011b, 2011c; Moles a Radcliffe 2011; Shergold a Parkhurst 2012; Arsyllfa Wledig Cymru 2005, 2006, 2007, 2013; Williams a Doyle 2016). Mae astudiaethau hefyd wedi pwysleisio'r cymeriad gwahanol sydd i ardaloedd gwledig Cymru, gan gynnwys yr heriau penodol y mae trefi bach ac ardaloedd gwledig iawn yn eu hwynebu, sy'n galw am ymyriadau'n seiliedig ar le sy'n cyd-fynd â dull tiriogaethol LEADER (Arsyllfa Wledig Cymru 2009; Woods 2011).

6.31 Mewn astudiaethau academaidd a llenyddiaeth mwy diweddar, nodwyd heriau newydd sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ac, yn fwyaf diweddar, effaith pandemig COVID-19 a'r camau rheoli cysylltiedig. Mae’r effeithiau posibl a ragwelir yn sgil Brexit yn deillio o newidiadau mewn cyfundrefnau polisi, gan gynnwys cymorth i ffermydd, newidiadau i amodau'r farchnad gyda mynediad cyfyngedig i farchnadoedd yr UE a chystadleuaeth gynyddol bosibl i farchnadoedd domestig yn sgil cytundebau masnach dilynol, ac amharu ar y cyflenwad llafur mewn sectorau gan gynnwys gofal, lletygarwch a phrosesu bwyd yn sgil polisïau mewnfudo newydd (CWPS/CRE 2018; Dwyer 2018; Woods 2020a, 2020b). Mae'r

achosion o COVID-19 wedi ail-lunio cwestiynau ymhellach am ddyfodol ardaloedd gwledig Cymru, drwy effaith uniongyrchol y cyfyngiadau symud ar fusnesau a'r cynnydd a ragwelir mewn diweithdra. Amlygodd hyn anghydraddoldebau fel mynediad i seilwaith digidol a gofal iechyd ynghyd â materion yn ymwneud â thai fforddiadwy a dibyniaeth ar dwristiaeth ac mae wedi ailgynnau hen ddadleuon am atebolrwydd strategaethau datblygu economaidd i gymunedau lleol (Woods 2020b).

6.32 Er nad yw'r llenyddiaeth academaidd wedi trafod yn uniongyrchol rôl LEADER mewn perthynas â'r heriau hyn wrth symud ymlaen, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn y llenyddiaeth ar LEADER yng Nghymru yn caniatáu i nifer o agweddau allweddol ar y dull gael eu nodi fel egwyddorion neu strategaethau pwysig ar gyfer mynd i'r afael yn effeithiol â'r problemau a nodwyd uchod sy'n wynebu ardaloedd gwledig Cymru.

6.33 Yn gyntaf, mae'r pwyslais ar **ddatblygu mewndarddol** yn y dull LEADER yn ymateb angenrheidiol i ansicrwydd rhwydweithiau economaidd byd-eang, llif cyfalaf a chysylltiadau masnach yng nghyd-destun Brexit a dirwasgiad byd-eang ar ôl COVID. Mae prosiectau datblygu mewndarddol sy'n cael eu cefnogi gan LEADER nid yn unig yng Nghymru ond ledled Ewrop, fel a ddogfennwyd gan Bristow (2000), Brown (2010), Moseley (2003) ac eraill, yn cynnig enghreifftiau niferus o fentrau a all ychwanegu gwerth at gynhyrchion amaethyddol a chrefft lleol, cefnogi datblygiad busnesau mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell, cryfhau manteision twristiaeth i gymunedau gwledig, a datblygu diwydiannau creadigol a allai ddarparu mwy o gyfleoedd i gadw pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig. Yn benodol, mae'r arfer faith lle mae Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER yng Nghymru yn cefnogi cynhyrchu bwyd lleol ac yn hyrwyddo cynnyrch lleol (Bristow 2000; Moseley 2003) yn cysylltu â galwadau o'r newydd i ailadeiladu systemau bwyd lleol fel ymateb i amodau newidiol y farchnad ar ôl Brexit, yr ansicrwydd mewn cadwyni cyflenwi bwyd byd-eang a amlygwyd gan COVID-19 ac fel elfen graidd yn yr economi sylfaenol.

6.34 Yn ail, gellir ystyried bod y lle canolog sydd i **feithrin gallu** yn y dull LEADER yn hanfodol i fynd i'r afael â phroblemau gwledig, p'un a yw'n cael ei ddeall fel; cryfhau cydnerthedd cymunedol i addasu i bandemigau yn y dyfodol, effeithiau newid yn yr hinsawdd neu ergydion economaidd, ar lefel datblygu busnesau a gwella sgiliau unigol sy'n adlewyrchu anghenion i arallgyfeirio economïau gwledig oddi wrth ddibyniaeth ar gyflogwyr unigol, y sector cyhoeddus neu ddiwydiannau fel twristiaeth; galluogi busnesau a thrigolion gwledig i fanteisio ar gyfleoedd yn sgil

technolegau newydd; a darparu mwy o lwybrau i bobl ifanc aros mewn cymunedau gwledig neu ddychwelyd ar ôl addysg. Mae cynlluniau blaenorol a gynhaliwyd gan Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru a oedd yn canolbwyntio ar gyngor busnes a hyfforddiant, rhwydweithio TG, ac adnewyddu adeiladau at ddefnydd cymunedol, fel a nodwyd gan Gardner (2011) a Moseley (2003), yn ogystal â gwaith meithrin gallu cymunedol cynnar gan grwpiau fel Antur Teifi a SPARC, fel a nodwyd gan Asby a Midmore (1995), Midmore (1998) a Shucksmith (2000), yn darparu tystiolaeth ar gyfer y cyfraniad arfaethedig hwn.

6.35 Yn drydydd, mae ffocws **tiriogaethol** y dull LEADER yn cyd-fynd â phwyslais ar yr angen am ddulliau seiliedig ar le mewn datblygu gwledig a rhanbarthol ac yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Jones et al. 2020). Mae Powell et al (2018), mewn adolygiad o dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio i fynd i'r afael â thlodi gwledig ar gyfer Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, yn cyfeirio at ddull tiriogaethol LEADER fel enghraifft o raglennu strategol dros ardal gyfan a all gyflawni nodau lliniaru tlodi a chynhwysiant cymdeithasol drwy fuddsoddiad wedi'i dargedu. Yn benodol, mae'r dull tiriogaethol yn cynnig ffordd bwysig i fynd i'r afael â'r heriau penodol sy'n wynebu cymunedau gwledig lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg mewn perthynas â phriodoldeb cyfleoedd economaidd, cystadleuaeth am dai, a gwanhau diwylliant lleol, gan adeiladu ar brosiectau blaenorol a gefnogwyd gan LEADER gan gynnwys gwaith gan Grŵp Gweithredu Lleol De Gwynedd yn LEADER II, fel a amlygwyd gan Moseley (2003), a'r gyfatebiaeth rhwng datblygiad mewndarddol a diwylliant tiriogaethol a bwysleisiwyd gan Day (1998).

6.36 Yn bedwerydd, er nad yw'n egwyddor graidd, ers ei sefydlu, mae LEADER wedi ymgorffori'n gyson y broses o integreiddio **cynaliadwyedd amgylcheddol** ac economaidd, fel sydd wedi'i gynrychioli mewn prosiectau gan Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru a gofnodwyd yn y llenyddiaeth gan gynnwys cynnal a chadw llwybrau troed ac archwiliadau amgylcheddol ar ffermydd, a mentrau cadwraeth lleol (Day 1998; Moseley 1995, 2003). Mae camau i gefnogi prosiectau amgylcheddol o'r fath sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn bwysig er mwyn i ddatblygu gwledig yn y dyfodol gyd-fynd â'r rheidrwydd i leihau allyriadau carbon a gwella arferion rheoli tir yn gynaliadwy, a chydag amcanion polisi i hybu 'adferiad gwyrdd' ac 'atebion sy'n seiliedig ar natur'.

6.37 Yn bumed, mae'r egwyddor graidd sylfaenol o **ddatblygu o'r gwaelod i fyny ac ymgysylltu â'r gymuned** yn y dull LEADER yn parhau'n bwysig ac mae iddi arwyddocâd o'r newydd yn sgil dadleuon diweddar ynghylch anghydraddoldebau tiriogaethol, twristiaeth ac atebolrwydd strategaethau datblygu economaidd a ysgogwyd gan brofiadau yn argyfwng COVID-19. Mae dadleuon ynghylch twristiaeth mewn rhannau o gefn gwlad Cymru, a nodwyd mewn ymchwil ddiweddar ar ddeinameg wledig-drefol (Woods 2020a, 2020b) yn dangos tensiwn sydd wedi datblygu o anghydbwysedd ym model LEADER: mae twf twristiaeth yng nghefn gwlad Cymru wedi bod yn llwyddiant nodedig o ran datblygu mewndarddol, gyda chefnogaeth prosiectau a weithredwyd gan Grwpiau Gweithredu Lleol, ond gellid dadlau bod y canfyddiad nad oes gan gymunedau lleol unrhyw ddylanwad dros hybu neu reoleiddio twristiaeth yn adlewyrchiad o wanhau ymreolaeth a llywio lleol o fewn LEADER fel a nodwyd gan Navarro et al. (2016) a Shucksmith (2000). Gellir ystyried bod adfer y pwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned a oedd yn amlwg yng Ngrwpiau Gweithredu Lleol Cymru yn LEADER I a II, adfer y defnydd o arfarniadau neu arolygon cymunedol i nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu gwledig, yn gam angenrheidiol i sicrhau ymatebion cynhwysol i'r problemau sy'n wynebu'r Gymru wledig.

**Agweddau ar y model LEADER sy'n anodd eu gweithredu yng nghefn gwlad Cymru**

6.38 Fel a nodwyd uchod, er bod y llenyddiaeth academaidd ar LEADER yng Nghymru yn gadarnhaol ar y cyfan am y dull LEADER a'i gyflawniadau yng nghefn gwlad Cymru, y mae hefyd wedi nodi materion yn ymwneud â gweithredu, rhwystrau a chyfyngiadau. Fodd bynnag, ni wnaed unrhyw achos yn y llenyddiaeth academaidd bod agweddau ar y model LEADER sydd yn amherthnasol neu'n llai perthnasol yng nghefn gwlad Cymru, ac mae tystiolaeth wedi'i chofnodi o gymhwyso'r holl egwyddorion allweddol a amlinellwyd gan Moseley (2003) a Van Depoele (2003) mewn enghreifftiau gan Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru. Gwelodd Müller (2001) fod Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru yn rhoi llai o flaenoriaeth i rwydweithio trawswladol, a ystyriwyd yn ddwys o ran adnoddau ac yn llai effeithiol yn uniongyrchol o ran cyflawni amcanion na gweithredu lleol. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth Müller yn ymwneud â gweithgareddau yn LEADER I yn unig a nododd fod y Grwpiau Gweithredu Lleol a astudiwyd yn bwriadu cynyddu ymgysylltiad trawswladol yn LEADER II a bod cysylltiadau archwiliadol wedi'u gwneud â Grwpiau

Gweithredu Lleol mewn gwledydd gan gynnwys yr Almaen, Iwerddon a Sweden. Nid oes unrhyw asesiad wedi'i wneud mewn ymchwil academaidd o rwydweithio trawswladol gan Grwpiau Lleol yng Nghymru mewn cyfnodau rhaglennu dilynol.

6.39 Roedd llawer o'r cyfyngiadau a'r diffygion a adroddwyd yn y llenyddiaeth academaidd, yn enwedig mewn perthynas â LEADER I ac LEADER II, yn deillio mwy o'r cyd-destun strwythurol yr oedd Grwpiau Gweithredu Lleol yn gweithredu ynddo na chyfyngiadau'r dull LEADER ei hun, a rhoddwyd sylw i rai wrth i'r cynllun gael ei fireinio mewn cylchoedd dilynol. Fodd bynnag, mae Bristow (2000), Shucksmith (2000), Brown (2010) a Navarro et al. (2016) oll yn nodi tensiwn yn y model LEADER rhwng egwyddorion ymreolaeth leol a chynllunio o’r gwaelod i fyny a gofynion llywodraethu er mwyn sicrhau cydgysylltiad strategol, cysondeb o ran cyflawni, ac atebolrwydd am arian cyfatebol. Aethpwyd i'r afael â'r tensiwn hwn yng Nghymru dros amser drwy gryfhau cydgysylltiad a rheoleiddio o'r brig i lawr, a gellid dadlau bod hyn wedi peryglu'r arfer o lynu wrth egwyddorion ymreolaeth leol a chynllunio o'r gwaelod i fyny ond nid yw o reidrwydd yn golygu nad yw'r egwyddorion hyn bellach yn bresennol yn y dull LEADER yng Nghymru neu nad ydynt yn berthnasol.

6.40 Nid yw materion eraill a nodwyd ynglŷn â gweithredu LEADER yng Nghymru a'i effaith o reidrwydd wedi'u cyfyngu i'r model LEADER, nac i gyd-destun y Gymru wledig, ond maent yn adlewyrchu heriau ehangach o ran cymhwyso datblygiad mewndarddol a gweithio mewn partneriaeth mewn rhanbarthau gwledig. Mae tri mater allweddol yn amlwg yn y llenyddiaeth.

*Ehangder y gynrychiolaeth*

6.41 Yn ôl Moseley (2003) a Van Depoele (2003), mae dull partneriaeth yn elfen allweddol o'r model LEADER, ac roedd Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru yn LEADER I, LEADER II a LEADER+ yn gweithredu yn ôl fframwaith teirochrog, gyda chynrychiolaeth o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Fodd bynnag, bu cynnal cyfranogiad eang yn heriol. Gwelodd Navarro et al. (2016) fod rheolwyr Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru wedi nodi nad oedd gwahanol grwpiau cymdeithasol yn cymryd rhan i'r un graddau (Tabl 6.3) ac roedd rheolwyr Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru yn llai tebygol na'u cymheiriaid yn Andalusia i gytuno bod LEADER wedi helpu i gynyddu cyfranogiad grwpiau ymylol mewn penderfyniadau lleol, gyda dim ond tri o 11 o ymatebwyr yn cytuno. At hynny, dywedodd pump o'r 11 o reolwyr Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru fod

cyfranogwyr ychwanegol y dylid eu cynrychioli. Cyfeiriwyd at grwpiau targed gan gynnwys pobl ifanc, menywod, entrepreneuriaid, busnesau bach, y sector preifat, cynghorau gwirfoddol sirol, sefydliadau sector cyhoeddus a all alluogi newid, ffermwyr ifanc, cymdeithasau cymdeithasol, ymsefydlwyr newydd, perchnogion ystadau coedwigaeth mawr, sectorau addysgol, diwylliannol a chwaraeon, a grwpiau sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol (Navarro et al. 2016, t 279).

**Tabl 6.3: Asesiad Rheolwyr Grwpiau Gweithredu Lleol o faint o ran oedd gan gwahanol grwpiau mewn Grwpiau Gweithredu Lleol (ar raddfa o 1 (dim rhan) i 5 (rhan sylweddol)) o Navarro et al. (2016)**

| | Cyfartaledd (pob GGLl) | Cyfartaledd GGLlau Cymru | Cyfartaledd GGLlau Andalusia |
|---|---:|---:|---:|
| Ffermwyr | 3.3 | 3.3 | 3.3 |
| Gweithwyr proffesiynol ar wahân i amaethyddiaeth | 3.2 | 4.3 | 2.8 |
| Entrepreneuriaid | 3.9 | 3.6 | 4.0 |
| Wedi ymddeol a di-waith | 2.5 | 4.2 | 1.8 |
| Pobl ifanc | 2.3 | 1.6 | 2.5 |
| Menywod | 3.7 | 4.1 | 3.6 |
| Cydweithfeydd | 3.0 | 2.4 | 3.2 |
| Cymdeithasau lleol | 3.9 | 4.0 | 3.9 |
| Arall | 4.4 | 5.0 | 4.4 |

6.42 Nid yw'r mater o gynrychiolaeth mewn partneriaethau wedi'i gyfyngu i LEADER; mae Derkzen a Bock (2009) ac Edwards et al. (2000) hefyd yn nodi anghydbwysedd yn aelodaeth partneriaethau gwledig eraill yng Nghymru. Nid yw'r materion wedi'u cyfyngu i bartneriaethau gwledig ychwaith; fodd bynnag, dywedir bod y cyd-destun gwledig yn gwaethygu rhai problemau. Mae Edwards et al. (2000), er enghraifft, yn nodi y gall sicrhau cynrychiolaeth i fusnesau gael ei lesteirio gan y ffaith bod y sector preifat yn ddarniog, gyda llawer o fusnesau bach. Fel y nododd cynrychiolydd partner ar grŵp LEADER, mae dweud y gallwch gael rhywun i 'gynrychioli' y sector busnes mewn gwirionedd yn fater gwahanol am eu bod yn cynrychioli eu busnes hwy ac nad yw'r strwythurau [ehangach] yno o reidrwydd (t 17).

6.43 At hynny, fel y mae Edwards et al. (2000) yn nodi, nid oes unrhyw ddull awtomatig sy'n golygu bod y weithred syml o ffurfio partneriaeth yn arwain at fanteision cydgysylltu, rhannu adnoddau, mwy o ddilysrwydd neu fwy o allu i weithredu (t 11). Mae Derkzen a Bock (2009) ac Edwards et al. (2000) yn gweld anghydraddoldebau

yn rolau a dylanwad partneriaid, yn ogystal â'u gallu i ymgysylltu, a allai unwaith eto gael ei ddwysáu mewn cyd-destun gwledig yn sgil galwadau gan wahanol bartneriaethau ar nifer cyfyngedig o gynrychiolwyr sectoraidd yn ogystal â'r costau a'r amser sy'n gysylltiedig â theithio i gyfarfodydd partneriaeth. Daeth Derkzen a Bock (2009) ac Edwards et al. (2000) i'r casgliad bod y ffactorau hyn, yn y pen draw, yn atgyfnerthu dylanwad cynrychiolwyr y sector cyhoeddus mewn partneriaethau.

*Anogaeth gymunedol*

6.44 Yn y llenyddiaeth academaidd, mae ymgysylltu â chymunedau lleol a mynegi strategaethau datblygu dan arweiniad y gymuned wedi'u pwysleisio fel nodweddion allweddol y model LEADER, ac eto mae papurau hefyd yn amlygu anawsterau o ran ysgogi cyfranogiad cymunedol cynhwysol. Mae Gardner (2011), er enghraifft, yn nodi ei bod yn gyffredin i Grwpiau Gweithredu Lleol gael eu disgrifio mewn rhai gwerthusiadau o LEADER fel rhai sy'n 'eiddo i'r gymuned' ond yn ymarferol maent wedi'u nodweddu gan 'gyfranogiad cymunedol' cyfyngedig iawn yn unig, gydag atebolrwydd i raddau helaeth yn llifo i fyny i weinyddwyr a biwrocratiaeth y wladwriaeth yn hytrach nag i lawr i ddinasyddion cyffredin (t 97). Yn gysylltiedig â hynny, nododd Navarro et al. (2016) nifer o grwpiau cymdeithasol, gan gynnwys pobl ifanc a grwpiau sydd mewn perygl o gael eu hallgáu yn gymdeithasol, ond hefyd mewnfudwyr, fel rhai nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol yng ngweithgareddau Grwpiau Gweithredu Lleol. Mae Bosworth ac Atterton (2004), mewn gwaith yn Lloegr, wedi dadlau bod cyfranogiad cyfyngedig mewnfudwyr yn golygu y gall Grwpiau Gweithredu Lleol fethu â manteisio ar eu sgiliau a'u harbenigedd, er y gellir dadlau'r un modd yn achos grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli. Gall ysgogi cymunedau hefyd fod yn anwastad yn ddaearyddol, gydag Edwards et al. (2000) yn nodi bod pentrefi cymudo sy'n fwy dosbarth canol yn ymgysylltu mwy â phartneriaethau gwledig (gan gynnwys Grwpiau Gweithredu Lleol o bosibl) o gymharu â chymunedau mwy anghysbell, a allai awgrymu bod y dosbarth canol wedi'i orgynrychioli.

6.45 Gan fyfyrio ar brofiad SPARC yn LEADER I a chyn hynny, mae Asby a Midmore (1996), yn nodi nifer o faterion allweddol y ceisiodd SPARC fynd i'r afael â hwy a'u rhoi ar waith:

> Firstly, in order to become involved and to have confidence in a process, people need to understand fully the process and where they fit in to it. Secondly, people

> want involvement on a village basis, as groupings of villages have been perceived to dilute efforts. Thirdly, public meetings alone are not a satisfactory way of involving the community because of various aspects of the group dynamics involved. Participating in and manipulating public meetings is a skill which favours the articulate and those with time on their hands; people working shift work, young mothers and others can be excluded ... Fourthly, a wide range of people, with energy and enthusiasm, are required to ensure that at different stages of projects, as many local skills as possible are available. (tt 115-116).

6.46 Serch hynny, roedd SPARC hefyd yn wynebu problemau o ran annog y gymuned mewn ffordd gynhwysol yn LEADER I, fel yr amlygodd Midmore (1998) wrth ddyfynnu, fel enghraifft o werthuso ansoddol, aelod o'r gymuned yn cwyno nad oedd trigolion tai cyngor yn y pentref wedi ymwneud â'r broses. At hynny, mae'r math o ymgysylltu cymunedol dwys a manwl a amlinellwyd gan Asby a Midmore (1996) yn dibynnu ar amodau y gellid dadlau eu bod wedi'u peryglu wrth ddatblygu LEADER yng Nghymru yn ddiweddarach, gan gynnwys gwanhau ymreolaeth leol wrth i gamau cydgysylltu canolog dynhau, ond hefyd ehangu'r tiriogaethau sy'n cael eu cwmpasu gan Grwpiau Gweithredu Lleol, yn enwedig wrth i ardaloedd y Grwpiau Gweithredu Lleol gael eu haddasu i gyd-fynd â ffiniau cynghorau sir ar ôl 2007 (Navarro et al. 2016). Gellir ystyried bod daearyddiaeth y Gymru wledig sydd â phatrwm gwasgaredig o aneddiadau bach yn milwrio yn erbyn y gwaith dwys o ysgogi ar sail pentrefi a ddisgrifiwyd gan Asby a Midmore (1996), sy'n haws ei weithredu mewn tiriogaethau llai, wedi'u diffinio'n fwy tynn, a oedd yn sail i Grwpiau Gweithredu Lleol yn LEADER I a LEADER II nag yn nhiriogaethau mwy y Grwpiau Gweithredu Lleol ar ôl 2007.

*Cyfyngiadau tiriogaethol*

6.47 Mae'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar ardal yn agwedd allweddol arall ar y model LEADER a amlygwyd yn y llenyddiaeth academaidd fel ffordd effeithiol i rymuso cymunedau, ysgogi datblygiad economaidd a theilwra strategaethau i anghenion lleol. Fodd bynnag, gwnaeth Bristow (2000) hefyd nodi cyfyngiadau i'r ffocws tiriogaethol, gan gynnwys cyfyngiadau ar weithredu strategol cydgysylltiedig ar draws Cymru wledig, llesteirio cysylltiadau ag adnoddau a marchnadoedd y tu allan i'r ardal, a phwyslais ar gamau gweithredu cymharol fach a allai fod yn gyfyngedig eu heffaith wrth fynd i'r afael â phroses strwythurol fwy. Felly, mae Bristow (2000) yn dadlau, mae pwyslais o'r gwaelod i fyny sy'n seiliedig ar rymuso lleol yn debygol

o arwain at weithgareddau mwy amrywiol a sefydledig ond efallai na fydd yn ddigonol ar ei ben ei hun i atgyfnerthu'r economi wledig yn erbyn pwysau globaleiddio (t 29). Gellir awgrymu bod mwy o arwyddocâd i'r sylw hwn yn fwy diweddar gydag ymchwil ddilynol yn nodi bod economi Cymru wledig bellach yn fwy bregus yn wyneb ailstrwythuro byd-eang, gan gynnwys adleoli gweithfeydd gweithgynhyrchu o drefi gwledig bach i ddwyrain Asia (Woods 2010), gyda'r posibilrwydd o wynebu mwy o hyn yn sgil mabwysiadu rhagor o bolisïau masnach *laissez-faire* yn dilyn Brexit (CWPS/CRE 2018; Dwyer 2018).

**Ymestyn Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned y tu hwnt i Gymru wledig**

6.48 LEADER yw'r defnydd mwyaf adnabyddus a mwyaf helaeth o'r dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yng Nghronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, ond mae methodoleg Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned hefyd wedi'i gweithredu mewn dwy raglen sef menter gymunedol URBAN (1994-1999 a 2000-2006) a menter EQUAL (2000-2006), ac ers 2014 mae wedi'i phrif ffrydio yng nghyflawniad Cronfeydd Cydlyniant yr UE (Y Comisiwn Ewropeaidd 2014; Servillo 2019). Yng nghyfnod rhaglennu 2014-2020, mae Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned wedi'i weithredu drwy Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER o dan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd, ond hefyd fel mecanwaith sydd ar gael yn gyffredinol o fewn Cronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (Y Comisiwn Ewropeaidd 2014). Mae'r dull wedi'i gyflawni yn y cyfnod rhaglennu drwy fwy na 3,300 o Grwpiau Gweithredu Lleol ledled Ewrop, ac mae tua thraean ohonynt wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol neu ddiwydiannol nad ydynt wedi'u cynnwys gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (Servillo 2019).

6.49 Yng Nghymru, dim ond drwy’r Rhaglen Datblygu Gwledig yn hanesyddol y mae dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned wedi'i weithredu mewn ardaloedd gwledig. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, mae'r dull wedi'i gyflwyno i'r sector pysgodfeydd môr yng Nghymru drwy greu Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd o dan raglen Cronfa Pysgodfeydd Ewrop (2007-2013) a rhaglen Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (2014-2020).

6.50 Mae'r potensial i ymestyn y dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned o ymdrin ag ardaloedd trefol a'r Cymoedd wedi'i ystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi fframwaith economaidd rhanbarthol newydd ar ôl Brexit. Nid yw'r dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned wedi'i astudio drwy ymchwil academaidd mewn rhannau

o Gymru nad ydynt yn wledig, ac nid oes unrhyw lenyddiaeth academaidd hyd yma wedi mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r posibilrwydd o ymestyn cwmpas y dull. Fodd bynnag, mae nifer o ystyriaethau y gellir eu tynnu o'r llenyddiaeth ar LEADER yng Nghymru, astudiaethau academaidd o'r dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned mewn cyd-destun trefol mewn mannau eraill yn Ewrop, ac ymchwil ar fentrau eraill sy'n canolbwyntio ar y gymuned yng Nghymru fel Cymunedau yn Gyntaf (gan nodi nad yw'r fath gynlluniau hyn wedi defnyddio'r model Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yn llym).

6.51 Gallai nifer o briodoleddau allweddol y dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned, fel y mae wedi'i ymgorffori yn y dull LEADER, fod yr un mor fanteisiol i ardaloedd trefol, ac yn wir mewn rhai achosion maent wedi'u mabwysiadu mewn polisi trefol, gan gynnwys cynllunio o'r gwaelod i fyny, dull integredig ac aml-sectoraidd, rhwydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn llorweddol. Mewn astudiaethau o brosiectau mewn gwladwriaethau eraill fel rhan o fenter URBAN, gwelwyd canlyniadau cadarnhaol yn sgil rhoi ffocws ar weithredu cymunedol a mynd i'r afael â materion amddifadedd trefol ac allgáu cymdeithasol (Carpenter 2006; Murtagh 2001; Murtagh a McKay 2003).

6.52 Yn debyg, mae ymchwil ar fenter URBAN hefyd wedi nodi heriau tebyg o ran defnyddio'r dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned mewn cyd-destun trefol fel yr adroddwyd yn achos LEADER, gan gynnwys yn y llenyddiaeth ar Gymru, gyda gwaith partneriaeth effeithiol, cyfranogiad cynhwysol a chydgysylltu ag asiantaethau a sefydliadau eraill (Carpenter 2006; Murtagh 2001; Murtagh a McKay 2003). Mae Carpenter (2006), er enghraifft, yn dadlau mai gwers hanfodol sy'n codi o werthuso rhaglen URBAN I oedd y dylai grwpiau gweithredu lleol fod yn rhan o strategaethau ledled y ddinas i fynd i'r afael ag amddifadedd trefol.

6.53 Yn yr un modd, mae materion a welwyd mewn perthynas ag ysgogi anogaeth gymunedol yn LEADER hefyd yn debygol o godi mewn datblygu trefol (fel y mae ymchwil ar brosiectau Cymunedau yn Gyntaf mewn ardaloedd trefol hefyd yn dangos (Dicks 2014; Murphy et al. 2018)) ac yn wir gallant gael eu gwaethygu gan y cyd-destun trefol. Er enghraifft, gallai cymdogaethau trefol fod yn llai cydlynol na chymunedau gwledig a gallai'r ffaith bod grwpiau cymdeithasol wedi'u gwahanu fwy yn ofodol mewn ardaloedd trefol atgyfnerthu anghydraddoldebau yng ngallu cymunedau i fanteisio ar gyfleoedd y dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned.

6.54 Gall yr agwedd diriogaethol ar Ddatblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned hefyd gyflwyno heriau o'u trosi i amgylcheddau trefol, yn enwedig os caiff ei ddefnyddio ar raddfeydd is-ddinas lle gallai cymunedau fod wedi'u diffinio a'u hamffinio yn llai clir na chymunedau gwledig, a lle y gellid dadlau bod rhwydweithiau cymdeithasol ac economaidd yn fwy integredig. Er bod Cymunedau yn Gyntaf wedi'i darparu ar lefel wardiau mewn ardaloedd trefol yng Nghymru, daeth astudiaethau i'r casgliad y bu'n fwyaf effeithiol o ran adeiladu cyfalaf cymdeithasol a chyflawni nodau sy'n ymwneud â chynwysoldeb cymdeithasol, ac yn llai llwyddiannus o ran gwella datblygiad economaidd (Adamson 2010; Dicks 2014; Hincks a Robson 2010).

6.55 Yn gysylltiedig â hyn, mae beirniadaeth Bristow (1998) o allu'r dull LEADER i wrthsefyll effeithiau globaleiddio yn cael ei chwyddo mewn perthynas â'r economi drefol. Yn wir, o wahanol elfennau'r dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned, gellid dadlau mai'r pwyslais ar ddatblygiad mewndarddol a allai fod yn fwyaf anodd i'w ailadrodd mewn cyd-destun trefol. Roedd y prosiectau datblygu mewndarddol gan Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER a gofnodwyd yn y llenyddiaeth academaidd yn tueddu i roi gwerth ar adnoddau sy'n unigryw i ardaloedd gwledig, fel cynnyrch amaethyddol, tirwedd, yr amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol, ac efallai nad yw'n amlwg ar unwaith a allai ystod gyfatebol o adnoddau mewndarddol fod ar gael er mwyn ysgogi mewn cymdogaethau trefol. At hynny, mae effaith economaidd bosibl prosiectau ar raddfa fach o'r math hwn (er enghraifft ym maes creu swyddi) yn debygol o fod yn fwy arwyddocaol mewn cymunedau gwledig nag mewn ardaloedd trefol mwy poblog, lle gallai amddifadedd fod yn gysylltiedig â cholli cyflogwyr mawr a oedd wedi'u gwreiddio mewn rhwydweithiau cenedlaethol a thrawswladol. O'r herwydd, er bod Day (1998) yn cyflwyno LEADER fel ateb i'r duedd o fewnfuddsoddi i greu swyddi mewn ardaloedd gwledig nad oeddent yn cyfateb yn dda i sgiliau trigolion lleol, gallai'r gwrthwyneb fod yn wir mewn ardaloedd trefol lle y gallai sgiliau a phrofiadau trigolion fod yn fwy addas i'r cyfleoedd sy'n gael eu cynnig gan fewnfuddsoddiad gan gyflogwyr mawr yn hytrach na'r gwaith o ysgogi datblygiad mewndarddol.

**Cyfeiriadau**


Adamson, David (2010) The Impact of Devolution: Area-Based Regeneration Policies in the UK. Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Asby, Joan a Peter Midmore (1996) 'Human capacity building in rural areas: the importance of community development', yn Peter Midmore a Garth Hughes (goln) Rural Wales: An Economic and Social Perspective. Aberystwyth: Sefydliad Astudiaethau Gwledig Cymru, tudalennau 105-124.

Asby, Joan, Peter Midmore a Jill Venus (2007) 'Rural Wales: progress after development?', Rural Development 2007, cyfrol 3, llyfr 2, tudalennau 15-20.

Bickerton, Liz (2004) The Meanings, Expectation and Processes of Regeneration Partnership Working Between Communities and Local Authorities in Rural Wales. Thesis PhD, Prifysgol Cymru Aberystwyth.

Bosworth, Gary a Jane Atterton (2012) Entrepreneurial in-migration and neo-endogenous rural development, Rural Sociology, cyfrol 77, tudalennau 254-279.

Bosworth, Gary, Ivan Annibal, Terry Carroll, Liz Price, Jessica Sellick a John Shepherd (2016) 'Empowering Local Action through Non-Endogenous Development: The Case of LEADER in England'. Sociologia Ruralis, cyfrol 56, tudalennau 427-449.

Bristow, Gilliam (1998) Strategic issues in integrated rural development policies: the case of Wales. Papur a gyflwynwyd i Ail Gynhadledd European Urban and Regional Studies, Durham, 1998.

Bristow, Gillian (2000) 'Structure, Strategy and Space: Issues of Progressing Integrated Rural Development in Wales'. European Urban and Regional Studies, cyfrol 7, tudalennau 19-33.

Brown, Geoff (2010) Rural Development and the LEADER Approach in the UK and Ireland. Papur Ymchwil Ymddiriedolaeth Carnegie UK. Dunfermline: Ymddiriedolaeth Carnegie UK.

Burholt, Vanessa ac Alexandra Sardani (2018) 'The impact of residential immobility and population turnover on the support networks of old people living in rural areas. Evidence from CFAS Wales'. Population, Space and Place, cyfrol 24, erthygl e2132.

Carpenter, Juliet (2016) Addressing Europe's urban challenges: Lessons from the EU URBAN Community Initiative, Urban Studies, cyfrol 43, tudalennau 2145-2162.

Cowell, Richard (2011) Environmental sustainability of, by and for rural Wales, yn Paul Milbourne (gol.) Rural Wales in the Twenty-First Century. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tudalennau 273-300.

CWPS/CRE (2018) After Brexit: 10 Key Questions for Rural Policy in Wales, Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru Prifysgol Aberystwyth a Centre for Rural Economy Prifysgol Newcastle.

Day, Graham (1998) ‘Working with the Grain? Towards Sustainable Rural and Community Development’. Journal of Rural Studies, cyfrol 14, tudalennau 89-105.

Day, Graham (2011) ‘The Englishing of rural Wales? Migration, conflict and integration in community life’, yn Paul Milbourne (gol.) Rural Wales in the Twenty-First Century. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tudalennau 23-45.

Day, Graham a Hedger, Merylyn (1990) Mid Wales; missing the point. Urban Studies, cyfrol 27, tudalennau 283-290.

Derkzen, Petra (2008) The Politics of Rural Governance: Cases of Rural Partnerships in the Netherlands and Wales. Thesis PhD, Prifysgol Wageningen, Yr Iseldiroedd.

Derkzen, Petra, Alex Franklin a Bettina Bock (2008) ‘Examining Power Struggles as a Signifier of Successful Partnership Working: A Case Study of Partnership Dynamics’. Journal of Rural Studies, cyfrol 24, tudalennau 458-466.

Derkzen, Petra, a Bettina Bock (2009) ‘Partnership and Role Perception: Three Case Studies on the Meaning of Being a Representative in Rural Partnerships’, Environment and Planning C: Government and Policy, cyfrol 27, tudalennau 75-89.

Derkzen, Petra (2010) ‘Rural Partnerships in Europe – A Differentiated View from a Country Perspective: The Netherlands and Wales’, European Urban and Regional Studies, cyfrol 17, tudalennau 17-30.

Dicks, Bella (2014) Participatory community regeneration: a discussion of risks, accountability and crisis in devolved Wales, Urban Studies, cyfrol 51, tudalennau 959-977.

Doheny, Shane a Paul Milbourne (2017) ‘Community, rurality and older people: critically comparing older people’s experiences across different rural communities’, Journal of Rural Studies, cyfrol 50, tudalennau 12-138.

Dwyer, Janet (2018) The Implications of Brexit for Agriculture, Rural Areas and Land Use in Wales, Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Edwards, Bill (1998) ‘Charting the Discourse of Community Action: Perspectives from Practice in Rural Wales’. Journal of Rural Studies, cyfrol 14, tudalennau 63-77.

Edwards, Bill, Mark Goodwin, Simon Pemberton a Michael Woods (2000) Partnership Working in Rural Regeneration. Sefydliad Joseph Rowntree.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2014) Community-Led Local Development. Cohesion Policy 2014-2020 Factsheet. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.

Gardner, Graham (2011) ‘Community action in Wales’, yn Paul Milbourne (gol.) Rural Wales in the Twenty-First Century. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tudalennau 89-108.

Higgs, Gary a Mitch Langford (2013) ‘Investigating the validity of rural-urban distinctions in the impacts of changing service provisions: the example of postal service reconfiguration in Wales’, Geoforum, cyfrol 47, tudalennau 53-64

Hincks, Stephen a Brian Robson (2010) Regenerating Communities First Neighbourhoods in Wales. Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

High, Chris a Gusztav Nemes (2007) ‘Social Learning in LEADER: Exogenous, Endogenous and Hybrid Evaluation in Rural Development’. Sociologia Ruralis, cyfrol 47, tudalennau 103-119.

Jones, Rhys, Bryonny Goodwin-Hawkins a Michael Woods (2020) From territorial cohesion to regional spatial justice: the Wellbeing of Future Generations Act in Wales, International Journal of Urban and Regional Research, cyfrol 44, tudalennau 894-912.

Kitchen, Lawrence a Terry Marsden (2011) ‘Exploring rural labour market relationships: the persistence of the low-skills economy in rural areas of Wales’, yn Paul Milbourne (gol.) Rural Wales in the Twenty-First Century. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tudalennau 126-148.

Konecny, Ondrej (2019) ‘The LEADER Approach across the European Union: One Method of Rural Development, Many Forms of Implementation’. European Countryside, cyfrol 11, tudalennau 1-16.

Lovering, John (1983) Gwynedd – A County in Crisis. Coleg Harlech Occasional Papers in Welsh Studies, No. 2. Harlech: Coleg Harlech.

Márquez, D. C., C. Foronda, L. Galindo et al. (2005) Effcacia y eficiencia de LEADER II en Andalucia: aproximación a un índice-resultado en materia de turismo rural, Geographicalia, cyfrol 47, tudalennau 137-152.

Midmore, Peter (1998) ‘Rural Policy Reform and Local Development Programmes: Appropriate Evaluation Procedures’. Journal of Agricultural Economics, cyfrol 49, tudalennau 409-426.

Midmore, Peter, Chris Ray ac Angela Tregear (1994) An Evaluation of the South Pembrokeshire LEADER Project. Paratowyd ar gyfer SPARC. Aberystwyth: Prifysgol Cymru Aberystwyth.

Milbourne, Paul (gol.) (2011a) Rural Wales in the Twenty-First Century. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Milbourne, Paul (2011b) ‘The social and cultural impacts of English migration to rural Wales’, yn Paul Milbourne (gol.) Rural Wales in the Twenty-First Century. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tudalennau 46-64.

Milbourne, Paul (2011c) ‘Poverty in rural Wales: material hardship and social inclusion’, yn Paul Milbourne (gol.) Rural Wales in the Twenty-First Century. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tudalennau 254-272.

Moles, Kate a Radcliffe, Jonathan (2011) ‘Deep rural communities: exploring service provision in rural Wales’, yn Paul Milbourne (gol.) Rural Wales in the Twenty-First Century. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tudalennau 237-253.

Moseley, Malcolm (1995) The Environmental Component of the LEADER Programme, 1992-94, Journal of Environmental Planning and Management, cyfrol 38, tudalennau 245-252.

Moseley, Malcolm (2003) Rural Development: Principles and Practice. Llundain: Sage.

Müller, Jeanette (2001) Implementing and Integrating Bottom-up Planning Strategies and Transnational Co-operation: A Case Study of the EU Initiative LEADER. Thesis PhD, Prifysgol Cymru Aberystwyth.

Murphy, Lydon J., David Pickernell, Brychan Thomas a Daniel Fuller (2018) Innovation, social capital and regional policy: the case of the Communities First programme in Wales, Regional Studies, Regional Science, cyfrol 5, tudalennau 21-39.

Murtagh, Brendan (2001) The URBAN Community Initiative in Northern Ireland, Policy and Politics, cyfrol 29, tudalennau 431-446.

Murtagh, Brendan a Stephen McKay (2003) European Briefing: Evaluating the Social Effects of the EU URBAN Community Initiative Programme, European Planning Studies, cyfrol 11, tudalennau 193-211.

Navarro, Francsico, Michael Woods ac Eugeino Cejudo (2016) ‘The LEADER Initiative has been a Victim of its Own Success: The Decline of the Bottom-up Approach in Rural Development Programmes. Case Studies of Wales and Andalusia. Sociologia Ruralis, cyfrol 56, tudalennau 270-288.

Powell, John, Dan Keetch, Matt Reed a Janet Dwyer (2018) What Works in Tackling Rural Poverty. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Ray, Chris (2000) ‘The EU LEADER Programme: Rural Development Laboratory’. Sociologia Ruralis, cyfrol 40, tudalennau 163-171.

Ray, Chris (2006) ‘Neo-endogenous rural development in the EU’, yn Paul Cloke, Terry Marsden a Patrick Mooney (goln) Handbook of Rural Studies. Llundain: Sage, tudalennau 278-291.

Servillo, Loris (2019) ‘Tailored Polities in the Shadow of the State’s Hierarchy: the CLLD Implementation and a Future Research Agenda’. European Planning Studies, cyfrol 27, tudalennau 678-698.

Shergold, Ian a Graham Parkhurst (2012) ‘Transport-related social exclusion amongst older people in rural South west England and Wales’, Journal of Rural Studies, cyfrol 28, tudalennau 412-421.

Shucksmith, Mark (2000) ‘Endogenous Development, Social Capital and Social Inclusion: Perspectives from LEADER in the UK’. Sociologia Ruralis, cyfrol 40, tudalennau 208-218.

Van Depoele, Laurent (2003) ‘From sectorial to territorial-based policies: the case of LEADER’, yn OECD (2003) The Future of Rural Policy: From Sectoral to Place-Based Policies in Rural Areas. Paris: OECD.

Venus, Jill (1995) Monitoring Antur Teifi’s Delivery of LEADER in the Teifi Valley: Final Report. Llanbedr Pont Steffan: Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan.

Arsyllfa Wledig Cymru (2004) An Overview of Policy and Resources Impacting on Rural Wales. Aberystwyth: Arsyllfa Wledig Cymru.

Arsyllfa Wledig Cymru (2005) Poverty and Social Exclusion in Rural Wales. Caerdydd: Arsyllfa Wledig Cymru.

Arsyllfa Wledig Cymru (2006) Housing Needs in Rural Wales. Caerdydd: Arsyllfa Wledig Cymru.

Arsyllfa Wledig Cymru (2007) Coping with Access to Services. Caerdydd: Arsyllfa Wledig Cymru.

Arsyllfa Wledig Cymru (2009) Deep Rural Localities. Caerdydd: Arsyllfa Wledig Cymru.

Arsyllfa Wledig Cymru (2013) The Experiences and Aspirations of Young People in Rural Wales. Caerdydd: Arsyllfa Wledig Cymru.

Williams, Emyr a Rosaleen Doyle (2016) Rural Poverty in Wales: Existing Research and Evidence Gaps. Caerdydd: Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru.

Woods, Michael (2010) ‘The political economies of place in the emergent global countryside: stories from rural Wales’, yn Greg Halseth, Sean Markey a David Bruce (goln) The Next Rural Economies. Wallingford: CABI, tudalennau 166-178.

Woods, Michael (2011) ‘Market towns in rural Wales: a differentiated geography’, yn Paul Milbourne (gol.) Rural Wales in the Twenty-First Century. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tudalennau 149-168.

Woods, Michael (2020a) WP4 Regional Workshop Report: Mid Wales Living Lab. ROBUST Project. Aberystwyth: Prifysgol Aberystwyth.

Woods, Michael (2020b) Upland Communities in Wales: Beyond Brexit, COVID-19 and Facing Climate Change. Cyflwyniad i Gynhadledd Ar-lein Platfform yr Amgylchedd Cymru 'Tystiolaeth Amgylchedd 2020'.

# 7. Canfyddiadau adolygiad o lenyddiaeth lwyd y tu allan i Gymru

**Crynodeb o Ganfyddiadau Gwerthuso mewn Rhannau Eraill o'r DU**

*Lloegr*

7.1 Cynhaliwyd gwerthusiad o'r modd y cymhwyswyd LEADER yn Lloegr rhwng 2007 a 2013 gan Brifysgol Lincoln ar ran yr Uned Polisi Cymunedau Gwledig yn Defra (Annibal et al, 2015). Canfu'r gwerthusiad fod y rhan fwyaf o weithgarwch LEADER yn Lloegr yn ystod y cyfnod hwn yn dod o dan Echel 3, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cymdeithasol ac economaidd, twristiaeth ac ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig.

7.2 Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod mesur cyfraniad LEADER i ddatblygu gwledig cenedlaethol yn eithriadol o heriol, yn bennaf oherwydd diffyg dull cyffredin o fesur y canlyniadau sy'n deillio o LEADER. Gwaethygwyd y gwaith o fesur cyfraniad LEADER i ddatblygu gwledig ymhellach am fod y cynllun LEADER a werthuswyd yn pontio dwy strategaeth genedlaethol wahanol ar gyfer datblygu economaidd, ac nid oes targedau datblygu economaidd gwledig cenedlaethol cyson yn Lloegr. Er gwaethaf yr heriau o asesu effaith, canfu Astudiaeth Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ar gyfer rhaglen Echel LEADER 2007-2014 yn Lloegr, astudiaeth sydd heb ei chyhoeddi, fod pob £1 a wariwyd drwy LEADER wedi cynhyrchu £3 o werth (ADAS et al. 2016).

7.3 Gan adlewyrchu prinder tystiolaeth ynghylch canlyniadau, canolbwyntiodd y gwerthusiad yn bennaf ar broses, a ffactorau sy'n pennu cyflawniad effeithiol. Canfu'r ymchwil fod hunanbenderfyniaeth o ran meysydd gweithgarwch a gweithdrefnau adrodd yn cael effaith fawr, ac mae parhad strwythurau ac aelodaeth Grwpiau Gweithredu Lleol o raglenni blaenorol hefyd yn ffactorau allweddol sy'n pennu llwyddiant. Nodwyd hefyd bod cynnal Strategaethau Cyflawni Lleol fel dogfennau 'byw' a cheisio cymorth ariannol gan gyrff atebol yn arwain at ganlyniadau gwell.

*Yr Alban*

7.4 Cyhoeddwyd gwerthusiad cychwynnol o'r broses ar gyfer LEADER 2014-2020 yn yr Alban yn 2018. Defnyddiodd y gwerthusiad ddata a gasglwyd drwy brosesau rheoli rhaglen ac ymgysylltu'n ansoddol â Grwpiau Gweithredu Lleol i asesu perfformiad y rhaglen ar gam interim.

7.5 Canfu'r gwerthusiad fod LEADER wedi cael effaith mewn nifer o feysydd canlyniadau. Yn ddiwylliannol, cafodd LEADER effaith gadarnhaol ar fywyd cymunedol, traddodiadau a threftadaeth, seilwaith cymdeithasol a chydlyniant, a darparu gwasanaethau ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a hamdden. Mewn meysydd eraill, canfu'r gwerthusiad hefyd fod y rhaglen wedi cyfrannu at ddiogelu amgylchedd naturiol yr Alban ac wedi cyfrannu at ddatblygiad economaidd ardaloedd gwledig yr Alban, gan gynnwys buddsoddi mewn twristiaeth, crefftau, arallgyfeirio ar ffermydd a busnesau bach. Ceir rhywfaint o dystiolaeth hefyd o brosiectau sy'n arwain at well gwybodaeth a sgiliau, arloesedd a chydweithrediad ymhlith y gymuned wledig a rhwydweithiau busnes.

7.6 Yn ogystal â'r gwerthusiad o'r broses ar gyfer LEADER 2014-2020, comisiynodd Llywodraeth yr Alban adroddiad yn ystyried effaith LEADER ers ei gyflwyno yn yr Alban ym 1991, a rôl bosibl y rhaglen ar ôl Brexit. Canfu'r gwaith ymchwil hwn gytundeb cryf ymhlith rhanddeiliaid mai'r dull o'r gwaelod i fyny, y Grwpiau Gweithredu Lleol a'r Strategaeth Datblygu Lleol ar sail ardal yw elfennau allweddol y dull LEADER a'u bod wedi bod yn hanfodol i lwyddiannau'r rhaglen yn yr Alban (Atterton et al. 2020). Canfu'r ymchwil fod y strwythurau hyn wedi galluogi a grymuso cymunedau lleol, wedi adeiladu gallu lleol ymhlith rhwydweithiau datblygu gwledig, ac wedi cefnogi ystod eang a dwfn o brosiectau na fyddent wedi digwydd fel arall. Mae manteision tymor hwy y prosiectau hyn yn cynnwys creu a diogelu cyflogaeth, datblygu economaidd a chymunedol lleol, gwell cysylltedd ac effeithiau ehangach i'r gymuned.

7.7 Ar yr un pryd, mae'r adroddiad yn nodi nifer o wendidau canfyddiedig yn y modd y mae'r rhaglen yn cael ei chyflawni yn yr Alban. Mae canfyddiad cryf, wrth i LEADER ddod yn rhan o Gynllun Datblygu Gwledig yr Alban yn 2007, fod baich biwrocrataidd y rhaglen wedi mynd yn drymach, a bod y baich biwrocrataidd yn anghymesur â maint a natur ymgeiswyr a phrosiectau LEADER. Mae canfyddiad hefyd bod cyrff atebol wedi'u gadael mewn sefyllfa fregus, gan ymgymryd â holl risg y prosiect, annog pobl i beidio ag arloesi a lleihau anogaeth leol. Her arall a nodwyd oedd y gall LEADER fod yn 'siop gaeedig' gyda chyllid yn cael ei ddyrannu dro ar ôl tro i'r un sefydliadau ac eraill yn teimlo na allant wneud cais. Yn olaf, nodwyd bod trosiant staff a newidiadau i'r amodau rhwng rhaglenni yn ffactor a oedd yn cyfyngu ar y dysgu hirdymor a gyflawnwyd gan LEADER yn yr Alban.

7.8 Lluniodd yr adroddiad gyfres o argymhellion ar gyfer cyflawni LEADER yn yr Alban yn y dyfodol. Roedd yr argymhellion tymor byr yn cynnwys:

- rhoi cymaint o reolaeth â phosibl i'r Grwpiau Gweithredu Lleol a lleihau biwrocratiaeth o'r brig i lawr
- cynyddu'r pwyslais sy'n cael ei roi ar rwydweithio a rhannu arferion gorau
- mabwysiadu dull monitro a gwerthuso priodol a chyson ar draws y rhaglen
- mwy o gyfranogiad lleol yn natblygiad y Strategaethau Datblygu Lleol a'u diweddaru'n rheolaidd fel 'dogfen fyw'
- cyfrifoldeb wedi'i rannu'n gliriach a chydberthnasau gwaith cliriach rhwng lefelau llywodraethu
- gwell cynllunio olyniaeth ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol, a Grwpiau Gweithredu Lleol i ymgysylltu mwy â phobl ifanc
- cylchoedd ariannu aml-flwyddyn a gofynion hyblyg a chlir ynghylch arian.

7.9 Mae argymhellion tymor hwy ar gyfer datblygu rhaglenni Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yn y dyfodol i olynu cyllid yr UE yn yr Alban yn cynnwys:

- cadw dull LEADER, gyda'r potensial i weithio'n gryfach ar sail lle a chryfhau cysylltiadau ag ymrwymiad Llywodraeth yr Alban i 'dwf cynhwysol'
- sicrhau bod amcanion Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yn cyd-fynd yn well â meysydd blaenoriaeth Llywodraeth yr Alban
- cynnal pwyslais ar ddatblygu 'o'r gwaelod i fyny', ynghyd ag ysgogi adnoddau sydd ar gael i ardaloedd lleol yn fwy effeithiol drwy rwydweithiau allanol, yn ogystal ag â llywodraeth leol a chanolog
- parhau i fanteisio'n llawn ar rwydweithiau trawswladol (yn enwedig Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop) a'r arbenigedd ledled Ewrop a gynhyrchwyd drwy gydol oes LEADER
- cynyddu'r pwyslais ar feithrin gallu ac annog, gan sicrhau nad gweithredwyr a grwpiau sydd eisoes â chyfalaf cymdeithasol yn unig sy'n manteisio ar y dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned
- canolbwyntio ar ddatblygu cymunedol a menter, gan fod llawer o randdeiliaid yn teimlo na fu ychwanegu arallgyfeirio ar ffermydd at LEADER yn llwyddiannus
- cynnal arloesedd fel egwyddor graidd sy'n sail i Ddatblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned.

*Gogledd Iwerddon*

7.10 Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r rhaglen LEADER wedi'i gwerthuso fel rhan o Werthusiad Terfyn Rhaglen o Raglen Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon 2007-2013 (Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon, 2017). Canfu'r adroddiad ar gyfer cyfnod rhaglen 2007-2013 fod LEADER wedi ychwanegu gwerth at ddatblygu gwledig yng Ngogledd Iwerddon yn y meysydd canlynol:

- mynediad at wybodaeth a phrofiad lleol o fod ymysg aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol
- sbarduno mewnbynnau gwirfoddol – buddsoddiad gwerthfawr aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol wrth iddynt ddarparu eu hamser, eu harbenigedd a'u gwybodaeth leol yn wirfoddol
- meithrin perthynas rhwng y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol/cymunedol a rhwng cynghorau partner
- daeth y strwythur a fabwysiadwyd â chyfranogiad llywodraeth leol i'r rhaglen yn uniongyrchol
- Mae cyllid LEADER wedi galluogi prosiectau i fynd rhagddynt na fyddent wedi gwneud fel arall.

7.11 Fodd bynnag, canfu'r adroddiad fod y strwythur ar gyfer cyflawni LEADER yn ystod cyfnod rhaglen 2007-2013 yn rhy fiwrocrataidd, a bod y strwythur tair haen yn llesteirio yn hytrach na helpu o ran effeithiolrwydd y cyflawni a hefyd nad oedd y broses yn caniatáu gweithredu mewn dull gwirioneddol LEADER gan fod lefel y rheolaeth a'r fiwrocratiaeth yn tynnu oddi ar hyn (Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon 2017, t. 204). O ganlyniad i hyn, nid oedd Strategaethau Datblygu Lleol bob amser yn cael eu diweddaru na'u trin wrth i Grwpiau Gweithredu Lleol ei chael hi'n anodd cymryd perchnogaeth wirioneddol o LEADER. Roedd ffactorau eraill a oedd yn cael effaith negyddol ar y cyflawni yn cynnwys anawsterau recriwtio ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol, a'r ffaith bod yr amgylchiadau economaidd yn newid yn ystod cyfnod y rhaglen.

**Llenyddiaeth ryngwladol ar effeithiolrwydd LEADER**

7.12 Mae llenyddiaeth sylweddol sy'n nodi bod LEADER yn fenter datblygu gwledig lwyddiannus (Atterton et al 2020), er bod yr un llenyddiaeth hefyd yn nodi bod mesur canlyniadau a deall sut y caiff gwerth ei gynhyrchu dros amser yn parhau i fod yn her ar draws yr UE (Bosworth et al. 2015).

7.13 Mae'r heriau o fesur canlyniadau sy'n deillio o LEADER wedi arwain at ddull mwy ansoddol o gynhyrchu tystiolaeth ac mae consensws ynghylch cydnabod cyflawniadau ehangach a gwaddol LEADER yn y gwaith ymchwil hwn (Atterton et al, 2020, Bosworth et al, 2015). O ganlyniad i'r prinder cymharol o dystiolaeth ynghylch canlyniadau ac effaith ar ddatblygu gwledig, mae llawer o'r gweithgarwch gwerthuso sy'n gysylltiedig â LEADER wedi canolbwyntio ar y strwythurau ar gyfer cyflawni datblygu gwledig. Nododd Annibal et al. (2013, t. 21) mai gwir fanteision LEADER yw meithrin gallu a sbarduno 'newid meddwl' ymhlith gweithredwyr lleol a all, yn eu tro, helpu i wella cynaliadwyedd economaidd ardaloedd gwledig dros amser. Mae newidiadau strwythurol eraill sy'n deillio o'r buddsoddiad yn LEADER yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion datblygu gwledig (Teilmann 2012) a chydweithredu trawsffiniol a rhyngwladol rhwng rhwydweithiau datblygu gwledig rhanbarthol (Atterton, 2020).

7.14 Yn fwy negyddol, mae'r llenyddiaeth hefyd wedi nodi nifer o feirniadaethau o'r ffordd y mae LEADER wedi'i weithredu'n ymarferol. Mae llawer o'r beirniadaethau hyn yn seiliedig ar y graddau y mae LEADER mewn gwirionedd wedi gweithredu fel menter datblygu gwledig o'r gwaelod i fyny. Roedd astudiaeth Barke a Newton (1997) o gymhwyso LEADER yn Andalucia yn cwestiynu'r graddau y mae strwythurau a phrosiectau llywodraethu mewn gwirionedd yn fewndarddol yn y rhanbarthau lle maent yn digwydd. Mae corff o ymchwil wedi canfod, er bod gan y gweithredwyr sy'n gweithredu LEADER ar wahanol lefelau ddealltwriaeth sylfaenol yn gyffredin o LEADER ar gyfer datblygu cymunedau gwledig yn economaidd a chymdeithasol, bod llawer yn ystyried LEADER yn offeryn ar gyfer hunan-ddilysu (Perez, 2000). Gan ddefnyddio ymchwil Esparcia a Buciega ar gymhwyso LEADER yn Sbaen, mae Perez yn nodi bod nifer o weithredwyr, gan gynnwys y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a llywodraethau rhanbarthol, wedi llunio'n sylweddol yr hyn y bwriedir iddynt fod yn brosesau o'r gwaelod i fyny.

7.15 LEADER ei hun yn lliniaru yn erbyn datblygu sy'n wirioneddol o'r gwaelod i fyny. Er enghraifft, canfu astudiaeth Bruckmeier (2000) o gymhwyso LEADER yng nghyd-destun yr Yn yr un modd, mae corff o ymchwil yn cwestiynu i ba raddau y mae strwythur Almaen fod y cyd-destun, y gweithrediad a'r modd y caiff arloesedd ei werthuso, wedi'u gosod i raddau helaeth ar weithredwyr lleol gan yr UE yn hytrach na'u bod yn fynegiant o weithredu neu lywodraethu lleol ac ystyrlon. Mae Böcher

(2008) yn awgrymu bod hyn yn ddeinamig sy'n cael ei waethygu ymhellach gan ddiffyg atebolrwydd democrataidd Grwpiau Gweithredu Lleol i gymunedau lleol.

7.16 Mae tystiolaeth ledled yr UE hefyd yn dangos bod amrywiaeth sylweddol o ran pa mor gynrychioliadol yw Grwpiau Gweithredu Lleol o'u cymunedau. Canfu astudiaeth Storey (1999) o LEADER yn Iwerddon fod lefel cyfranogiad 'cymunedol' yn eithaf amrywiol yn ofodol hyd yn oed oddi mewn i Gynllun Datblygu Gwledig Iwerddon (t. 314). Roedd ymchwil Storey hefyd yn codi cwestiynau ynghylch i ba raddau y mae cyflawniad LEADER yn Iwerddon yn un 'o'r gwaelod i fyny' mewn gwirionedd. Yn gyson ag awgrym Barke a Newton nad yw LEADER yn cynhyrchu strwythurau llywodraethu sy'n wirioneddol fewndarddol, mae Storey yn awgrymu bod yr hyn sy'n cael ei frolio fel 'o'r gwaelod i fyny' efallai'n fwy o achos o ymgorffori gweithgarwch lleol o'r brig i lawr (1999, t. 314). Mae llenyddiaeth eraill yn awgrymu, er mai'r bwriad yw cynrychioli amrywiaeth yr ardaloedd y maent yn gweithredu ynddynt, eu bod fel arfer yn eithrio aelodau mwy ymylol o gymdeithas (Scott 2004, Kola-Bezka 2020). Awgrymodd Shucksmith (2000, 2012) y dylai Grwpiau Gweithredu Lleol ymgysylltu'n benodol â grwpiau sydd wedi'u hallgáu a grwpiau ymylol i sicrhau nad yw LEADER yn gwaethygu anghydraddoldeb o ran cyfalaf cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig.

7.17 Mae Atterton et al. (2020) yn nodi tystiolaeth ledled yr UE y bu gormod o reolaeth a biwrocratiaeth yn heriol. Mae hyn yn atgyfnerthu beirniadaeth nad yw LEADER a mentrau eraill y dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yn meithrin gallu ymhlith ardaloedd llai datblygedig, a'u bod o fudd i sefydliadau ac ardaloedd sydd eisoes â'r gallu i ymwneud â mentrau o'r fath (Bosworth et al. 2015). At hynny, mae'n ymddangos bod diffyg cyfatebiaeth rhwng annog arloesi ar lefel leol a rheoli risg oddi uchod (Atterton et al. 2020). O ganlyniad, mae'r dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yn wynebu'r hyn y mae Lukesch (2018) yn ei ddisgrifio fel 'paradocs arloesi', lle mae rhaglen sydd ar y cyfan yn cael ei hystyried yn llwyddiant, wedi colli rhywfaint o'i bywiogrwydd, ac naill ai wedi dod yn 'rhan o'r dodrefn', e.e. yn achos datblygu gwledig a LEADER, neu fwy neu lai wedi ei hanghofio mewn meysydd eraill. Po fwyaf y bydd LEADER a'r Grwpiau Gweithredu Lleol sy'n ei ddarparu yn dod yn sefydliadol, y mwyaf yw'r risg y byddant yn dod yn gyfwerth ag asiantaethau datblygu lleol, ac yn mygu arloesedd, o ran y prosiectau sy'n cael eu cefnogi gan y dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned a photensial y dull o feithrin arloesedd mewn llywodraethu.

7.18 Yn gyson â'r pwynt hwn, ceir tystiolaeth ledled yr UE mai'r Grwpiau Gweithredu Lleol hynny sydd â'r hunanbenderfyniaeth fwyaf o ran meysydd gweithgarwch a gweithdrefnau adrodd sy'n cael yr effaith fwyaf o ran datblygu sgiliau lleol, potensial lleol a meddwl strategol (Atterton et al. 2018, Metis GmbH 2010).

**Casgliad**

7.19 Yn gyffredinol, mae'r deunydd gwerthuso yn taflu goleuni cadarnhaol ar broses a chynnydd LEADER, yn enwedig o ran meysydd yn bodloni nodau ac yn gwario yn erbyn themâu. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau gwerthuso hyn yn aml yn cynnwys nifer o argymhellion i'w gweithredu naill ai yn ystod yr un cyfnod LEADER neu wrth symud ymlaen i'r nesaf.

7.20 O hyn, mae rhai agweddau allweddol wedi'u hamlygu yn yr adolygiad hwn. Yn gyntaf, gallu LEADER i gyflawni ei nodau, yn enwedig o ran ymgysylltu â grwpiau anoddach eu cyrraedd. Mae hyn yn awgrymu y gellid gwneud mwy i integreiddio amrywiaeth mewn cynllunio a gweithredu strategol. Yn ogystal â hyn, mae'r anghysondeb yn y cyllid a gaiff ei ddyrannu i'r themâu amrywiol, yn enwedig i Thema 4 yn y cyfnod LEADER presennol hwn unwaith eto yn dangos bod angen ymdrin â phob agwedd o fewn LEADER mewn ffordd gyson.

7.21 Roedd effeithiolrwydd y Grwpiau Gweithredu Lleol yn bwynt allweddol arall yn yr adolygiad hwn, gyda llawer o feysydd yn nodi llai o ddiddordeb neu ymgysylltiad gan aelodau'r Grwpiau Gweithredu Lleol ac yn aml llai o gynrychiolaeth o sectorau yn sgil swyddi gwag yn y Grwpiau. Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn bwysig i weithrediad strategol LEADER a gall effeithio ar gyflawniad y rhaglen. Mae hefyd angen mwy o gydweithredu rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol ac ardaloedd i sicrhau bod LEADER yn annog rhannu arferion gorau a'r hyn a ddysgir.

7.22 Gan edrych ymhellach ar lywodraethiant y Grwpiau Gweithredu Lleol, gall y dull o weithio o'r gwaelod i fyny ac o'r brig i lawr ar y cyd yn aml ddileu ymreolaeth y Grŵp Gweithredu Lleol a'r ardal i weithredu prosiectau y mae'n teimlo sydd fwyaf addas. Gall hyn, ynghyd â'r canfyddiad bod elfennau o osgoi risg o fewn LEADER a all arwain yn aml at wneud penderfyniadau'n seiliedig ar gynlluniau neu brosiectau sydd wedi'u profi, effeithio ar wir natur yr hyn yw LEADER a'r hyn y mae'n sefyll drosto.

7.23 Agwedd allweddol arall ar LEADER yw'r anawsterau sy'n aml yn gysylltiedig â mesur allbynnau. Gydag effeithiau'n cael eu teimlo ar raddfa ficro yn hytrach na macro a'r gallu i fesur effaith yn effeithiol yn ei ddulliau adrodd a monitro presennol.

7.24 Mae hyn yn dweud wrthym, er bod LEADER yn rhan gadarnhaol o'r Cynllun Datblygu Gwledig a datblygu gwledig yn fwy cyffredinol, bod nifer o agweddau i'w datblygu a'u gwella wrth symud ymlaen, i sicrhau bod cymunedau gwledig yn cael eu cefnogi a'u caniatáu i ddatblygu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

**Cyfeiriadau**


ADAS et al. (2016) ADAS UK Ltd mewn partneriaeth â CCRI, Fera Science Ltd a Pareto Consulting. (2016) Ex post Evaluation of the Rural Development Programme for England (RDPE) 2007-2013. Adroddiad i DEFRA.

Annibal, I., Bosworth, G., Carroll, T., Price, L., Sellick, J. a Shepherd J. (2015) A Review of the Leader Approach for Delivering the Rural Development Programme for England. Prifysgol Lincoln. Adroddiad cryno i DEFRA, 2015.

Atterton, J., Mc Morran, R., Glass, J., Jones, S. a Meador, E. (2020) The role of the LEADER approach post-Brexit: Summary Report. Rural Policy Centre, Scotland's Rural College. Adroddiad cryno i Lywodraeth yr Alban, Chwefror 2020.

Barke, M. a Newton, M. (1997) The EU LEADER initiative and endogenous rural development: the application of the programme in two rural areas of Andalucia. Journal of Rural Studies, 13 (3), 319-341.

Böcher, M. (2008) 'Regional governance and rural development in Germany: the implementation of LEADER+', Sociologia Ruralis cyfrol 48 rhif 4 tt. 372-386.

Bosworth, G., Annibal, I., Carroll, T., Price, L., Sellick, J. a Shepherd, J. (2015) Empowering Local Action through Neo-Endogenous Development: the case of LEADER in England. Sociologia Ruralis 56 (3), 427-448.

Bradley, D. (2016) Wales Rural Development Plan 2007-13 Summary Ex-Post.

Bruckmeier, K. (2000) 'LEADER in Germany and the discourse of autonomous regional Development', Sociologia Ruralis cyfrol 40 rhif 2 tt. 219-227.

Kola-Bezka, M. (2020) Are LAGs Contributing to Solving Social Exclusion Problems? The Case of Kujawsko-Pomorskie Voivodship. Bulletin of Geography. Socio-economic Series 48, 35-45.

Lukesch, R. (2018) Papur araith 'LEADER Reloaded, The ELARD conference on the heartbeat of the LEADER Community' (Medi).

Metis GmbH, AEIDL a CEU (2010) Ex post evaluation of LEADER+, Adroddiad i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (2017) Ex-post Evaluation of the 2007-2013 Northern Ireland Rural Development Programme (NIRDP), Adroddiad i Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon, Rhagfyr 2020.

Perez, J.E. (2000) The LEADER Programme and the rise of rural development in Spain. Sociologia Ruralis 40 (2), 201-207.

Scott, M. (2004) Building institutional capacity in rural Northern Ireland: the role of partnership governance in the LEADER II programme. Journal of Rural Studies 20 (1), 49–59.

Shucksmith, M. (2000) Endogenous Development, Social Capital and Social Inclusion: Perspectives from LEADER in the UK. Sociologia Ruralis 40 (2), 208-218.

Shucksmith, M. (2012) Future Directions in Rural Development? Ymddiriedolaeth Carnegie UK.

Storey, D. (1999) Issues of integration, participation and empowerment in rural development: the case of LEADER in the Republic of Ireland. Journal of Rural Studies 15, 307-315.


Teilmann, K. (2012) Measuring social capital accumulation in rural development. Journal of Rural Studies 28, 458-465.

# 8. Theori Newid ar gyfer LEADER

8.1 Datblygwyd theori newid ar gyfer dull LEADER yn gyffredinol yn ogystal â chynllun 2014-2020 fel rhan o'r broses werthuso. Roedd yr adolygiadau o lenyddiaeth a chanfyddiadau'r cyfweliadau cwmpasu yn bwydo i mewn i ddatblygiad y theori newid. Yn benodol, defnyddiodd y gwaith o ddatblygu damcaniaeth newid canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar werthuso LEADER/CLLD. [6]

[6] Canllawiau Gwerthuso LEADER/CLLD; Desg Gymorth Gwerthuso Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig, Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop (2017)

## Theori newid sylfaenol ar gyfer cynllun LEADER



## Theori Newid linol ar gyfer cynllun LEADER o dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020

| | **↓ Ffactorau cyd-destunol a dylanwadau allanol ↓**<br>Cyllideb y rhaglen \| Themâu'r rhaglen \| Cyfyngiadau ar gymorth gwladwriaethol \| Arian cyfatebol ar gael \| Dulliau cymorth eraill (lleol a chenedlaethol) \| Prif amodau economaidd \| Prif amodau cyllido lleol (cyni etc.) | | |
|---|---|---|---|
| **Mewnbynnau →** | **Allbynnau (gweithgareddau) →** | **Canlyniadau (canlyniadau gweithgareddau) →** | **Effaith (canlyniadau mwy hirdymor)** |
| 18 o GGLlau yn gweithredu ledled Cymru<br><br>Cyfanswm y gyllideb/buddsoddiad: £47miliwn<br><br>Yn ogystal â:<br>• Mewnbwn gwirfoddol gan aelodau GGLlau, etc.<br>• Amser ac adnodd swyddogion Llywodraeth Cymru | • Cyfarfodydd GGLlau a gweithgareddau aelodau y tu allan i'r prif gyfarfodydd<br>• Ymgysylltu/ymgynghori â'r gymuned a rhanddeiliaid lleol<br>• Gweithgareddau annog – gan gynnwys datblygu syniadau/prosiectau, rhannu'r hyn a ddysgir a rhwydweithio lleol<br>• Cyflawni a/neu ariannu prosiectau (wedi'i ddadansoddi yn ôl themâu'r cynllun)<br>• Gweithgareddau rheoli/monitro'r rhaglen<br>• Gweithgareddau rhwydweithio gyda GGLlau eraill<br>• Gweithgareddau cydweithredu â GGLlau eraill | • Gwell cyfalaf cymdeithasol<br>  ○ Gwelliant mewn cyd-gymorth a chyd-ymddiriedaeth<br>  ○ Gwelliant mewn cyfranogiad<br>  ○ Gwell cyfathrebu<br>  ○ Gwell gallu (gwybodaeth a sgiliau)<br>• Gwell llywodraethu yn lleol<br>  ○ Arferion llywodraethu newydd<br>  ○ Gwell cydgysylltu<br>  ○ Rhyngweithio o ansawdd gwell rhwng sefydliadau a rhwng rhanddeiliaid cyhoeddus ac eraill<br>• Gwell prosiectau → gwell canlyniadau (ym mhob un o themâu'r cynllun)<br>• Dangosyddion perfformiad allweddol y prosiectau (gweler themâu'r cynllun)<br>• Meddwl yn arloesol / peilota prosiectau a gweithgareddau<br>• Dysgu (ac wedyn rhannu'r hyn a ddysgwyd (allbwn)) | Gwelliannau yn ansawdd bywyd y boblogaeth wledig o ganlyniad i 'feithrin gwell datblygu lleol mewn ardaloedd gwledig' drwy well:<br><br>• Cyfleoedd economaidd<br>• Gwasanaethau a seilwaith lleol<br>• Mynediad i wasanaethau<br><br>Prosiectau a syniadau sy'n cael eu profi/peilota gan LEADER yn cael eu 'prif ffrydio' gan greu'r effaith uchod. |
| **Rhagdybiaethau, rhwystrau a galluogwyr →** | • Parodrwydd a gallu cymunedau/unigolion i ymwneud â gweithgareddau<br>• Gallu'r gymuned i ddatblygu syniadau/cynigion am brosiectau arloesol<br>• Ymwybyddiaeth o gynllun LEADER / y sefydliad cyflawni<br>• Cefnogaeth rhanddeiliaid allweddol lleol a chenedlaethol i'r cynllun<br>• Gwybodaeth a phrofiad y tîm cymorth (cyflawni gweithgareddau annog, etc.) | • Gwybodaeth a phrofiad aelodau'r GGLlau<br>• 'Meddwl mewn ffordd newydd' ar lefel GGLl<br>• Gallu yn yr ardal leol i reoli a chyflawni prosiectau'n effeithiol<br>• Gwybodaeth a phrofiad y tîm cymorth (cyflawni gweithgareddau annog, etc.) | • Cyllid prif ffrwd ar gael<br>• Polisi/cyllidwyr prif ffrwd ag ymwybyddiaeth o brosiectau a syniadau sy'n cael eu peilota/profi fel rhan o LEADER |

## 9. Y cwestiynau ymchwil a osodwyd ar gyfer y gwerthusiad

### Cyflawniadau'r rhaglen

- Beth mae'r ymyriad wedi'i gyflawni? Beth fu natur, graddfa, amseriad a gwydnwch unrhyw allbynnau, canlyniadau ac effeithiau a nodwyd?

### Cyweddu Strategol

- I ba raddau y mae'r defnydd o'r **dull** LEADER yn cyd-fynd yn strategol â'r nodau ar gyfer y mesur hwn?
- I ba raddau y mae **prosiectau** LEADER yn cefnogi gweledigaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru?
- Pa mor aml a pha mor ganolog y mae themâu LEADER Cymru yn cael sylw mewn Strategaethau Datblygu Lleol a chynigion prosiect?
- A yw prosiectau LEADER yn gyson â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)?
- I ba raddau y mae prosiectau LEADER wedi llwyddo i fynd i'r afael â themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru fel rhan o'u hymyriad (1. Cyfle Cyfartal, Prif Ffrydio Rhywedd a'r Gymraeg)? I ba raddau y mae prosiectau LEADER wedi cefnogi ymrwymiadau strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg?
- Yn benodol, o ran prif ffrydio'r Gymraeg o fewn prosiectau LEADER yn ogystal â chefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg? (2. Datblygu Cynaliadwy a 3. Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol)?
- I ba raddau y mae prosiectau LEADER wedi mynd i'r afael â themâu trawsbynciol y Comisiwn Ewropeaidd (1. Arloesi 2. Cynaliadwyedd Amgylcheddol a 3. Newid Hinsawdd)?

### Rheoli'r rhaglen

- A yw Llywodraeth Cymru yn perfformio'n effeithiol fel Awdurdod Rheoli ar gyfer y cynllun yn y cyfnod presennol? Yn benodol:
    - a yw penderfyniadau rheoli cyllid (fel gwaredu’r sicrwydd ynghylch Cymorth Gwladwriaethol) wedi helpu i gyflawni nodau LEADER?
    - i ba raddau y mae'r newid o broses gystadleuol ar draws Cymru wedi arwain at newidiadau o ran dewis prosiectau a chanlyniadau / gwerth am arian?

- a yw'r trefniadau monitro a gwerthuso presennol ar gyfer LEADER yn addas i'r diben?
- Pa mor effeithiol yw'r system ar gyfer cyfathrebu ynghylch LEADER? A yw'n hwyluso cyfnewid gwybodaeth mewn ffordd amserol a hygyrch? Yn benodol, i ba raddau y mae systemeiddio'r cyfathrebu am brosiectau (drwy dudalen we a map rhyngweithiol Rhwydwaith Gwledig Cymru) wedi arwain at well cyfleoedd i rwydweithio?
- A yw cyfrifoldebau'r cydgysylltwyr prosiect, y bartneriaeth, y Grŵp Gweithredu Lleol, yr asiantaeth dalu, a thimau gweithredu polisi o fewn yr Awdurdod Rheoli wedi'u diffinio a'u deall yn glir, ac a ydynt yn ategu ei gilydd, gan gynnwys i ba raddau y mae'r system dalu a hawliadau wedi cynorthwyo cyrff gweinyddol i wneud taliadau amserol, syml a chydymffurfiol?

**Cyflawniad y rhaglen**

- Pa mor effeithiol yw'r Grwpiau Gweithredu Lleol ar gyflawni egwyddorion LEADER? Gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
    - A ydynt o raddfa addas i nodi'r anghenion a'r cyfleoedd sy'n benodol i ardal?[7]
    - A oes mecanweithiau addas yn bodoli i sicrhau eu bod yn gymwys ac yn gystadleuol?
    - A yw pob sector o'r gymuned yn ymddiried ynddynt ac a ydynt yn agored iddynt, gan gynnwys pa mor aml, ac ym mha ffordd y maent yn ymgysylltu?
- Beth yw proffil unigolion/cyrff a phrosiectau sydd fel arfer yn aflwyddiannus o ran cael cymorth LEADER? A ydynt yn llwyddo i gael cymorth o fannau eraill?
- A yw'r berthynas rhwng y Grwpiau Gweithredu Lleol a'r cyrff gweinyddol perthnasol yn gweithredu'n gynhyrchiol (er enghraifft o ran hwyluso arloesedd)?
- Beth fu effaith ei bod yn ofynnol cael arian cyfatebol? Faint o arian cyfatebol sydd wedi'i sicrhau o wahanol fathau o ffynonellau, a pha faint a mathau o brosiectau y mae'r rhain wedi'u cefnogi?
- A yw'r gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer pob un o'r pedair tasg (animeiddio, gweithredu, costau rhedeg, cydweithredu) wedi'i defnyddio'n effeithiol? Yn benodol:

[7] Gan gynnwys sut y pennwyd graddfa'r Grwpiau Gweithredu Lleol ar gyfer y cyfnod rhaglennu presennol, a sut yr effeithiodd gwahaniaethau ym maint y Grwpiau Gweithredu Lleol rhwng cyfnodau ariannu yng Nghymru ar nifer, maint a phroffil y prosiectau a gefnogwyd.

    - a oes prosiectau cydweithredu o nifer a maint addas wedi'u cynnal ym mhob ardal? I ba raddau y mae'r prosiectau hyn wedi cyfrannu at y nodau ar gyfer mesur LEADER?

**Gwerth ychwanegol y dull LEADER**

**Effaith ar gyfalaf cymdeithasol**

- Gan ystyried cwmpas cyfyngedig y gwerthusiad sydd i'w gaffael, rydym yn cydnabod y byddai'n anodd asesu'n gywir i ba raddau y mae LEADER wedi cynyddu cyfalaf cymdeithasol mewn ardaloedd lleol. Felly, rydym yn awgrymu canolbwyntio ar p'un a yw wedi llwyddo i arwain at:
    - ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned na fyddent fel arall yn cymryd rhan ar nifer o lefelau (gan gynnwys bod yn rhan o strwythurau llywodraethu (gweler isod), cael cymorth i brosiectau a chymryd rhan yn y prosiectau eu hunain neu elwa ohonynt)
    - lefelau uwch o ymddiriedaeth mewn cyrff sy'n darparu gwasanaethau (e.e. drwy leoli staff prosiect yn y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu)
    - ffurfio rhwydweithiau newydd (yn enwedig y rhai y gellir eu disgrifio fel cyfalaf cymdeithasol sy'n 'cysylltu' neu'n 'pontio' (yn hytrach na'n 'bondio').

**Cyfraniad at well llywodraethu lleol**

- A yw'r cynllun yn gwella llywodraethu lleol? A yw wedi creu capasiti ar gyfer llywodraethu a allai barhau y tu hwnt i'r cyfnod ariannu?
- A yw'r Grwpiau Gweithredu Lleol wedi gwneud ymdrechion digonol i recriwtio rhai sydd â gwybodaeth berthnasol helaeth, neu aelodau o grwpiau o'r fath, gan gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (gallai hyn gynnwys sefydliadau trydydd sector sydd ag arbenigedd mewn materion sy'n effeithio ar grwpiau lleiafrifol, yn ogystal ag aelodau o'r grwpiau hynny eu hunain)?
- I ba raddau y mae strwythur y bartneriaeth yn llwyddo i greu sefyllfa o wneud penderfyniadau ar y cyd?
- I ba raddau y mae strwythur y bartneriaeth yn arwain at gymorth i brosiectau na fyddai'n llwyddo fel arall?

**Canlyniadau gwell**

- A yw’r annog yn arwain at gynnwys unigolion a grwpiau sydd mewn sefyllfa unigryw i fynd i'r afael ag anghenion a chyfleoedd yr ardal?
- A yw LEADER ar ei ffurf bresennol yn gweithredu'n llwyddiannus fel offeryn ar gyfer arloesi, neu 'labordy ar gyfer newid'? Yn benodol:
  - a yw prosiectau sydd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer 'arloesi' o fewn y mesur yn wirioneddol arloesol yn yr ystyr ehangach a awgrymir gan ffocws Cynllun Datblygu Gwledig Cymru ar yr agwedd hon?[8]
  - a yw prosiectau'n cael eu defnyddio'n effeithiol fel ffordd i dreialu dulliau y gellid eu gweithredu y tu hwnt i'r ardal leol? Pa mor aml y caiff prosiectau llwyddiannus eu prif ffrydio yn y Cynllun Datblygu Gwledig?
  - lle mae Grwpiau Gweithredu Lleol wedi treialu dulliau newydd, a fanteisiwyd ar gyfleoedd i ddysgu o'r arbrofion hyn (e.e. drwy gyfleu canlyniadau i Grwpiau Gweithredu Lleol eraill)?
- A yw'r model LEADER yn arwain at greu prosiectau sydd wedi gwella cynaliadwyedd (drwy nodi prosiectau y mae gwir angen amdanynt yn yr ardal leol, a/neu drwy greu prosiectau lle mae gan weithredwyr lleol fwy o ran i’w chwarae)?
- A yw'r model LEADER yn arwain at brosiectau sydd wedi'u hintegreiddio'n well i'r lleoliad lleol?

**Golwg hirdymor ar y mesur**

- I ba raddau y mae'r gwerth ychwanegol sy’n cael ei ddarparu gan y dull (gwell llywodraethu, cyfalaf cymdeithasol a chanlyniadau gwell) yn cael ei gynnal y tu hwnt i'r cyfnod ariannu?
- A oes digon o gyfle i gyfrannu at werth ychwanegol drwy'r mesur yn y dyfodol? Er enghraifft, os yw'r mesur wedi cynyddu'r capasiti ar gyfer llywodraethu lleol mewn ardal, a fydd hyn yn parhau i ddarparu'r un lefel o enillion ar fuddsoddiad yn y dyfodol?

---

[8] Mae ymchwil flaenorol wedi nodi bod gan 'arloesi' ystod eang o ddehongliadau, sy'n cael eu mabwysiadu gan wahanol grwpiau o randdeiliaid. Er bod y Comisiwn Ewropeaidd yn ei ddiffinio'n gymharol eang, gan gynnwys defnyddio atebion sy'n newydd i'r diriogaeth (h.y. a allai fod wedi'u defnyddio mewn mannau eraill), mae dealltwriaeth leyg yn tueddu i ganolbwyntio ar newydd-deb mewn ystyr fwy pellgyrhaeddol (Wavehill 2019) a chanolbwyntio ar dechnolegau yn hytrach nag, er enghraifft, strwythurau cymdeithasol (Christoforou 2017: 51).

- Sut mae rhanddeiliaid perthnasol yn ystyried agweddau sydd wedi newid rhwng cyfnodau rhaglennu (er enghraifft, gwaredu'r sicrwydd ynghylch Cymorth Gwladwriaethol)?

## 10. Enghreifftiau o brosiectau a ariannwyd gan y cynllun LEADER presennol yng Nghymru

10.1 Un o'r heriau o werthuso'r Cynllun LEADER yw'r ystod sylweddol o brosiectau sydd wedi'u hariannu. Mae'r atodiad hwn yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o brosiectau sydd wedi'u cefnogi ym mhob thema. Fe'u dewiswyd gan y tîm gwerthuso i adlewyrchu'r ystod o weithgareddau a gyflawnwyd ac a gefnogwyd gan ddefnyddio gwybodaeth am y prosiect a ddarparwyd drwy wefan WRN. Ni ddylid ystyried y nifer y prosiectau a ddewiswyd o dan bob thema neu'r drefn y maent wedi'u cyflwyno mewn unrhyw ffordd gan nad oes unrhyw broses o samplu prosiectau wedi ei ddefnyddio. Y nod yw darparu rhestr o brosiectau sy'n rhoi syniad da o'r amrywiaeth o weithgareddau a wneir fel rhan o'r cynllun.

10.2 Mae'r rhestr o enghreifftiau a ddarperir yn hir. Fodd bynnag, yr unig ffordd i wir werthfawrogi'r ystod o weithgareddau sy'n cael eu cefnogi gan LEADER yw adolygu rhestr o'r fath.

**Thema 1: Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol**

- **Awyr Dywyll, Ynys Môn**: Bydd y prosiect peilot yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r sector twristiaeth i ddangos sut y gellir pecynnu a chyflwyno 'twristiaeth astro' i dwristiaid. Y nod yw gweithio'n ddwys gyda nifer fach o fusnesau, cyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd gyda chynulleidfa ehangach.
- **Taith Codi Pan y Dymunwch Gogledd Ynys Môn**: Mae'r prosiect peilot yn bwriadu cyflwyno menter docynnau ar y cyd rhwng atyniadau ymwelwyr yn yr ardal. Bydd y safleoedd yn cael eu cysylltu gan daith bws lle cewch eich 'codi pan y dymunwch' a fydd yn rhedeg tri diwrnod yr wythnos am dri mis.
- **Astudiaeth Hyfforddiant Twristiaeth, Ynys Môn**: Edrychodd yr astudiaeth hon ar: Beth yw'r ffordd orau o ddarparu gwybodaeth am dwristiaeth ar yr ynys? Pwy yw'r bobl orau i gyflwyno'r wybodaeth hon? A oes cwrs hyfforddi presennol y gellir ei ddefnyddio? A oes angen creu modiwlau hyfforddi newydd? Pwy fyddai'r corff cyflenwi gorau? A oes angen achredu'r cwrs hwn?
- **Llyfr Poced Enwau Lleoedd Cymraeg Pen-y-bont ar Ogwr**: Roedd y prosiect hwn yn gweithio ar draws y fwrdeistref sirol wledig gan gynnal gweithdai gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion i ddatblygu cyfeirlyfr ar hanes a threftadaeth Pen-y-bont ar Ogwr drwy ei enwau lleoedd.

- **3,000 CC – Dyma Ni! Caerffili a Blaenau Gwent**: Nod y prosiect yw datblygu rhaglen ddeuddydd ymarferol ac arloesol sy'n ennyn diddordeb ac yn helpu i feithrin hunanhyder ymhlith grwpiau sy'n agored i niwed, ac mae'n seiliedig ar gynhanes Cymru.
- **Astudiaeth Ddichonoldeb Un Blaned, Sir Gaerfyrddin**: Edrychodd yr astudiaeth hon ar ddichonoldeb datblygu Cymuned Un Blaned beilot o 6-25 o gartrefi di-garbon fforddiadwy ynghyd â gweithdai/swyddfeydd a thir ar gyfer garddwriaeth/amaethyddiaeth/coedwigaeth ar gyrion Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin.
- **Dehongli Treftadaeth Ddigidol, Sir Gaerfyrddin**: Prosiect peilot i edrych ar ffyrdd arloesol o ddehongli treftadaeth, drwy dechnoleg ddigidol.
- **Datblygu Twristiaeth yr Ucheldir, Ceredigion**: Gan adeiladu ar ganfyddiadau astudiaeth wedi'i hariannu gan y Grŵp Gweithredu Lleol, mae'r prosiect hwn yn ariannu swyddog datblygu rhan amser dros 2.5 mlynedd i ddatblygu a chyflawni'r argymhellion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad.
- **Academi Arweinyddiaeth Gymunedol, Ceredigion**: Diben y prosiect peilot oedd sefydlu Academi Arweinyddiaeth Gymunedol ar gyfer pobl ifanc 18–30 oed gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau amrywiol yng Ngheredigion. Y nod oedd cynyddu capasiti lleol i sicrhau cymdogaethau Cymraeg eu hiaith a chymunedau dwyieithog cynaliadwy yng Ngheredigion.
- **Dysgu am Goed, Ceredigion**: Nod y prosiect yw rhoi cyfle i blant ddatblygu gwerthfawrogiad o goetiroedd, gwerth i fywyd gwyllt a phren a mwynhau tra'n ysgogi sgiliau gwyddonol, daearyddol a hanesyddol yn ogystal â hybu sgiliau creadigol ac ymwybyddiaeth o gadwraeth.
- **Sioeau Gwledig, Conwy**: Prosiect yn gweithio gyda'r sioeau yn ardal Hiraethog i ddatblygu pecyn cymorth gydag awgrymiadau defnyddiol ac arweiniad ar bynciau perthnasol fel iechyd a diogelwch, recriwtio gwirfoddolwyr, ac ati.
- **Rhwydwaith Gwefru E-feiciau, Conwy**: Gyda'r galw cynyddol am feicio a phresenoldeb cynyddol e-feiciau yn yr ardal, gall Conwy elwa o ddatblygu pwyntiau gwefru symudol a pharhaol yn ei hardaloedd gwledig.
- **Astudiaeth llwybr aml-ddefnyddiwr Trefor i Langollen, Sir Ddinbych**: Astudiaeth ddichonoldeb i sefydlu llwybr aml-ddefnyddiwr rhwng Trefor a Llangollen, gan ddefnyddio'r rheilffordd segur.

- **Astudiaeth Ddichonoldeb Peirianneg Rheilffordd Llangollen, Sir Ddinbych**: Astudiaeth ddichonoldeb i edrych ar syniadau arloesol i ehangu'r gallu peirianyddol ar reilffordd treftadaeth wledig.
- **Cynllun Peilot Rheoli Cynefin Robocut, Sir Ddinbych**: Cynllun peilot i ganfod y manteision posibl sydd i beiriannau a reolir o bell ar gyfer rheoli cynefinoedd mewn ardaloedd ucheldirol lle na fyddai peiriannau safonol yn addas.
- **Cynllun Arwyddion Porth i 'Gyrchfan Treffynnon', Sir y Fflint**: Ymgymryd â chynllun arwyddion ar gyfer tref Treffynnon a fydd yn archwilio, arloesi a chreu ffyrdd o greu a datblygu thema a brand 'Cyrchfan Treffynnon'.
- **ARGO NAVIS – Dilynwch y Sêr, Gwynedd**: Bydd y prosiect hwn yn gweithio gyda phartneriaid yng Ngwynedd, Lithwania, Awstria ac Estonia i ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys sefydlu Academi Awyr Dywyll gyda phobl ifanc.
- **Gwyliau Araf, Gwynedd**: Adolygiad o'r syniad o ddatblygu Pen Llŷn fel ardal ar gyfer 'gwyliau araf' gan ganolbwyntio ar weithgareddau hamdden a cherdded a chysylltu cymunedau ac ymwelwyr â Llwybr yr Arfordir.
- **Strydoedd Unigryw, Gwynedd**: Bydd y cynllun peilot yn nodi ffyrdd y gall y stryd fawr a chanol trefi gystadlu â chanolfannau siopa a manwerthwyr ar-lein i gynyddu nifer yr ymwelwyr i'r ardal.
- **Rhodd Eryri, Gwynedd**: Cynllun peilot lle gwahoddir ymwelwyr i gyfrannu swm bach yn ychwanegol at eu bil mewn atyniadau, bwytai neu lety.
- **Rhaglen Cysylltu â Lles, Merthyr**: Wedi'i ddatblygu fel ymateb i bandemig COVID-19, y nod yw cefnogi pobl sy'n agored i niwed, sydd wedi'u hynysu a/neu sydd ag iechyd gwael neu mewn caledi i wella eu lles.
- **Llwybr Abaty Tyndyrn, Sir Fynwy a Chasnewydd**: Bydd y prosiect hwn yn datblygu ac yn gosod llwybr iBeacon o amgylch Tyndyrn. Bydd lleoliadau, ynghyd â straeon yn ymwneud ag Abaty Tyndyrn, yn cael eu nodi ar lwybr cerdded byr y tu allan i safle'r Abaty ac i mewn i'r pentref.
- **Gweithio gyda Natur, Castell-nedd**: Y nod yw meithrin gallu gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol i chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o reoli safleoedd lleol, tra'n meithrin gwell dealltwriaeth a chysylltiad â'r amgylchedd naturiol.
- **Cronfa Ymddiriedolaeth Sefydliad Cymunedol ar gyfer Sir Benfro**: Ymchwil i fodelau ar gyfer datblygu cronfa fuddsoddi gyda rhoddion rheolaidd a

chymynroddion i gynnig cronfa ariannu ar ffurf LEADER ar ôl i gronfeydd yr UE ddod i ben.

- **Grŵp Gweithredu Ynni Lleol (LEAF), Sir Benfro**: Ymgysylltu â phum cymuned leol sydd â'r nod o gynhyrchu a masnachu ynni cynaliadwy.
- **Creu ar y Cyd, Sir Benfro**: Prosiect y celfyddydau cyfranogol sy'n archwilio'n ymarferol sut y gall y gweithgaredd creadigol ar y cyd, sef tynnu lluniau, fod yn ddathliad o hunaniaethau a chyfrannu at gydlyniant cymunedol.
- **Astudiaeth Ddichonoldeb Twristiaeth Doc Penfro, Sir Benfro**: Astudiaeth ddichonoldeb yn archwilio'r potensial ar gyfer twristiaeth yn Noc Penfro.
- **Merched Gorllewin Cymru, Amgueddfa Arberth, Sir Benfro**: Prosiect i ymchwilio a dechrau casglu hanes amrywiol menywod lleol mewn ffyrdd newydd ac arloesol.
- **Amgueddfa Eco Rithwir Cwm Elan, Powys**: Datblygu offeryn rhithwir i ategu datblygiad cysyniad 'eco-amgueddfa' ar gyfer Cwm Elan.
- **Cartrefi o Bren Lleol, Powys**: Prosiect dichonoldeb o hyfywedd creu cartrefi Cymreig o bren Cymru. Dyma ran gyntaf prosiect llawer mwy a ariennir gan Gronfa Cadwyn Cyflenwi a Chydweithio y Cynllun Datblygu Gwledig.
- **Estyn allan, Denu i mewn, Powys**: Cynllun peilot dwy flynedd a gynlluniwyd i brofi effaith gwaith hirdymor drwy'r celfyddydau ac yn yr amgylchedd gyda phobl sy'n byw gyda (a) dementia ac afiechyd meddwl; a (b) oedolion ag anableddau dysgu.
- **Ardal Natur ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored, Abertawe**: Mae disgyblion Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt a'r gymuned leol am annog dysgu yn yr awyr agored. Y cynllun yw creu ardal natur y gellir ei defnyddio bob dydd fel man gweithio i blant.
- **Digwyddiadau, Hybiau a Marchnadoedd Twristiaeth Bwyd, Torfaen**: Prosiect i drefnu a chynnal cyfres o ddigwyddiadau twristiaeth bwyd yn Nhorfaen gan gynnwys gŵyl fwyd yn Big Pit, amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol, marchnadoedd bwyd a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyd/cynnyrch.
- **Monitro Bywyd Gwyllt ac Arweinlyfr, Torfaen**: Astudiaeth ddichonoldeb i gasglu, dadansoddi a chydgrynhoi'r holl ddata monitro bywyd gwyllt presennol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon a'r ardal o amgylch, cyflwyno'r wybodaeth mewn adroddiad, cynhyrchu cynllun monitro

bywyd gwyllt gan wirfoddolwyr ac asesu dichonoldeb arweinlyfr aml-awdur ar gyfer bywyd gwyllt Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon.

- **Rhwydwaith Crefft, Bro Morgannwg**: Treialu cyfleoedd i artistiaid/crefftwyr rwydweithio a chydweithredu, archwilio cyfleoedd gwerthu arloesol a datblygu gweithleoedd newydd.
- **Naturefix ar gyfer Iechyd a Lles, Prosiect Cydweithredu**: Dod â phartneriaeth o sefydliadau sy'n gweithio ym maes iechyd yn yr awyr agored at ei gilydd, ynghyd â darparwyr gofal iechyd sydd â diddordeb mewn presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd. Y nod yw treialu datblygiad adnoddau digidol newydd fel dull o rannu profiad a'r hyn a ddysgwyd, dros bellter daearyddol ac ar adegau o ynysu neu gyfyngiadau symud.
- **Ymgeisio am yr Awyr (Tywyll), Prosiect Cydweithredu**: Bydd y prosiect hwn yn treialu'r fenter Awyr Dywyll yng ngogledd-ddwyrain Cymru drwy weithredu'r argymhellion a wnaed mewn astudiaeth a gomisiynwyd yn flaenorol.
- **Hyfforddiant Sgiliau Digidol Treftadaeth, Prosiect Cydweithredu**: Pecyn o gyfleoedd hyfforddi gan ddefnyddio technegau arloesol ar agweddau ar ddehongli treftadaeth ar gyfer grwpiau treftadaeth a chymunedol.
- **Y Prosiect Gwenyn, Prosiect Cydweithredu**: Yn dwyn gwenwynwyr ynghyd o bob rhan o dde-ddwyrain Cymru i archwilio a datblygu rhaglen leol/ranbarthol i weithio tuag at gynnal poblogaeth pryfed peillio a gwella gwydnwch ecolegol mewn gwenyn, codi ymwybyddiaeth o wenyn a chadw gwenyn a'i bwysigrwydd i amrywiaeth a systemau biolegol gyda sefydliadau, ysgolion a'r cyhoedd.

**Thema 2: Hwyluso datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr**

- **Tyfwyr Môn, Ynys Môn**: Prosiect i gynhyrchu canllawiau ar y '10 syniad gorau am gnwd garddwriaethol ar gyfer Ynys Môn' sy'n rhoi manylion y cnydau sydd â galw/llwybr i'r farchnad wedi'i brofi neu y mae'r galw ar fin cynyddu oherwydd tueddiadau bwyd.
- **Pecyn Siop Dros Dro, Ynys Môn**: Darparu pecyn modiwlaidd i sefydlu siop fwyd leol, boed mewn cerbyd, caban symudol neu siop. Er mwyn i'r cynhyrchwyr ar yr ynys fanteisio ar ddigwyddiadau, mannau poblogaidd a mannau lle nodwyd bod y galw'n uchel.

- **Podiau Gwersylla Llarwydd Parc Cwm Darran, Caerffili a Blaenau Gwent**: Datblygu prototeip o bod gwersylla i gynnig profiad unigryw o aros ymysg y coed, yn unol ag ethos y parc o gynaliadwyedd, mwynhad, ymlacio ac ysbrydoliaeth. Caiff dadansoddiad cost o'r broses ddatblygu ei greu a bydd ar gael i weithgynhyrchwyr sydd â diddordeb.
- **Grwpiau Rhwydweithio Crefftau Gwledig a Deiet Eraill, Sir Gaerfyrddin**: Creu rhwydweithiau busnes ar draws yr ardal wledig, gan edrych yn benodol ar y sectorau celf a chrefft a deiet amgen.
- **Yr Egin, Sir Gaerfyrddin**: Prosiect sy'n ceisio sicrhau'r budd cymdeithasol ac economaidd mwyaf posibl o adleoli S4C i Gaerfyrddin yn 2018 drwy greu cyfnewidfa/clwstwr creadigol yng Nghaerfyrddin fel canolbwynt cenedlaethol ar gyfer y diwydiannau creadigol.
- **Academi'r Dyfodol, Ceredigion**: Gweithdai peilot i bobl ifanc mewn nifer o feysydd sector â blaenoriaeth. Y nod yw datblygu arloesedd a chreadigrwydd, hyrwyddo entrepreneuriaeth, a meithrin hyder a gwydnwch.
- **Cymraeg yn y Gweithle, Ceredigion**: Astudiaeth beilot ddwy flynedd i ymgysylltu a gweithio gyda chyflogwyr a sefydliadau gwledig i gefnogi, hwyluso a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyflogaeth.
- **Prosiect Taliadau Electronig, Conwy**: Treialu'r defnydd o systemau talu electronig symudol ymysg busnesau gwledig er mwyn canfod manteision, cryfderau a gwendidau defnyddio'r dull hwn o dderbyn taliadau.
- **Bwyta, Yfed, Bywyd Lleol, Sir Ddinbych**: Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr ar gyfer bwyd sy'n lleol i Sir Ddinbych a Dyffryn Dyfrdwy drwy gynyddu'r cydweithio rhwng ffermwyr, cynhyrchwyr bwyd, y sector lletygarwch, y sector manwerthu a sefydliadau addysg/hyfforddiant lleol.
- **Ymweliad Fferm Teagasc, Iwerddon, Sir Ddinbych**: Ymweliad addysgol ag Uned Ymchwil Llaeth Fferm Shinagh, Corc, Iwerddon, uned lloia masnachol y gwanwyn sy'n cynhyrchu llaeth o laswellt.
- **Croeso Cymraeg, Sir y Fflint**: Prosiect peilot sy'n profi tair menter – napcynnau, taflenni gweithgaredd a phlatfform digidol – sy'n hyrwyddo'r Gymraeg fel pwynt gwerthu unigryw ac yn gwella profiad twristiaeth ymwelwyr.

- **Ffiws – Gofod Gwneud, Gwynedd**: Prosiect i sefydlu 'gofodau gwneud' mewn trefi yng Ngwynedd er mwyn dangos y dechnoleg a datblygu cymuned o wneuthurwyr ar draws y sir.
- **Data Gwynedd**: Prosiect i ddangos: (1) y gall data gael ei gasglu drwy seilwaith digidol cymunedol (er enghraifft, Wi-Fi cymunedol a gofod gwyn teledu); (2) y gall cymunedau ddefnyddio data a gesglir drwy seilwaith digidol i rannu gwybodaeth â rhanddeiliaid, cwsmeriaid a grwpiau eraill.
- **Cefnogi Asedau / Gwasanaethau Gwledig, Merthyr**: Darparu cymorth hyblyg wedi'i deilwra i grwpiau cymunedol a allai fod yn awyddus i ymgymryd ag ased yng nghymunedau gwledig Rhondda Cynon Taf a Merthyr.
- **Astudiaeth Addysg Arlwyo, Sir Fynwy a Chasnewydd**: Astudiaeth gwmpasu i'r anghenion addysg arlwyo yn ardal Dyffryn Wysg, gyda'r bwriad o'i datblygu fel canolfan ar gyfer rhagoriaeth mewn addysg goginio, gan adeiladu ar ei henw da fel "Prifddinas Bwyd Cymru".
- **Addysg Clwstwr Ysgolion Gilwern, Sir Fynwy a Chasnewydd**: Datblygu prosiect peilot cylchol a fydd yn cwmpasu pob cam cynnyrch / coginio / compostio / tyfu / plannu / cynaeafu llysiau. Bydd y prosiect yn gwella ac yn ychwanegu at gwricwlwm addysg yr ysgolion, gan ganolbwyntio ar dyfu, coginio, ffermio a chynhyrchu bwyd mewn ffordd ymarferol, ac yn gweithio gyda ffermwyr, tyfwyr, cynhyrchwyr, cogyddion a busnesau.
- **Gofod Cydweithio Creadigol, Sir Fynwy a Chasnewydd**: Gallai gofod cydweithio ar gyfer Dyffryn Wysg ddod yn ganolfan naturiol ar gyfer busnesau technoleg, digidol a chreadigol, entrepreneuriaid a gweithwyr llawrydd mewn ardal wledig yng Nghymru.
- **Astudiaeth Economïau'r Dyfodol, Sir Fynwy a Chasnewydd**: Ymchwil a fydd yn helpu Sir Fynwy i nodi cyfleoedd economaidd a sectorau twf a fydd yn darparu swyddi i'n cymunedau yn y dyfodol.
- **Datblygu Twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot**: Swyddog Datblygu Busnes i roi cyngor, arweiniad a chymorth datblygu i fusnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn wardiau gwledig Castell-nedd Port Talbot.
- **Astudiaeth Gwmpasu Canolfan Adfywio Cymunedol ac Arloesi, Sir Benfro**: Treialu canolfan adfywio cymunedol yn yr Hen Swyddfa Bost, Hwlffordd. Gyda chymorth proffesiynol i gynnal pob arolwg safle, lluniadau a manylebau i reoli'r

gwaith adnewyddu. Pan fydd y ganolfan yn weithredol, cydgrynhoi’r holl ymchwil a dysgu mewn map ffordd y gellir ei rannu.

- **Cynllun Cynigion Cyfranddaliadau Cydweithredol Cymunedol Sir Benfro**: Cynllun peilot dwy flynedd gyda'r nod o ddatblygu Gwasanaeth Cymorth Cyfranddaliadau Cymunedol ar gyfer Sir Benfro.
- **Astudiaeth Ddichonoldeb Ewin Mochyn, Sir Benfro**: Astudiaeth ymchwil i echdynnu hemocyanin o Ewin Mochyn a'i gymharu â hemocyaninau presennol a ddefnyddir mewn cynhyrchion fferyllol.
- **Clwstwr Sgiliau Cynaliadwyedd Powys**: Mae'r prosiect yn dod â chwe phartner ynghyd (Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, Coleg y Mynydd Du, Siop Sgiliau a Ffermwyr Ifanc Cymru) i gydweithio i sefydlu Clwstwr Sgiliau Cynaliadwyedd ar gyfer Powys. Bydd y Clwstwr yn triongli tri o gryfderau'r sir er mwyn creu pwynt gwerthu unigryw a fydd o fudd i gyflogwyr, dysgwyr a'r economi ehangach.
- **Deorfa Wledig, Powys**: Sefydlu strwythurau penodol i gefnogi a hybu datblygiad mentergarwch ac entrepreneuriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn creu pecyn a fydd yn cynnwys lle addas ar gyfer mentrau bach, cyngor busnes, mentora, cyfleoedd lleoliad gyda busnesau / gwasanaeth paru, mynediad at gyllid a phecyn cyrsiau/gweithdai wedi'i deilwra.
- **Parc Dyfrffordd Tŷ Coch, Torfaen**: Astudiaeth ddichonoldeb i ddatblygu cynigion ar gyfer cysyniad Parc Dyfrffordd Tŷ Coch sy'n rhan o'r strategaeth adfywio ar gyfer y gamlas a fydd yn esiampl ymarferol o ddatblygu cynaliadwy.
- **Adeiladau segur neu nad oes digon o ddefnydd arnynt yng nghefn gwlad Bro Morgannwg**: Archwilio cyfleoedd i ddatblygu gweithleoedd newydd o adeiladau segur a rhai nad oes digon o ddefnydd arnynt yn ogystal ag asesu'r galw am wahanol fathau o weithleoedd.
- **Ysgol Busnes Dros Dro**: Prosiect cydweithredu rhwng Wrecsam a Sir y Fflint. Bydd y cynllun peilot hwn yn rhoi cyfle i unigolion nad ydynt erioed wedi ystyried rhedeg busnes o'r blaen gymryd rhan yn y broses hon ac yn ysgogi eu hysbryd entrepreneuraidd.
- **Sgiliau Rheoli ar gyfer Busnesau Bach Newydd, Prosiect Cydweithredu**: Ymchwilio i fethiant busnesau bach yn y diwydiant bwyd a darparu dulliau o wella

cystadleurwydd perchnogion a sylfaenwyr busnesau bach yn y sector bwyd gwledig yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

- **Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol Wrecsam**: Bydd y rhwydwaith yn llwyfan i fentrau cymdeithasol ddatblygu a thyfu a chynyddu'r cyfleoedd a gynigir i fentrau cymdeithasol, gan rannu gwybodaeth ac arferion gorau.
- **Rhwydwaith Busnesau Gwledig, Wrecsam**: Dod â'r gymuned fusnes at ei gilydd i rannu arferion gorau, datblygu cadwyni cyflenwi byr, ysgogi entrepreneuriaeth, annog rhyng-fasnachu a gwella cynaliadwyedd busnes yn yr economi wledig.

**Thema 3: Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol**

- **Creu Gofod, Ynys Môn**: Treialu nifer o syniadau gwahanol a fydd yn cynhyrchu incwm, yn helpu i gynnal gwasanaethau/asedau newydd o fewn y cymunedau, yn cynnig gwasanaethau newydd ac yn denu defnyddwyr newydd i lyfrgelloedd.
- **Hybiau Chwaraeon Cymunedol Cynaliadwy, Pen-y-bont ar Ogwr**: Archwilio'r posibilrwydd o rannu cyfleusterau chwaraeon a'u cyd-reoli. Mae model o'r fath wedi'i weithredu'n llwyddiannus lle mae rygbi, pêl-droed, criced, tenis a bowls wedi dod at ei gilydd i gymryd perchnogaeth oddi ar yr awdurdod lleol a rheoli adnoddau.
- **Clwb Menter 5 tan 9, Caerffili a Blaenau Gwent**: Mae'r Clwb 5 tan 9 yn weithle strwythuredig ar ôl gwaith i bobl ei fynychu er mwyn datblygu eu syniadau busnes drwy feithrin a chreu amodau i gefnogi entrepreneuriaeth mewn ardaloedd gwledig.
- **Cynllun Rhannu Cartref, Sir Gaerfyrddin**: Bydd y prosiect yn mabwysiadu ac yn datblygu model y Cynllun Rhannu Cartref gyda'r prif nod o gefnogi pobl hŷn i aros a byw am amser hwy yn eu cartrefi eu hunain ac i grwpiau eraill o oedolion anabl gael cymorth, sy’n golygu annibyniaeth i unigolyn yn ei gartref heb fod yn ymwthiol.
- **Un Sir Gâr, Sir Gaerfyrddin**: Diben y prosiect fydd gwella ac ehangu’r ffordd y mae'r gwasanaethau sy’n cael eu cynnig yn lleoliad yr Hwb yn Llanelli yn cael eu hailadrodd i bobl ledled Sir Gaerfyrddin, ac yn enwedig i'r rhai mewn ardaloedd gwledig.
- **Gofal Cardi, Ceredigion**: Prosiect peilot i ymchwilio i weld a all cymunedau gwledig eraill ddefnyddio pecyn cymorth, a ddatblygwyd gan Gofal Solfach, fel

sail i efelychu a dyblygu'r model gofal cymunedol llwyddiannus sydd ar waith ar hyn o bryd yn Solfach, Sir Benfro.

- **Ar dy Feic, Ceredigion**: Bwriad y prosiect hwn yw gweithio gyda phobl ifanc ledled Ceredigion drwy ymgysylltu â phlant a myfyrwyr i gasglu eu barn ar gael amrywiaeth o "feiciau" statig awyr agored ledled Ceredigion a fydd yn gwefru ffonau symudol ac a allai hefyd gynhyrchu trydan ar gyfer y grid cenedlaethol yn y tymor hwy.
- **Cynllun Cymorth Gwledig Cyn Ysgol, Conwy**: Treialu ffordd newydd o ddarparu cymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd i gael mynediad at ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant mewn lleoliad lleol.
- **Peilot Ailgylchu Symudol, Conwy**: Prosiect peilot i weld a ellir darparu'r gwasanaeth anstatudol ond gwerthfawr iawn hwn ar sail symudol heb y buddsoddiad cyfalaf a refeniw sylweddol sydd ei angen ar gyfer safle sefydlog, parhaol.
- **Trechu Arwahanrwydd Cymdeithasol drwy Ddawns, Conwy**: Gweithio gyda Chartrefi Gofal i ddangos y gall dawns fod yn arf pwerus i fynd i'r afael â materion cymdeithasol sy'n digwydd mewn cymunedau gan gynnwys arwahanrwydd cymdeithasol, unigrwydd, datblygu perthnasoedd cymdeithasol, cynnal agweddau cadarnhaol at iaith a diwylliant, a chryfhau hunaniaeth a chydraddoldeb.
- **AILOSOD, AILGYCHWYN, ADFER, Sir y Fflint**: Treialu prosiect sy'n darparu cymorth ac adnoddau i ganolfannau cymunedol, neuaddau pentref a lleoliadau 'ymgynnull' eraill o'r fath sydd wrth wraidd y gymuned i'w galluogi i adfer o effaith pandemig COVID-19.
- **Cyngor Gwledig a Gwella Sgiliau Digidol, Sir y Fflint**: Prosiect peilot sy'n rhedeg gwasanaeth cyngor a gwybodaeth allgymorth i drigolion ardaloedd gwledig Sir y Fflint, wedi'i ategu gan raglen hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth i wella eu sgiliau digidol.
- **Cegin Noddfa, Gwynedd**: Yn dilyn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ardal Peblig yng Nghaernarfon, mae awydd i sefydlu Menter Gymunedol sy'n darparu bwyd maethlon amlbwrpas drwy gymysgedd o fwyd tecawê cyflym a gwasanaeth bwyty ar benwythnosau, ynghyd â pharatoi bwyd ar gyfer digwyddiadau achlysurol oddi ar y safle.

- **Presgripsiynu Gwyrdd, Gwynedd**: Prosiect sy'n ceisio profi gwerth Presgripsiynu Cymdeithasol ac ymarfer corff yn yr awyr agored yn y sir, a'r cyfleoedd economaidd a chymdeithasol y gellir eu datblygu ohono.
- **Siop a Chaffi Cymunedol Rogiet, Sir Fynwy a Chasnewydd**: Paratoi i weithredu siop a chaffi cymunedol parhaol yn Rogiet a sicrhau bod yr holl ofynion cymunedol, cyfreithiol a statudol yn cael eu bodloni mewn perthynas â'r camau ymgeisio cyn-ariannu er mwyn darparu siop gymunedol a chaffi newydd pwrpasol.
- **Pecyn Cymorth Cymunedau Creadigol, Sir Fynwy a Chasnewydd**: Cyllid i gyflogi galluogwr cymunedol rhan-amser a fydd yn gweithio gyda chymunedau gwledig, gan greu canllaw ar sut i gasglu syniadau a'u troi'n gynlluniau gwaith, gan amlinellu nodau i'w cyflawni o fewn ardal benodol.
- **Clwb Ieuenctid Cymraeg, Castell-nedd**: Treialu clwb ieuenctid 'rhithwir' drwy gyfrwng y Gymraeg a darparu cyfleoedd i bobl ifanc wella eu sgiliau Cymraeg drwy weithgareddau a fydd yn eu helpu o ran adeiladu tîm, datrys problemau a datblygiad personol (gydag opsiwn ychwanegol o ennill cymwysterau ffurfiol) mewn amgylchedd diogel a chefnogol, wedi'i staffio gan weithwyr ieuenctid cymwysedig.
- **Amplify: Trowch e Lan, Castell-nedd**: Cyfres o weithgareddau wedi'u targedu i ddal sylw a recriwtio pobl ifanc leol, wedi'u cynnal gan gwmni theatr lleol. Ar ôl eu recriwtio, bydd pobl ifanc yn chwarae rhan allweddol wrth greu, rheoli, cyflawni a chymryd rhan yn nigwyddiadau'r prosiect dan arweiniad pobl ifanc.
- **Llwybrau Ysbrydoliaeth, Sir Benfro**: Prosiect wedi'i lunio i agor llwybrau rhwng gwahanol genedlaethau ymhlith cyfoedion sy'n teimlo eu bod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol. Bydd yn annog cyfranogwyr i fynegi eu meddyliau a'u teimladau drwy gyfrwng y celfyddydau.
- **Muddy Care, Powys**: Rhaglen adsefydlu addysgol arloesol a chymuned cymorth gydol oes i bobl o oedran gweithio (18-65) â chyflyrau cronig. Mae'n darparu offer a strategaethau mewn perthynas â phob un o'r chwe agwedd ar iechyd a lles cyfannol er mwyn galluogi pobl i reoli eu cyflyrau cronig yn fwy effeithiol ac annibynnol ac mae'n creu cymuned i helpu i gefnogi'r rhai sydd â chyflyrau cronig drwy amrywiaeth o gyfryngau fel y Rhaglen Arwain LEADER.

- **Parc Llesiant Bronllys, Powys**: Pentref Gardd Amgylcheddol sy'n gofalu am ei gymuned wledig ym Mhowys drwy gefnogi a gwella ond heb ddisodli'r Ysbyty Cymunedol sy'n ganolog iddo.
- **Gower Explorer y Sul, Abertawe**: Darparu gwasanaeth bws diwygiedig a gwell rhwng Abertawe a Gŵyr ar ddydd Sul yn y tymor prysuraf a chanolig, gan adeiladu ar lwyddiant gwasanaethau tebyg dros y pum mlynedd diwethaf.
- **Gwneud Synnwyr o Lesiant, Bro Morgannwg**: Prosiect i dreialu amrywiaeth o weithgareddau lles yn ardaloedd gwledig y Fro yn ogystal â gwasanaeth cofleidiol sy'n darparu sgiliau digidol a chyflogadwyedd. Bydd astudiaeth ymchwil hefyd yn cael ei chynnal i ddarganfod barn cyfranogwyr ar iechyd a lles.
- **Symud efo Tedi, Prosiect cydweithredol**: Datblygu fideos ar-lein i blant ifanc a rhieni gan ddefnyddio cymeriadau Magi Ann a chanolbwyntio ar chwarae, ymarfer corff a dawns. Prosiect ar y cyd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam yw hwn.
- **Hwb Cymunedol yr Orsedd, Wrecsam**: Astudiaeth i edrych ar botensial y gofod a darparu achos busnes a fydd yn darparu cyfleuster i gynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad y gymuned.
- **Prosiect Dysgu Cymunedol Pen-y-cae, Wrecsam**: Treialu gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol newydd yn adeilad y Clwb Pêl-droed. Bydd yn gosod mynediad WiFi i'r rhyngrwyd a chyfleusterau cyfrifiadurol, a fydd yn caniatáu hyfforddiant TGCh a mentoriaeth i bobl ifanc a phobl hŷn.

**Thema 4: Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol**

- **Astudiaeth Ynni Adeiladau Cymunedol, Ynys Môn**: Archwilio sut y gall cymunedau fynd ati i arbed ynni a harneisio ynni adnewyddadwy glân drwy ddod ynghyd i gydweithio ar ddefnyddio'r adeiladau sy'n eiddo i'r gymuned ac yn cael eu rhedeg ganddi drwy fanteisio ar arbenigedd priodol a thrwy brynu eu cyflenwad ynni ar y cyd.
- **Cydgysylltydd Rhwydwaith Cerbydau Trydan, Sir Gaerfyrddin**: Penodi Cydgysylltydd Rhwydwaith Cerbydau Trydan am gyfnod o ddwy flynedd. Bydd y rôl yn cydlynu ac yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu rhwydwaith gwefru cerbydau trydan ar draws ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin.
- **Pweru'r Dyffryn, Ceredigion**: Asesu dichonoldeb opsiynau i ddatblygu ynni adnewyddadwy yn Nyffryn Aeron a'r ardal gyfagos, a fydd yn cyfrannu nid yn unig at anghenion ynni mewn modd sy'n amgylcheddol gynaliadwy, ond hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd a chymdeithasol yr ardal.

- **Meinciau Steora, Conwy**: Prosiect i osod meinciau sy'n cael eu pweru gan yr haul, a all wneud sawl peth – pad gwefru di-wifr, pyrth gwefru ar gyfer ffonau gwifr (a dyfeisiau clyfar eraill), golau yn y nos, prif reolwr sy’n arbed ynni, a chasglu data.
- **Clwb Ynni Lleol, Sir Ddinbych**: Mae clwb ynni lleol yn glwb o aelwydydd sy'n grwpio gyda'i gilydd mewn ardal lle mae hefyd ynni’n cael ei gynhyrchu’n lleol (er enghraifft, cynlluniau ynni dŵr neu solar). Mae'r aelwydydd hyn yn defnyddio mesuryddion ynni sy'n olrhain yn gywir faint o ynni maen nhw’n ei ddefnyddio a phryd maen nhw’n ei ddefnyddio. Yna caiff cyfraddau gwahanol ei godi arnynt am yr ynni sy’n cael ei ddefnyddio yn dibynnu ar ba adeg o'r dydd y caiff ei ddefnyddio. Mae gan bob aelod o'r clwb 'gyfran' o'r ynni sy’n cael ei gynhyrchu’n lleol. Ar adegau o alw isel, a lle mae ynni hefyd yn cael ei gynhyrchu'n lleol, bydd cyfradd is yn cael ei godi ar aelodau'r clwb. Mae'r model yn meithrin cysylltiad rhwng defnyddwyr ynni a chynhyrchu ynni’n lleol, ac yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy ganiatáu prisiau trydan is.
- **Clwb Ceir Cymunedol, Sir Ddinbych**: Astudiaeth beilot sy'n defnyddio cerbyd trydan ar gyfer cynllun clwb ceir i alluogi hunan-wydnwch, cefnogi byw'n annibynnol a gwella iechyd a lles trigolion yr ardal leol.
- **Cymunedau Trydan, Sir Ddinbych**: Monitorau trydan yn cael eu darparu i adeiladau cymunedol ar draws yr ardal wledig i fonitro'r defnydd a'r costau. Ar ôl y cyfnod monitro, bydd cyngor a chymorth yn cael ei roi i'r grŵp cymunedol yn seiliedig ar y data fel y gallant redeg eu cyfleuster yn fwy economaidd, gan arbed arian, a gwneud buddsoddiadau ar gyfer effeithlonrwydd ynni wedi'u hanelu at gynaliadwyedd hirdymor.
- **Cynllun Ceir Trydan, Gwynedd**: Cynllun peilot yn edrych ar y potensial i osod cerbydau trydan mewn busnesau er mwyn iddynt gael eu defnyddio gan y busnes a thwristiaid. Byddai hyn yn galluogi pobl i gael profiad o yrru car trydan, codi proffil ceir trydan, yn ogystal â chynnig ffordd hwyliog a newydd o archwilio'r ardal.
- **Dewin Ynni, Gwynedd**: Treialu dau ddull o leihau'r defnydd o drydan yn y cartref. Bydd y cyntaf yn golygu paru defnydd â defnydd lleol, a bydd yr ail yn caniatáu i ddeiliad y tŷ gael mwy o reolaeth dros ddefnyddio offer.
- **Astudiaeth ddichonoldeb ynni cynaliadwy oddi ar y grid, Sir Fynwy a Chasnewydd**: Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer eiddo oddi ar y grid a fydd yn

datblygu i fod yn ganolfan fach ar gyfer gweithgareddau preswyl ac addysg awyr agored. Mae'r astudiaeth hon yn garreg sylfaen fach, ond yn hanfodol bwysig, o brosiect llawer mwy.

- **Adnewyddu Ynni Neuadd Bentref, Sir Fynwy a Chasnewydd**: Cysyniad sylfaenol y prosiect hwn yw dewis neuadd bentref wledig sy'n ddiffygiol o ran ynni a chynorthwyo rheolwyr y neuadd i sicrhau cyllid cyfalaf i wella ei heffeithlonrwydd ynni er mwyn lleihau costau rhedeg gan wella defnydd a'i gwneud yn fwy cyfforddus a thrwy hynny ddarparu gwell ased i'r gymuned leol.
- **Cefnogi Cymunedau Adnewyddadwy Cydnerth, Sir Benfro**: Bydd y prosiect yn gweithio gyda 10 cymuned i: (1) Ddatblygu mentrau adnewyddadwy cymunedol (2) Defnyddio technoleg carbon isel yn y sector busnes (3) Cefnogi pobl leol i wneud gwelliannau ynni yn y cartref (4) Datblygu mentrau storio ynni ar lefel aelwydydd a chymunedol.
- **Achub y Blaned Un Ysgol ar y Tro, Powys**: Gweithio gydag ysgolion i'w helpu i greu gweledigaeth hirdymor a dechrau gwneud y newidiadau sydd eu hangen i osod eu hunain ar lwybr i fod yn ysgol dim allyriadau.
- **Astudiaeth Ddichonoldeb i Archwilio Hyfywedd Prosiect Gwrthbwyso Carbon Cymunedol, Abertawe**: Astudiaeth i gefnogi'r cam cyntaf yn natblygiad menter gymdeithasol nid-er-elw dan arweiniad y gymuned sy'n cynnig gwrthbwyso carbon drwy blannu coed lleol wedi'u tyfu yn y gymuned.
- **Her Ysgolion Gwyrdd, Bro Morgannwg**: Prosiect i weithio gydag ysgolion yn ardaloedd gwledig y Fro i ddatblygu diddordeb mewn ynni gwyrdd, tra'n codi proffil thema 'Ynni Cymunedol Gwyrdd' yn y gymuned ehangach.
- **Pwer o'r Dwfn - Cam 2, Wrecsam**: Prosiect i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio dŵr mwyngloddiau i ddarparu gwres ar gyfer cynllun gwresogi ardal. Roedd y gwaith yn cynnwys drilio tyllau turio a phrofion arbrofol fel dilyniant i astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol.
- **O Glo i haul, Wrecsam**: Astudiaeth ddichonoldeb i ddatblygu cysyniad a dyluniad Parc Solar (PV) ar y Wonderbank, o fewn ffiniau tir Gwaith Dur Brymbo yn Wrecsam.

**Thema 5: Manteisio ar dechnoleg ddigidol**

- **Trefi Wi-Fi, Sir Gaerfyrddin**: Prosiect peilot i osod a phrydlesu pwyntiau mynediad Wi-Fi i bedair tref farchnad yn yr ardal. Bydd y prosiect nid yn unig yn darparu Wi-Fi am ddim i ddefnyddwyr terfynol ond yn bwysicaf oll bydd y system yn casglu data gwerthfawr gan y defnyddwyr er mwyn cynorthwyo'r trefi dan sylw i adfywio.
- **Peilot Llwybryddion 4G, Ceredigion**: O ganlyniad i bandemig COVID-19, mae mwy o ddibyniaeth ar gysylltedd digidol. Fodd bynnag, mae rhai eiddo yng Ngheredigion heb fynediad at fand eang cyflym a dibynadwy. Roedd y prosiect yma felly yn treialu darparu llwybryddion 4G (cysylltedd band eang symudol) mewn sefyllfaoedd o'r fath.
- **Prosiect Datblygu Realiti Estynedig, Sir Ddinbych**: Prosiect i ddatblygu a threialu nifer o blatfformau realiti estynedig y gellid eu cyflwyno ar draws gogledd-ddwyrain Cymru. Y nod yw cynyddu’r amser mae ymwelwyr yn ei dreulio yn y rhanbarth.
- **Data Aberdaron, Gwynedd**: Prosiect i ddangos sut y gellir harneisio, dadansoddi a manteisio ar ddata digidol sy’n cael ei gasglu drwy wi-fi mynediad agored.
- **Pori Manwl, Gwynedd**: Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd technoleg ddigidol ymhlith y diwydiant amaethyddol sydd yn draddodiadol yn amharod i ymgysylltu.
- **Roboteg yn y Gymuned, Sir Fynwy a Chasnewydd**: Cynllun peilot ar gyfer rhaglen addysg gymunedol allgymorth i helpu pobl sy'n agored i niwed yn dechnolegol i addasu i dechnolegau newydd. Bydd y cynllun peilot yn mesur a all ymgyfarwyddo mwy â roboteg a deallusrwydd artiffisial helpu rhagolygon cyflogaeth pobl yn y dyfodol drwy eu hysbrydoli i gofleidio roboteg a deallusrwydd artiffisial a datblygu sgiliau digidol y mae mawr eu hangen.
- **Arbrawf Band Eang Gofod Gwyn Teledu, Sir Fynwy a Chasnewydd**: Nod y prosiect yw ymchwilio a threialu technoleg band eang newydd sydd ar gael a fydd yn galluogi cymunedau gwledig i fwynhau'r un cysylltedd digidol ag mewn ardaloedd trefol ac, os bydd yn llwyddiannus, gellir ei ddyblygu mewn ardaloedd gwledig eraill. Byddant yn treialu'r dechnoleg sy’n cael ei galw’n "ofod gwyn" teledu mewn un ardal yn Sir Fynwy.
- **Clwstwr Neuaddau Cymuned Llanofer, Sir Fynwy a Chasnewydd**: Y nod yw treialu'r defnydd digidol o ganolfannau cymunedol drwy ganolbwyntio ar bedwar

pentref yn ward Llanofer yn Sir Fynwy. Bydd y cyfleuster rhyngrwyd ym mhob neuadd yn cynnig cyfleoedd ar garreg y drws i'r gymuned leol gael mynediad at TGCh o ansawdd uchel ar gyfer amrywiaeth eang o ddefnyddiau.

- **Prosiect Llesiant a Digidol Llandrindod, Powys**: Bydd y prosiect yn annog menter ac entrepreneuriaeth drwy sicrhau bod data Dadansoddeg Presenoldeb ar gael i fusnesau a darpar fusnesau a defnyddio'r dechnoleg honno i fesur effeithiolrwydd gweithgarwch a digwyddiadau busnes yn y dref.
- **Llais Gwledig Cymunedol, Abertawe**: Gwella'r ymgynghori a’r ymgysylltu cymunedol yn yr wyth cymuned wledig ddaearyddol. Caiff hyn ei wneud drwy sefydlu prosiect Llais Cymunedol Gwledig Abertawe gan ddefnyddio offer Democratiaeth Ddigidol VocalEyes a dulliau eraill i ymgysylltu â phobl leol.

## 11. Astudiaethau achos o brosiectau a ariannwyd gan gynlluniau LEADER blaenorol yng Nghymru

### Prosiect Ynni Llif Llanw Morlais a Menter Môn

11.1 Menter Môn yw'r corff gweinyddol yn y cyfnod rhaglen bresennol ar gyfer GGLl yng Ngwynedd a Môn. Ond, mae wedi gweithredu’r rôl honno ym Môn ers y 1990au ac yn gallu manteisio ar y wybodaeth a'r profiad sydd wedi datblygu o fewn y sefydliad ers hynny.

11.2 Un o brosiectau Menter Môn yw Morlais, a’i nod yw bod o fudd i gymunedau lleol a’r economi a helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy i gynhyrchu trydan glân carbon isel.

11.3 Mae'r prosiect yn rheoli ardal 35 km2 o wely'r môr oddi ar arfordir Ynys Gybi, Ynys Môn, a'i nod yw rhoi Ynys Môn ar y map o ran ynni llif llanw.

**Fideo byr yn cyflwyno prosiect Morlais**




11.4 Gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, cronfeydd ERDF drwy Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a'r sector preifat, mae gan Morlais y potensial i gynyddu dros amser i uchafswm capasiti cynhyrchu trydan o 240MW.

11.5 Mae cam cyntaf y prosiect wedi canolbwyntio ar sicrhau caniatâd. Mae ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid wedi bod yn rhan allweddol o'r broses hon. Cyflwynwyd y cais am ganiatâd yn hydref 2019 a disgwylir penderfyniad gan Weinidogion Cymru yn ystod ail hanner 2021. Yn amodol ar gael caniatâd a chymeradwyaeth, bydd yr ail gam yn rhoi'r seilwaith angenrheidiol ar waith i ddatblygwyr trawsnewidyddion ynni llif llanw ddefnyddio eu technoleg yn yr ardal. Caiff y prosiect ei roi ar waith yn raddol sy'n golygu y bydd dyfeisiau'n cael eu gosod yn raddol ac ar raddfa fach, i ddechrau, er mwyn sicrhau nad yw'r datblygiad yn cael effaith negyddol ar fywyd gwyllt y môr.

11.6 Yn ogystal â helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy gynhyrchu trydan glân o ynni adnewyddadwy, dywedir bod gan Morlais y potensial i greu tua 100 o swyddi sy'n talu'n dda yn y 10 mlynedd cyntaf. Mae manteision economaidd eraill a ragwelir i'r ardal leol yn cynnwys:

- gwella sgiliau lleol gyda phrentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi
- gweithio gyda datblygwyr i sicrhau’r gwariant mwyaf yn lleol
- creu cyfleoedd cadwyni cyflenwi newydd i fusnesau lleol yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu.

11.7 Fel prosiect Menter Môn, byddant yn cefnogi busnesau lleol i sicrhau contractau. Caiff yr holl elw ei ail-fuddsoddi'n lleol drwy gronfa budd cymunedol newydd a thrwy brosiectau amgylcheddol a chymunedol a ddarperir gan Fenter Môn. Mae hon yn agwedd bwysig ar y prosiect sy'n chwyddo effaith bosibl y datblygiad ar y gymuned leol drwy sicrhau'r budd lleol mwyaf posibl a’r lefel uchaf o ailfuddsoddi yn yr ardal leol.

11.8 Nid yw Morlais yn brosiect LEADER. Fodd bynnag, gellir olrhain gwreiddiau prosiect Morlais i astudiaeth o'r potensial ar gyfer tyrbinau yn y Fenai a gefnogwyd gan LEADER yn ystod cyfnod rhaglen o’r gorffennol. Cyn-Reolwr Gyfarwyddwr Menter Môn, Gerallt Llewelyn Jones, yw Uwch Swyddog Cyfrifol y prosiect, a dywedodd: *"nid yw’r daith o'r prosiect treialu i ddatblygiad llawn wedi'i ddarlunio'n well na thrwy Morlais".*

11.9 Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr presennol, Dafydd, yn pwysleisio bod cyflawni LEADER wedi dangos gwerth ymgysylltu'n gynnar â'r gymuned leol er mwyn sicrhau'r manteision sy’n cael eu creu yn ddiweddarach. Aeth Menter Môn i’r afael â phrosiect Morlais yn yr un modd. Mae risgiau i'r dull gweithredu, gan arwain o bosibl

at densiynau yn y gymuned leol wrth i'r rhai sydd o blaid ac yn erbyn prosiect chwarae eu rhan. Er enghraifft, roedd tensiynau pan oedd prosiectau llwybr arfordirol yn cael eu datblygu i ddechrau yn y 1990au, gyda rhai yn eu gwrthwynebu oherwydd pryderon am eu heffaith ar fywyd gwyllt. Fodd bynnag, roedd nodi pryderon o'r fath mor gynnar â phosibl yn y broses yn fuddiol yn y pen draw ac arweiniodd at yr effaith fwyaf posibl yn sgil y datblygiadau wedi i’r pryderon gael eu goresgyn.

11.10 Mae'r ffaith bod Morlais yn cael ei ddarparu gan Fenter Môn yn bwysig o ran sicrhau effaith fwyaf posibl y datblygiad yn lleol. Yn bwysig, mae bodolaeth Menter Môn fel sefydliad hefyd yn ganlyniad i LEADER yng Nghymru. Sefydlwyd Menter Môn yn wreiddiol fel prosiect yn yr awdurdod lleol i gyflawni LEADER ym 1995, ac fe’i sefydlwyd yn gwmni annibynnol sy’n eiddo i’r gymuned ym 1996. Ers hynny mae wedi esblygu'n fenter gymdeithasol sy'n gweithio ar draws gogledd Cymru i ddarparu amrywiaeth o brosiectau adfywio, amgylcheddol a diwylliannol er budd cymunedau lleol. Ar hyn o bryd maent yn cyflogi 70+ o bobl mewn swyddfeydd yn Llangefni a Phorthmadog gan eu gwneud yn gyflogwr pwysig yn yr ardal leol yn eu rhinwedd eu hunain.

11.11 Ers ei sefydlu mae Menter Môn wedi denu tua £100 miliwn o gyllid i'r ardal. Buddsoddwyd yr arian mewn prosiectau fel Llwybr Arfordirol Ynys Môn, cefnogi cynhyrchion bwyd newydd, adnewyddu hen adeiladau a diogelu rhywogaethau brodorol. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fyddai'r arian wedi'i fuddsoddi yn yr ardal pe na bai Menter Môn wedi datblygu a chyflwyno'r ceisiadau. Dywedodd Dafydd Gruffydd:

> “Mae'r dull LEADER yn hanfodol i bopeth a wnawn fel sefydliad, gan fynd ymhell y tu hwnt i'r rhaglenni a'r prosiectau LEADER rydym yn eu darparu... mae'n rhan o bopeth a wnawn a'n hethos fel cwmni.
>
> Mae'r ffaith ein bod bellach yn datblygu ac yn rhedeg prosiectau o raddfa Morlais yn dangos pa mor bell rydym wedi dod fel sefydliad a pha mor hyderus ydym bellach ynom ein hunain. Rydym yn barod i gystadlu am brosiectau ar y raddfa hon a gallwn ddangos mor effeithiol y gallwn eu cyflawni a'r gwerth ychwanegol y gallwn ei ddarparu fel sefydliad. Daw'r hyder a'r llwyddiant hwn o gyflwyno'r rhaglen LEADER ac yna prosiectau a rhaglenni eraill dros gyfnod mor hir.”

**Halen Môn**

11.12 Mae'r astudiaeth achos hon yn defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd ar wefan Halen Môn ac mewn cyfweliad gyda'r partner a'r sylfaenydd, David Lea-Wilson, ym mis Gorffennaf 2021.



Ffynhonnell y llun: [Halenmon]

11.13 Ar ôl graddio o Brifysgol Bangor, dechreuodd Alison a David chwilio am ffyrdd a fyddai'n caniatáu iddynt barhau i fyw a gweithio yn ardal Ynys Môn, a hwythau wedi syrthio mewn cariad â'r ardal yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol.

11.14 Roeddent wedi ychwanegu at eu hincwm tra'n fyfyrwyr drwy dyfu wystrys. Esblygodd y fenter wystrys fach honno i fod yn fusnes pysgod a chig hela cyfanwerthol, a redwyd ganddynt am 12 mlynedd. Ym 1983, mi wnaethant sefydlu Sw Môr Môn yn Ynys Môn, a ddaeth yn acwariwm mwyaf Cymru yn y pen draw. Pan ddaeth agwedd dymhorol y ddau fusnes yma'n broblem ddifrifol, aethant ati i daflu syniadau am ffyrdd o gynhyrchu incwm dros y gaeaf, a dyma feddwl am y syniad o greu halen môr. Felly, ym 1997, mi wnaethant adael sosban o ddŵr môr i ferwi yng nghegin y teulu a gwylio wrth i'r crisialau halen ddechrau ffurfio.

11.15 Disgrifiodd David y profiad (a'r gwersi a ddysgwyd) o ddechrau dau fusnes arall fel rhai pwysig iawn i'w gallu i ddechrau ac yna adeiladu Halen Môn. Fodd bynnag, maent wedi derbyn cymorth amrywiol dros y blynyddoedd gan gynnwys cymorth a ddarparwyd gan Fenter Môn a LEADER yn nyddiau cynnar iawn y busnes yn y 1990au ar ffurf dau grant bach: £3,000 i ymgymryd â gwaith datblygu cynnyrch a £3,000 i helpu i ddatblygu brand ar gyfer y cynnyrch. Dywedodd David fod y gefnogaeth hon wedi bod yn "gwbl hanfodol" i sefydlu'r busnes.

11.16 Dechreuon nhw drwy gyflenwi halen môr Halen Môn i'r siop cigydd leol ym Mhorthaethwy ar Ynys Môn. Erbyn heddiw, mae'r busnes yn cyflogi dros 20 o bobl o'r ardal leol ac mae Halen Môn i'w weld mewn mwy na 22 o wledydd ledled y byd

yn ogystal ag ar fyrddau rhai o fwytai gorau'r byd fel The Fat Duck ac mae'n gynhwysyn hanfodol yn siocled Green & Blacks a Piper's Crisps. Mae Halen Môn yn cyflenwi Marks and Spencer, Waitrose a Harvey Nichols, ynghyd â thros 100 o siopau deli gorau'r DU. Yn bwysig, mae hefyd yn dal i fod ar werth yn siop y cigydd ym Mhorthaethwy.

11.17 Mae eu perthynas â Menter Môn a LEADER wedi parhau ers y gefnogaeth gynnar honno, gydag ystod o gefnogaeth yn cael ei darparu dros y blynyddoedd (mae David yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith bod nifer o geisiadau am gymorth wedi'u gwrthod hefyd!). Roedd hyn yn cynnwys cefnogi'r busnes i ymweld â gŵyl fwyd yn Efrog Newydd yn 2001 a nododd David y bu hynny’n "agoriad llygad go iawn" ac yn hanfodol wrth ddatblygu'r busnes. "Doedd neb arall yn darparu cymorth o'r fath i fusnesau bwyd bryd hynny". Ond gellid dadlau na fyddai'r busnes lle y mae heddiw heb y grantiau bach a ddarparwyd gan LEADER yng nghamau cynnar iawn ei ddatblygiad. Yn hanfodol ym marn David, roedd y gefnogaeth y gallai Menter Môn ei darparu hefyd yn gyflym ac yn hawdd cael gafael arni, a dywedodd fod hynny’n hanfodol i unrhyw fusnes sy'n datblygu. Fodd bynnag, mae David yn cwestiynu pam nad oes mwy o enghreifftiau o fusnesau fel Halen Môn ledled Cymru; "Pam fod cyn lleied o enghreifftiau o fusnesau fel ein rhai ni ledled Cymru? Pam fod cyn lleied o fusnesau wedi datblygu yn yr un ffordd?"

11.18 Mae Alison a David hefyd wedi datblygu perthynas â Menter Môn y tu allan i'r busnes, gan chwarae eu rhan mewn nifer o brosiectau cymunedol a thwristiaeth sy'n cael eu datblygu a'u cyflawni ganddynt.



Alison a David (ffynhonnell: Halenmon)

**Undebau Credyd**

11.19 Sefydliad ariannol cyd-fuddiannol, nid-er-elw, sy’n eiddo i aelodau yw undeb credyd. Yng nghanol y 1990au roeddent yn dechrau cael eu cydnabod mewn rhannau trefol o Gymru fel dewis moesegol amgen i fanciau'r stryd fawr, sy’n cyd-fynd yn well ag anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

11.20 Er eu bod yn dod yn gyfarwydd y Gymru drefol, nid oedd sôn am undebau credyd yng nghefn gwlad Cymru yng nghanol y 1990au. Daeth Menter Powys, y grŵp LEADER lleol, yn ymwybodol o waith undebau credyd yng nghefn gwlad Iwerddon. Gwnaeth agwedd drawswladol LEADER eu helpu i ddod i gyswllt ag undebau credyd yn Mitchelstown, Swydd Corc, a Tallow, Swydd Wexford.

11.21 Aeth Menter Powys ati’n rhagweithiol, gan weithio gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru i archwilio'r manteision y gallai undebau credyd eu cynnig i gymunedau gwledig. Bu’n archwilio dichonoldeb sefydlu model undeb credyd gwledig a heriodd y ddealltwriaeth o'r hyn y dylai ac y gallai undeb credyd fod. Bryd hynny, roedd yr elfennau anhysbys yn cynnwys sut y byddai'r gofynion bondiau cyffredin yn gweithio mewn lleoliad gwledig. Bu'r fenter hefyd yn archwilio'r hyn y gallai undeb credyd ei wneud. Aeth Undeb Credyd Robert Owen yn ei blaen i ddatblygu'r cysylltiadau cyntaf yn y DU rhwng undeb credyd ag ysgolion, er enghraifft.

11.22 Trwy LEADER, cyflogodd Menter Powys swyddog datblygu a fu’n gwneud gwaith ymchwil a llunio astudiaeth ddichonoldeb. Sefydlwyd Grŵp Llywio, yn cynnwys pobl leol a oedd â diddordeb mewn archwilio undebau credyd gwledig. Roedd hyn yn bwysig gan ei fod "o'r gwaelod i fyny", ac nid yn parasiwtio cysyniad i ardal. Drwy’r dull gweithredu hwn, roedd y wybodaeth a'r sgiliau newydd yn cael eu hymgorffori mewn cymunedau.

11.23 Undeb Credyd Robert Owen, yn seiliedig yn y Drenewydd, oedd yr undeb credyd gwledig cyntaf yn y DU. Wedi hynny, ffurfiwyd undebau credyd yn Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt, Llandrindod a Threfyclo (y Gororau).

11.24 Roedd y cysylltiad ag Iwerddon, a hwyluswyd gan LEADER, yn hanfodol. Roedd undebau credyd wedi hen ennill eu plwyf yng nghefn gwlad Iwerddon ac felly'n ysbrydoliaeth o ran yr hyn oedd yn bosibl. Roedd hyn yn cynnwys potensial undebau credyd, fel y gwaith gydag ysgolion a nodwyd uchod, a phwysigrwydd bod

â phroffil amlwg mewn cymunedau. Dysgodd Undeb Credyd Robert Owen o'r mater hwn o broffil amlwg, gan sefydlu blaen siop yng nghanol y Drenewydd. Bu gwersi eraill yn anoddach i'w hefelychu. Rhybudd cynnar oedd peidio â rhoi undebau credyd i gyd-fynd â'r agenda gwrth-dlodi a fyddai'n creu'r canfyddiad mai banc i bobl dlawd ydynt. Yn anffodus, yng Nghymru a ledled y DU, dyma fu'r prif naratif.

11.25 Mick Brown oedd Swyddog Datblygu Menter Powys a phrif sbardun y fenter. Aeth yn ei flaen i weithio gyda'r New Economics Foundation gan gyd-ysgrifennu ystod o adroddiadau ac astudiaethau.[9] Yn ddiweddarach, arweiniodd Mick daith astudio i'r Unol Daleithiau i ymchwilio i Undebau Credyd Datblygu Cymunedol ac roedd modd iddo ddod â'r hyn a ddysgwyd yn ôl i'r DU[10] drwy sefydlu'r partneriaethau bancio cymunedol cyntaf gyda sector newydd Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol. Sefydlwyd Cronfa Bancio Cymunedol Robert Owen yn y Drenewydd fel chwaer-sefydliad i'r undeb credyd, gan ddarparu cyllid i ficrofusnesau ledled ardaloedd gwledig Cymru.

11.26 Mae Mick yn tynnu sylw at waddol LEADER. "Roedd dull LEADER Menter Powys o'r gwaelod i fyny. Gwnaeth ymgorffori sgiliau mewn cymunedau a chreu gwaddol o feddwl arloesol sy'n parhau heddiw." Ar hyn o bryd mae Mick yn Gyfarwyddwr Banc Cambria, Banc Cymunedol newydd Cymru.

[9] Mae detholiad o'r adroddiadau hyn i'w gweld fan yma: Sefydliad Economeg Newydd
[10] Wedi'i ariannu gan NatWest

**Out to Learn Willow**

11.27 Dywedir yn aml mai microfusnesau yw curiad calon ardaloedd gwledig, ac mae cynlluniau LEADER blaenorol wedi darparu cymorth helaeth iddynt. Busnes yn seiliedig yn Aberogwr yw Out to Learn Willow. Dyma un o'r prosiectau cynharaf a gynorthwywyd gan Gymunedau Gwledig Creadigol o dan LEADER (2007-2013) ym Mro Morgannwg.



11.28 Sefydlwyd y busnes gan Clare Revera, athrawes gymwysedig, a Mel Bastier (yn y llun ar y dde), dylunydd graffeg. Mae'n arbenigo mewn hyfforddi oedolion a phlant yng nghrefft draddodiadol gwehyddu helyg ac addysgu dyluniadau basgedi traddodiadol Cymreig. Mae hefyd yn helpu sefydliadau fel ysgolion a grwpiau cymunedol i ddatblygu eu mannau awyr agored. Mae'r busnes wedi cyflawni comisiynau pwrpasol ar raddfa fawr i gleientiaid amlwg fel y Royal Windsor Rose and Horticultural Society, y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, a'r BBC. Mae'r cyrsiau bellach yn cynnwys addysgu cyrsiau uwch ac achrededig ledled Cymru a'r DU.

11.29 Hobi o fusnes oedd Out to Learn Willow i gychwyn, ond wrth i'r busnes dyfu, roedd modd i Clare and Mel weithio'n rhan amser yn eu prif swyddi. Roeddent yn edrych am gyllid i gynnal mwy o gyrsiau, a rhai hirach, gan gynnwys cwrs preswyl ar greu arch. Roedd modd i Gymunedau Gwledig Creadigol ariannu'r datblygiad hwn gyda grant o £9,272 o LEADER. Caniataodd y grant i'r busnes droi'n fenter amser llawn.

11.30 Yn bwysig, drwy LEADER, roedd modd i Gymunedau Gwledig Creadigol hefyd gynnal cyswllt â'r busnes a chefnogi datblygiadau parhaus. Mae hyn wedi cynnwys grantiau bach eraill o brosiect peilot Gweithgareddau Arfordirol a'r prosiect peilot Twristiaeth Araf o dan gynlluniau LEDER dilynol.

11.31 Yn sgil y cymorth i Out to Learn Willow, gwelwyd effaith ganlyniadol ar yr economi ehangach. Aeth cyfranogwyr y cyrsiau yn eu blaen i sefydlu eu busnesau eu hunain, er enghraifft, Hatton Willow, West Wales Willows, Mortimer Willow.[11] Mae Clare a Mel ill dwy wedi mynd yn eu blaen i sefydlu eu busnesau unigol eu hunain (ynghyd â pharhau gydag Out to Learn Willow). Sefydlodd Clare 'Welsh Baskets'

[11] Helyg Hatton Helyg Gorllewin Cymru Mortimer Willow

sy'n addysgu'r grefft o greu basgedi ledled y wlad. Sefydlodd Mel Lily Willow Coffins (mewn partneriaeth â Sarah Hatton, sydd hefyd yn gwehyddu helyg), gan ddarparu eirch a chasgedi llwch o helyg i'w harchebu.

11.32 Cafodd y busnes effaith gadarnhaol ar gyflogaeth leol. Yn 2017, dyma Clare yn cyflogi prentis sydd wedi'i hyfforddi i gynnal gweithdai. Mae Mel yn cyflogi staff tymhorol ar gyfer digwyddiadau yn ei busnes hithau.

11.33 Yn 2016, aeth Clare i bythefnos o ŵyl a wedi'i chefnogi gan Gymunedau Gwledig Creadigol i brofi potensial cynnal digwyddiadau ym Mae Dwn Rhefn ar Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Drwy'r ŵyl, amlygwyd yr angen am rwydwaith crefftau yn y Fro, ac yn sgil hynny ffurfiwyd prosiect peilot Rhwydwaith Crefft y Fro, unwaith eto wedi'i ariannu gan LEADER drwy Gymunedau Gwledig Creadigol. Vale Makers[12] yw'r enw arno bellach, a chaiff ei redeg gan bwyllgor o wirfoddolwyr yn annibynnol ar Gymunedau Gwledig Creadigol. Cynhaliodd ei ŵyl wneuthurwyr ei hun ar draws y Fro yn 2019, wedi'i ariannu gan Gymunedau Gwledig Creadigol[13].

11.34 Mae'r astudiaeth achos yn dangos sut mae cymorth LEADER ar raddfa fach i fusnes newydd wedi cael sgil-effaith economaidd gadarnhaol dros amser. Mae hyn yn cynnwys cymorth i fusnesau newydd, cyflogaeth leol, a gweithgarwch ar y cyd â chynhyrchwyr crefft eraill. Bu'r berthynas barhaus â thîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn ffactor pwysig yn y canlyniadau cadarnhaol sydd wedi'u cyflawni.

11.35 "Roedd cefnogaeth Cymunedau Gwledig Creadigol a'r cyllid cysylltiedig y hanfodol i'r busnes drwy amryw gamau datblygu. Roedd cymorth a chyllid Cymunedau Gwledig Creadigol yn drobwynt llwyr ar ein taith. Hebddo, efallai na fyddem wedi gwneud unrhyw ran o'r gwaith i adeiladu Out to Learn Willow gan ei bod yn naid fawr mynd o swydd amser llawn i sefydlu a gweithio yn ein busnes. Roedd y grant yn gatalydd i'n galluogi i gymryd y cam hwn. Pe byddem wedi bwrw ymlaen â'n syniadau heb y cymorth hwn, byddai wedi cymryd llawer mwy o amser. Yn fwy diweddar, bu cymorth Cymunedau Gwledig Creadigol yn hanfodol i helpu i sefydlu'r Ŵyl Grefftau. Gwnaeth Cymunedau Gwledig Creadigol helpu i sefydlu'r ŵyl yn ei chamau datblygu cynnar a'n cynorthwyo'n ymarferol drwy ddarparu gwybodaeth a

[12] Vale Makers
[13] Vale Makers ffilm

chymorth ar logi gasebos ar gyfer digwyddiadau, marchnata ac ati." Clare Revera (Out to Learn Willow)[14]

**Telemateg: TeleCabana**

11.36 Ym 1991, roedd Antur Teifi yn un o bedwar sefydliad yng Nghymru a ddewiswyd i arloesi LEADER, Menter Gymunedol y Comisiwn Ewropeaidd a oedd yn newydd ar y pryd. Roedd yr asiantaeth fenter leol wedi'i sefydlu ym 1978 gan bobl leol a oedd yn pryderu ynglŷn â lefelau uchel o ddiweithdra a diboblogi a sgil-effaith hynny ar y Gymraeg.

11.37 Yn ystod dau gyfnod cyntaf LEADER I a LEADER II, roedd modd i Antur Teifi dreialu amrywiaeth o brosiectau arloesol yn nyffryn Teifi a gellid dweud ei bod yn flaenllaw o ran defnyddio technolegau newydd yn economi gorllewin Cymru.

11.38 Roedd Antur Teifi eisoes wedi agor teleganolfan yng Nghastellnewydd Emlyn ym 1986 gyda thri aelod o staff.[15] Daeth hyn yn dilyn ymchwil gan Brifysgol Llanbedr Pont Steffan a nododd anghenion technoleg yr ardal leol a'r galw am hyfforddiant mewn technoleg newydd. Serch hynny, nid oedd y ganolfan yn denu busnesau ffermio. Aethpwyd ati felly i archwilio opsiynau am ateb symudol a fyddai'n mynd ag adnoddau allan yn ddyfnach i ardaloedd gwledig.

11.39 Y canlyniad oedd Uned Hyfforddi Technoleg Gwybodaeth Symudol, o'r enw **TeleCabana**, wedi'i hariannu gan nifer o ffynonellau ond wedi'i datblygu gyda'r adnodd a ddarparwyr gan LEADER. Lansiwyd y TeleCabana cyntaf yn Sioe Frenhinol Cymru ym 1997 fel menter ar y cyd â Cymad, (grŵp LEADER yn Ne Gwynedd) a Menter a Busnes (cwmni datblygu economaidd annibynnol).[16]

11.40 Roedd busnesau ffermio yn targed allweddol i'r gwasanaeth. Roedd y TeleCabana cyntaf yn cario wyth gliniadur, argraffydd, a pheiriant ffacs. Ychwanegwyd offer newydd wrth i dechnoleg ddatblygu. Roedd yr uned ar gael ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Gwynedd i gynnal cyrsiau rheolaidd, digwyddiadau untro a hyrwyddiadau arbennig. Yn ddiweddarach, roedd ar gael yn fasnachol ac roedd yn cael ei ddefnyddio gan ddarparwyr tai cymdeithasol a sefydliadau gwledig eraill i gynnal eu cyrsiau a'u digwyddiadau galw heibio eu hunain.

---

[14] Wedi'i gymryd o Grŵp Gweithredu Lleol Bro Morgannwg (2019). Rhaglen LEADER: Adroddiad Etifeddiaeth. t18

[15] Mae teleganolfan yn fan cyhoeddus lle gall pobl gael mynediad i gyfrifiaduron, y rhyngrwyd a thechnolegau digidol eraill a datblygu sgiliau digidol hanfodol.

[16] Menter a Busnes

11.41 I gychwyn, roedd TeleCabana yn darparu hyfforddiant ar bynciau'n ymwneud â ffermio yn benodol, fel cadw cyfrifon, technegau bwydo gan ddefnyddio'r cyfrifiadur, yn ogystal â chefnogi arallgyfeirio. Roedd yn darparu sesiynau blasu bach, ac yn ddiweddarach, gyda chyllid y Loteri, ehangodd i wasanaethu'r gymuned ehangach, gan helpu pobl i greu cyfrifon e-bost a gwefannau.


11.42 TeleCabana oedd un o'r prosiectau cyntaf i fynd i'r afael ag allgáu digidol. Gan sylweddoli bod ardaloedd gwledig mewn perygl o gael eu gadael ar ôl o ran technolegau newydd, nod TeleCabana oedd helpu busnesau i arallgyfeirio ac ehangu. Ar ymweliad â'r uned ym mis Chwefror 2001, dywedodd yr e-Weindiog Andrew Davies fod y cynllun yn rhan bwysig o'r frwydr yn erbyn gagendor digidol posibl.[17]

11.43 Yn sgil y prosiect, sefydlodd Asiantaeth Datblygu Cymru uned dechnoleg symudol mwy o faint o gâi ei alw'n drelar Gwasanaeth Gwybodaeth Cymru. Gwelodd TeleCabana yr angen am gymorth wedi'i deilwra ar gyfer busnesau ffermio. Bwriwyd ymlaen â'r syniad yma wedyn gan wasanaethau fel Cyswllt Ffermio[18] (a sefydlwyd yn 2001).

[17] Newyddion y BBC 'Crwsâd carafanau yn erbyn rhaniad digidol'

[18] Mae Cyswllt Ffermio yn wasanaeth ledled Cymru sy'n darparu amryw wasanaethau i fusnesau ffermio gan gynnwys cynllunio busnes a chyngor arbenigol ar agweddau ar amaethyddiaeth.

**Llwybr Arfordirol Ynys Môn**




11.44 Mae Llwybr Arfordirol Ynys Môn dros 200 km o hyd o'i fan cychwyn/gorffen yn Eglwys Cybi Sant yng Nghaergybi. Mae'n gorwedd bron yn llwyr yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn. Llwybr i gerddwyr ydyw'n bennaf, ond mae rhai rhannau'n addas i ddefnyddwyr eraill fel beicwyr a marchogion ceffylau. Ers 2012 bu'n rhan o Lwybr Arfordir Cymru, sy'n 1,400 km o hyd, ond mae Llwybr Arfordirol Ynys Môn yn deillio o flynyddoedd lawer cyn hynny, diolch i waith Menter Môn a LEADER.

11.45 Dechreuodd Menter Môn weithio gyda chymunedau a grwpiau lleol i wella llwybrau a throedffyrdd yn gynnar yn rhaglen LEADER. Roedd athroniaeth LEADER o weithio o'r gwaelod i fyny yn cefnogi dull a oedd yn adeiladu ar asedau lleol i sicrhau budd i'r gymuned. Roedd datblygu llwybrau cerdded lleol yn cael ei ystyried yn bwysig i wella'r hyn a oedd yn cael ei gynnig o ran twristiaeth, annog ffermydd i arallgyfeirio i ddarparu ar gyfer cerddwyr, datblygu busnesau newydd, a chreu swyddi lleol. Dyma enghraifft o'r dull 'aml-sector' sy'n cael ei annog gan LEADER.

11.46 I gychwyn, roedd y gwaith yn cynnwys gwelliannau i lwybrau lleol a chreu taflenni lleol. Rhwng 1998 a 2003, roedd Menter Môn, fel gweinyddwyr LEADER yn Ynys Môn, yn allweddol yn y gwaith o ddatblygu prosiectau cymunedol lleol i fod yn syniad i greu 'Llwybr Arfordirol Ynys Môn'. LEADER oedd y cerbyd ar gyfer plannu'r syniad, gan adeiladu ar y gwaith lleol a oedd eisoes wedi'i wneud. Cyhoeddwyd canllaw i'r llwybr gan Fenter Môn ym mis Rhagfyr 2004.

11.47 Roedd Menter Môn mewn sefyllfa ddelfrydol i ddatblygu cysyniad Llwybr Arfordirol Ynys Môn. Roedd ganddynt gysylltiadau cryf â chymunedau lleol yn ogystal â chysylltiadau â thrawstoriad eang o fuddiannau lleol.

11.48 Roedd rhai o berchnogon tir yr ynys yn bryderus ynglŷn â'r cynnig i gychwyn. Yn 2013, cyhoeddwyd yn y wasg fod Menter Môn, ar ôl denu £230,000 o gyllid, yn cydweithio â pherchnogion tir i oresgyn pryderon ynglŷn ag erydiad a sbwriel.[19] Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â'r effaith y byddai cynnydd ym mhwysau twristiaeth yn ei chael ar ecosystemau bregus. Roedd Menter Môn mewn sefyllfa ddelfrydol, fel

[19] Tirfeddianwyr annibynnol 'Ynys Môn yn dal yn allweddol i gwblhau llwybr yr arfordir' Darllenwyd 25.06.21.

asiantaeth fenter annibynnol yr oedd pobl yn ymddiried ynddi, i ddod â gwahanol anghenion ynghyd i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bosibl, yn hytrach na gorfodi atebion ar gymunedau a buddiannau. Roedd modd iddynt hefyd awgrymu treial o un flwyddyn i brofi a gwerthuso'r goblygiadau.

11.49 Defnyddiwyd tystiolaeth gan Fenter Môn a'i waith ar y cyfnod peilot i helpu i hybu Llwybr Arfordir Cymru yn ehangach.[20] Yn 2012, amcangyfrifwyd bod 300,000 o bobl yn defnyddio Llwybr Arfordirol Ynys Môn yn flynyddol, gan olygu £12 miliwn i'r economi leol. Buddsoddodd Menter Môn £6m wedi'i ysgogi o amryw ffrydiau ariannu i wella mynediad i'r arfordir o amgylch Ynys Môn, fel rhan o brosiect ehangach Llwybr Arfordir Cymru.

11.50 Cafodd y prosiect wedyn ei 'brif-ffrydio' i Gyngor Sir Ynys Môn, ar sail llwyddiant y gweithgareddau a ariannwyd fel rhan o LEADER. Erbyn heddiw, mae'r llwybr yn cysylltu â dros 20 o drefi a phentrefi arfordirol ar yr ynys. Mae'n helpu i gynnal trafnidiaeth gyhoeddus, darparwyr llety, siopau, tafarnau a gwasanaethau lleol eraill. Caiff y llwybr ei ystyried yn ased eithriadol o bwysig i economi Ynys Môn.

**Hermon – Cymuned fentrus a chynaliadwy ar waith**

11.51 Tri phentref cymharol fach (poblogaeth o ryw 300) yng ngogledd Sir Benfro yw Hermon, ynghyd â chymunedau cyfagos Glogue a Llanfyrnach. Yn 2006, gwnaeth Cyngor Sir Penfro gau ysgol y pentref yn dilyn cyfnod hir ac aflwyddiannus o brotestio yn y gymuned. Roedd y bobl leol yn ofni effaith cau'r ysgol ar fywyd yn lleol, gan y bu'r ysgol yn ganolbwynt i deuluoedd a'r gymuned ehangach. Unwaith y gwnaed y penderfyniad hwnnw, trodd y gymuned at PLANED am gymorth. Cynhaliwyd gweithdai creu gweledigaeth i nodi cyfleoedd a'r potensial i ddefnyddio safle'r ysgol ar gyfer prosiect adfywio. Crewyd cynllun gweithredu, a ffurfiwyd Fforwm Cwm Arian i fwrw ymlaen â chynlluniau am ganolfan gymunedol a phrosiectau adfywio eraill.

11.52 Mae proses PLANED o Gynllunio Camau Gweithredu Cymunedol (sy'n parhau i gael ei chyflawni heddiw) yn cynorthwyo cymunedau i adeiladu momentwm, ceisio consensws a gwthio am newid er gwell. Maent yn cynnal digwyddiadau creu gweledigaeth cymunedol sy'n helpu i ffurfio Cynlluniau Gweithredu Cymunedol ac

[20] Cyfoeth Naturiol Cymru (2013). Gwerthuso manteision Llwybr Arfordir Cymru i fusnesau. T1

maent hefyd yn gyfle gwych i bobl gwrdd a thrafod y materion sy'n bwysig iddynt yn eu hardal leol.

11.53 Cefnogodd PLANED gymuned Hermon drwy ddefnyddio LEADER i ddatblygu cynllun busnes cynhwysfawr ar sail ymchwil drylwyr i brynu'r ysgol fel sylfaen i 'Ganolfan Hermon'. Gwerthwyd cyfanswm o 196 o gyfranddaliadau gan godi £49,000, gyda chyllid ychwanegol o Raglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol Llywodraeth Cymri.[21] Prynwyd safle'r hen ysgol gan y gymuned ym mis Ionawr 2008. Dechreuwyd ar y gwaith ailddatblygu o ddifrif wedyn, ac ar ôl llawer o droeon annisgwyl, ym mis Medi 2013, agorwyd Canolfan Hermon yn swyddogol gan Maureen George, pennaeth olaf yr ysgol. Heddiw, mae Canolfan Hermon yn cynnig swyddfeydd bach i'w rhentu, ac ystafelloedd cyfarfod a'r brif neuadd i'w llogi. Canolfan Hermon hefyd yw cartref Cylch Meithrin Hermon.

11.54 O fod wedi gweld llwyddiant methodoleg y cynllunio cymunedol fel ffordd i ddatblygu mentrau newydd, crëwyd cynlluniau newydd gyda chymorth PLANED yn 2011 a 2016. Mae PLANED wedi cynorthwyo llawer o brosiectau ategol a deilliedig, er enghraifft, Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian a'i dyrbin gwynt cymunedol. Cafodd cymorth ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb ar ynni adnewyddadwy ei ariannu drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy[22] a llwyddwyd i'w dderbyn gyda chymorth PLANED. Gosodwyd y tyrbin gwynt 900kW ym mis Hydref 2019 ac mae'n darparu cronfa gymunedol a all gynorthwyo cyfleusterau a phrosiectau cymunedol a mentrau gwyrdd lleol.

> "Mae'r gymuned yn Hermon a'r ardal o amgylch wedi elwa'n fawr o gymorth PLANED i helpu i greu Cynlluniau Gweithredu Cymunedol yn rheolaidd. Cymuned wledig fach ydym ni, a chan ein bod wedi gweld gwasanaethau gwledig arferol yn diflannu, fel siopau, ysgolion, garejys, tafarnau... fe benderfynom weithredu drosom ein hunain. Gyda chymorth PLANED a chynllun gweithredu rydym wedi ailgyflwyno gwasanaethau fel neuadd gyfarfod newydd, unedau swyddfa hybu busnes, man ar gyfer elusen addysg y blynyddoedd cynnar, caffi cymunedol newydd, adeilad Sied Dynion, rhandiroedd, prosiectau ynni adnewyddadwy yn cynnwys solar ffotofoltaig, solar thermol, gwres ffynhonnell aer, a thyrbin gwynt cymunedol 900 KW, mentrau bioamrywiaeth, a

[21] Cronfa Llywodraeth Cymru sydd ar gael i grwpiau cymunedol i gynnal prosiectau lleol. Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol | LLYW.CYMRU Darllenwyd 08.07.21.
[22] Cronfa sy'n cynorthwyo prosiectau cymunedol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r ardal gyfagos. Cronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

phrosiectau tai lleol. Pan mae pobl leol yn gweithio tuag at gynllun pwrpasol, gall gweithgareddau cymunedol gwych gael eu cyflawni" Cris Tomos[23]

11.55 Mae Hermon ar fin cychwyn ar ymarferiad cynllunio cymunedol newydd yn 2021, fel ffordd i sbarduno prosiectau newydd sy'n cynnal bywyd y gymuned.

**Siop Gymunedol Pwllglas**




11.56 Mae pentref Pwllglas lai na thair milltir i'r de o Ruthun yn Sir Ddinbych. Bu'r gymuned heb siop am dros 20 mlynedd pan benderfynodd y bobl leol archwilio'r posibilrwydd o ailgyflwyno'r gwasanaeth sylfaenol hanfodol hwn.

11.57 Bu Cadwyn Clwyd yn gweithio gyda chymuned Pwllglas o dan LEADER i ganfod hyfywedd y syniad a'r angen amdano. Dros gyfnod o dair blynedd, cafodd cyfarfodydd cyhoeddus a gwaith cynllunio a datblygu syniadau eu cynorthwyo gan LEADER.

11.58 Wedi i'r achos gael ei wneud, roedd modd i Gadwyn Clwyd gynorthwyo'r gymuned i wneud cais am gyllid i wireddu'r syniad. Cynhaliodd y gymuned ymgyrch fawr i godi arian, gan weini 300 o frecwastau dros dri diwrnod yn neuadd y pentref, a digwyddiad Cawl Mawr gyda 10 cawl cartref gwahanol. Daeth arian pellach gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, Cyngor Sir Ddinbych, Village SOS (loteri) a Sefydliad Plunkett.

11.59 Mae'r siop mewn rhan bwrpasol o neuadd y pentref, yn agos i safle hen siop y pentref. Fe'i hagorwyd yn swyddogol gan Darren Millar, yr Aelod Cynulliad lleol ar y pryd, ar 17$^{eg}$ Mai 2013. Un o'r cwsmeriaid cyntaf oedd Delia Williams a fu'n rhedeg ac yn berchen ar hen siop y pentref am flynyddoedd lawer.

11.60 Yn ogystal â bod yn siop gyfleustra mawr ei hangen i'r gymuned leol, daeth y siop i fod yn ganolbwynt cymunedol pwysig i fywyd y pentref ac yn lle i bobl ddod i gyswllt

[23] Daeth Cris Tomos, gwirfoddolwr ac ymgyrchydd cymunedol, yn gynghorydd sir lleol yn 2017 ac ef bellach yw'r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, y Gymraeg a Diogelu'r Cyhoedd yng Nghyngor Sir Penfro.

â'i gilydd. Mae hefyd yn cefnogi busnesau lleol drwy hyrwyddo a gwerthu ffrwythau, llysiau bwyd môr a blodau lleol.

11.61 Mae'r siop yn parhau i gael ei chefnogi gan grŵp o wirfoddolwyr ac mae'n cyflogi dau aelod o staff, Rheolwr y Siop a chynorthwyydd Sadyrnau.

11.62 Mae Cadwyn Clwyd yn parhau i weithio gyda chymuned Pwllglas ac yn ddiweddar cyflwynodd dendr am astudiaeth ddichonoldeb i helpu neuadd a siop y pentref i archwilio datblygiadau pellach yn y ganolfan gymunedol.

**Canolfan y Celfyddydau Minerva**




11.63 Mae gan Ganolfan y Celfyddydau Minerva adeilad amlwg yng nghanol Llanidloes a arferai fod yn garej gwerthu a thrwsio ceir. Y Gymdeithas Gwiltiau yw perchennog a rheolwr y ganolfan. Tyfodd y prosiect o ddiddordeb lleol ym mhwysigrwydd cwiltiau Cymreig fel rhan o hanes a diwylliant Cymru ynghyd â'i harddwch, eu creadigrwydd a'u crefftwaith cynhenid. Roedd Llanidloes yn lleoliad delfrydol i'r prosiect, oherwydd y cyswllt hanesyddol cyfoethog â chynhyrchu tecstilau (yn enwedig gwlanen) a thraddodiad o greu cwiltiau yn yr ardal gyfagos.

11.64 Cafodd y Gymdeithas Gwiltiau a Chanolfan y Celfyddydau Minerva eu cynorthwyo i ddatblygu gan y rhaglen LEADER gyntaf ym Mhowys, a gyflawnwyd drwy Fenter Powys. Ym 1995, trefnodd criw o ffrindiau, a oedd â diddordeb mewn cwiltio, arddangosfa o gwiltiau hynafol yn seiliedig ar gasgliad preifat. Enw'r grŵp oedd Welsh Heritage Quilters ac enw syml yr arddangosfa oedd "Cwiltiau Cymreig". Rhentwyd garej Minerva a lleoliadau eraill yn Llanidloes at y diben. Y casgliad hwn oedd sail yr arddangosfa haf flynyddol hyd at 2001. Bellach mae gan y Gymdeithas Gwiltiau ei chasgliad ei hun o gwiltiau hynafol, a llawer ohonynt o'r ardal leol, sydd ar gael at ddiben ymchwil neu astudio personol drwy apwyntiad.

11.65 Ym 1996, ffurfiwyd y Gymdeithas Gwiltiau fel elusen a chwmni cyfyngedig drwy warant. Roedd cyllid LEADER yn hanfodol ar y cam hwn. Fel y dywedodd Andrew Warren, cyn gadeirydd yr Ymddiriedolwyr, "Mi wnaeth Menter Powys ein helpu ar y camau cynnar i brofi hyfywedd canolfan gwiltiau a thecstilau yn Llanidloes".

Comisiynwyd astudiaeth ddichonoldeb i ystyried sefydlu canolfan barhaol ar gyfer cwiltiau clytwaith a chelf a chrefft tecstilau yn Llanidloes. Drwy'r astudiaeth hon, roedd modd i'r Gymdeithas Gwiltiau ddenu cyllid o amryw ffynonellau i brynu Garej Minerva a'i hailenwi'n Ganolfan y Celfyddydau Minerva. Mae'r Welsh Heritage Quilters yn parhau i gyfarfod fel criw cyfeillgar o gwiltwyr ar bob lefel o brofiad i ganolbwyntio ar gelfyddyd cwiltio.

11.66 Aeth Canolfan y Celfyddydau Minerva o nerth i nerth, gan ddenu rhagor o arian o Ewrop, Cyngor Sir Powys, Sefydliad Laura Ashley ac arianwyr preifat i wella'r adeilad ac ateb gofynion yr arddangosfeydd o safon uchel. Ar wahân i'r prif arddangosfeydd, caiff y Ganolfan ei llogi i amrywiaeth eang o grwpiau ar gyfer digwyddiadau fel arddangosfeydd bach, sgyrsiau, ffeiriau, cyfarfodydd a gweithdai. Bu grŵp craidd o unigolion allweddol yn rhan o'r fenter o'r cychwyn, a dim ond yn ddiweddar y gwnaeth llawer ohonynt gamu o'r neilltu fel Ymddiriedolwyr ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth.

11.67 Mae'r arddangosfa haf flynyddol yn parhau i arddangos enghreifftiau o gwiltiau cyfoes yn ogystal ag enghreifftiau o gwiltiau hynafol o gasgliadau o bob rhan o'r wlad. Mae'r arddangosfa'n wahanol bob blwyddyn. Mae Canolfan y Celfyddydau Minerva yn ased pwysig i Lanidloes, gan ddenu ymwelwyr o bob rhan o'r wlad sy'n dod i ymchwilio, dysgu ac edmygu'r gwaith celf amrywiol sydd i'w weld.

**Cittaslow Yr Wyddgrug**

11.68 Gair Eidaleg yw Cittaslow sy'n golygu 'tref araf'. Dechreuodd y mudiad ym 1999 pan aeth pedair tref yn yr Eidal ati i ddatblygu cysyniad arloesol Bwyd Araf a fyddai'n cynnwys pob agwedd ar fywyd mewn trefi o lai na 50,000 o bobl. Roeddent eisiau gwella ansawdd bywyd yn lleol drwy fabwysiadu amcanion amgylcheddol, diwylliannol a chymunedol.



11.69 Mae amcanion Cittaslow yn cyd-fynd ag egwyddorion LEADER o ddatblygiad o'r gwaelod i fyny yn seiliedig ar asedau lleol. Mae nodau Cittaslow yn cwmpasu'r amgylchedd, seilwaith, ansawdd yr adeiladwaith trefol, cefnogaeth i gynnyrch lleol a lletygarwch, a chydlyniant cymunedol.[24] Roedd nod yr Wyddgrug i fod y dref gyntaf yng Nghymru i ymuno â rhwydwaith Cittaslow felly yn cyd-fynd yn rhagorol â LEADER. Llwyddodd yr Wyddgrug i ennill statws Cittaslow ym mis Medi 2006. Noddwyd y cais gan Gyngor Tref yr Wyddgrug.

11.70 Mae achrediad Cittaslow yn perthyn i'r dref gyfan ac yn cydnabod y cyfraniad rhagorol sy'n cael ei wneud gan drigolion, busnesau a sefydliadau i wella ansawdd bywyd i bobl yn yr Wyddgrug a'r cylch.

11.71 Rhoddodd Cadwyn Clwyd gymorth i'r gwirfoddolwyr a'r Cyngor Tref i gyflawni'r amcanion, yn benodol nod Cittaslow o 'annog cynnyrch a chynhyrchion lleol' – o gefnwlad wledig yr Wyddgrug. Penodwyd cydgysylltydd Cittaslow, a chynhaliwyd digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth, gan gynnwys Fforwm Ffermwyr a Chynhyrchwyr. Lluniodd y cydgysylltydd astudiaeth ddichonoldeb i gaffael yn lleol.

11.72 Aeth cydgysylltydd Cittaslow yr Wyddgrug a gwirfoddolwyr Cittaslow ar ymweliad â Perth yn yr Alban, Llwydro yn Swydd Amwythig, ac Aylsham yn Norfolk, a oedd hefyd yn aelodau o rwydwaith Cittaslow y DU, i rannu eu profiad a chyfnewid syniadau.

11.73 Gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr brwdfrydig, mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn parhau i gofleidio nodau rhyngwladol Cittaslow, sy'n sylfaen i ddogfennau strategol allweddol fel Cynllun Tref yr Wyddgrug 2017-2030.[25]

11.74 Gyda phortffolio eang ac amrywiol o brosiectau, mae Cittaslow yr Wyddgrug yn cefnogi mentrau lleol fel Gŵyl Bwyd a Diod yr Wyddgrug a Gŵyl Daniel Owen. I helpu i annog pobl i siopa'n lleol / defnyddio gwasanaethau lleol, yn 2020 gwnaeth Cyngor Tref yr Wyddgrug lansio cynllun talebau Yr Wyddgrug yn Llwyr. Yn sgil llwyddiant y cynllun, mae dros 80 o fusnesau bellach yn rhan ohono.

11.75 Gan gefnogi pob agwedd ar y dref, mae gwefan ddwyieithog Yr Wyddgrug yn Llwyr,[26] yn galluogi sefydliadau a busnesau i ychwanegu a hyrwyddo eu rhaglenni

[24] Cittaslow
[25] 1606014_Welsh draft Mold town plan - EL updated.indd (moldtowncouncil.org.uk)
[26] Totally Mold

a’u digwyddiadau eu hunain. Mae rhwydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i fod yn dref Cittaslow lwyddiannus.

11.76 Cyn y pandemig, roedd gan Cittaslow yr Wyddgrug / Cyngor Tref yr Wyddgrug stondin farchnad fisol a gâi ei rhedeg gan wirfoddolwyr yn ystod Marchnad Stryd yr Wyddgrug, yn dosbarthu cylchlythyr pedair tudalen. Roeddent hefyd yn mynychu digwyddiadau a gwyliau lleol i glywed barn a phryderon pobl, hyrwyddo mentrau a digwyddiadau, a galluogi pobl i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau fel datblygiad Bryn y Beili sy’n Heneb Hynafol Gofrestredig.

11.77 Gwybodaeth a gasglwyd drwy’r stondinau hyn fu’n sail i fentrau fel ‘More Trees for Mold’.[27] Yn gynyddol, flwyddyn wrth flwyddyn, mae hyd at 100 o goed a pherthi wedi’u plannu ar dir cyhoeddus yn yr Wyddgrug dros y degawd diwethaf. Daeth cyllid o amryw ffynonellau, ac ar hyn o bryd daw o fusnesau ecogyfeillgar lleol sy’n awyddus i weld mwy o ganopi coed yn y dref. Hyd at y pandemig, plannwyd y coed gan wirfoddolwyr gwych – o drigolion lleol i aelodau sefydliadau fel CAIS a chynlluniau byw â chymorth. Caiff contractwyr eu defnyddio ar hyn o bryd.

11.78 Yn 2021, gwnaeth partneriaeth o gynghorau tref yr Wyddgrug, Caerwys a Llangollen, Lleihau Plastig yr Wyddgrug, a phump o fusnesau lleol yr Wyddgrug a Chaerwys, ennill gwobr fawr ryngwladol, Gwobr Cittaslow Chiocciola Orange 2021.[28] Dyma’r tro cyntaf i dref Cittaslow y DU ennill gwobr. Yr enillydd oedd menter Naked Takeaway, sy’n cynnig dewis i gwsmeriaid tecawê ddefnyddio blychau bwyd metel i’w hailddefnyddio yn lle’r rhai plastig neu gardbord untro arferol.

11.79 Bu’r Wyddgrug yn rhan o sawl menter ranbarthol gan gynnwys Light up Local Food and Drink, yn nigwyddiad cynnau’r goleuadau Nadolig yn yr Wyddgrug; a chyda Blasu Gogledd Ddwyrain Cymru yn nigwyddiad Afal a Dawns yn ystod Gŵyl Daniel Owen.[29] Mae rhannu arferion gorau a gweithio gyda threfi eraill, yn enwedig Llangollen – trefn Cittaslow arall yng ngogledd-ddwyrain Cymru – yn bwysig iawn i Cittaslow yr Wyddgrug. Bu Llangollen yn allweddol wrth helpu’r Wyddgrug i gychwyn ar lwybr lleihau plastig, yn enwedig pecynnau bwyd a diod untro.

11.80 Fel rhan o Sgwrs Cymunedol ar-lein lwyddiannus ym mis Mehefin 2021 a drefnwyd gan fudiad Lleihau Plastig yr Wyddgrug, roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys rhai o Lywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am Gynlluniau Dychwelyd Ernes a

[27] LEADER yn fyw - 'Busnesau yn rhoi coed newydd i'w plannu o amgylch Yr Wyddgrug'
[28] Cittaslow
[29] LEADER yn fyw

chynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr; siaradwr o Gyngor Sir y Fflint a gyflwynodd ffigurau syfrdanol am faint mae casglu a phrosesu pecynnau bwyd a diod yn ei gostio i'r awdurdod lleol / trethdalwyr y cyngor; a siaradwr o fusnes sy'n arbenigo mewn cynlluniau ar gyfer pecynnau tecawê amldro.

11.81 Daeth myfyrwyr prifysgol[30] ac ymwelwyr o drefi Cittaslow eraill gan gynnwys Tsieina i ymweld â'r Wyddgrug ar astudiaethau canfod ffeithiau, gan gynnig cysylltiadau byd-eang i'r dref a helpu i 'roi'r Wyddgrug ar y map'.

11.82 Mae bod yn dref Cittaslow wedi helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i weithio'n gyfannol ar agweddau allweddol ar gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i'r Wyddgrug a'r cylch, er mwyn gwella ansawdd bywyd yn y dref.

**Rhwydweithiau PLANED**

11.83 Mae creu gofod lle gall gwahanol fuddiannau a sefydliadau ddod ynghyd i rannu syniadau, gwybodaeth a phrofiadau wastad wedi bod yn swyddogaeth ganolog ym methodoleg LEADER. Mae Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER yn ymgymryd â'r swyddogaeth hon, ond mae hefyd gan grwpiau thematig ran bwysig i'w chwarae wrth helpu i sbarduno mentrau newydd, adeiladu partneriaethau a chryfhau capasiti.

11.84 Dau rwydwaith thematig sy'n cael eu cynorthwyo gan PLANED yw Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro, a Rhwydwaith Adeiladau Cymunedol Sir Benfro. Mae PLANED, sy'n aml yn cydweithio â sefydliadau eraill fel Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, yn nodi cyfle neu fater, yn dod â phobl ynghyd i archwilio'r angen, ac os caiff ei ystyried y byddai rhwydwaith yn ddefnyddiol, mae'n helpu i drefnu cyfarfodydd rhwydwaith. Gall hyn gynnwys siaradwyr, ymchwilio i wybodaeth ar gyfer cyfarfodydd rhwydwaith, neu drefnu ymweliadau astudio.

11.85 Sefydlwyd Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro yn 2006. Ei nod yw dod â sefydliadau ffermio/amgylcheddol a ffermio ynghyd i nodi, trafod a bwrw ymlaen â syniadau a chyfleoedd sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth gynaliadwy. Mae'r aelodau'n cynnwys NFU, FUW, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyfoeth Naturiol Cymru, Rhwydwaith Amgylcheddol Sir Benfro, Lantra, ac CFfI, ymysg eraill. Rhoddodd Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro sylw i bynciau fel ynni adnewyddadwy, ychwanegu gwerth i

[30] Cittaslow - academaidd

goetiroedd a chyd-archwilio ffyrdd i fynd i'r afael â thanau gwyllt. Mae Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro yn parhau i gwrdd gan ddangos, hyd yn oed ar ôl pymtheng mlynedd, bod y rhwydwaith yn parhau i fod yn berthnasol i sefydliadau.

11.86 Caiff Rhwydwaith Adeiladau Cymunedol Sir Benfro ei redeg mewn partneriaeth â Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro. Sefydlwyd Fforwm Neuaddau Sir Benfro yn 2002 i gynnal cyrsiau hyfforddi i adeiladau cymunedol ond bu'r rhwydwaith ehangach yn weithredol ers 2010.

11.87 Mae lleoliadau cymunedol yn hanfodol bwysig mewn ardaloedd gwledig. Mae llawer yn cynnal gwasanaethau sylfaenol ac mae pob un yn lle y gall pobl ynysig gwrdd. Hefyd, lleoliadau cymunedol yn aml yw'r mannau lle mae mentrau lleol newydd yn cychwyn neu lle caiff syniadau newydd eu sbarduno.

11.88 Mae ymweliadau, sgyrsiau a sesiynau gwybodaeth yn galluogi i Ymddiriedolwyr adeiladau cymunedol gael y wybodaeth ddiweddaraf yn ogystal â dysgu o brofiad eraill. Roedd ymweliadau â neuaddau yn arbennig o bwysig cyn pandemig Covid-19 fel ffordd o weld beth roedd eraill wedi'i gyflawni a chasglu gwybodaeth mewn ffordd anffurfiol. Mae'r rhwydwaith yn agored i bawb sydd â diddordeb mewn lleoliadau cymunedol yn Sir Benfro. Cynhaliwyd y cyfarfodydd ar-lein yn ystod y pandemig. Mae'r rhwydwaith yn arbennig o bwysig ar hyn o bryd wrth i'r Ymddiriedolwyr ystyried ailagor yn llawn i'w cymunedau yn ddiogel.

**Gŵyl Fwyd Llangollen**

11.89 Mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych, Asiantaeth Antur Clwydfro,[31] gyda chyllid gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gwnaeth Cadwyn clwyd ddatblygu Gŵyl Fwyd Llangollen ym 1997. Y nod oedd darparu llwyfan i gynhyrchwyd bwyd a diod lleol i brofi'r farchnad, arddangos eu cynnyrch yn uniongyrchol i'r defnyddwyr a byrhau eu cadwyni cyflenwi. Daeth y syniad drwy drafodaethau â fforwm bwyd lleol yr oedd Cadwyn

[31] Roedd Clwydfro yn un o sefydliadau menter Asiantaeth Datblygu Cymru a oedd yn weithredol ar y pryd.

Clwyd yn ei hwyluso ar y pryd. Bellach, Gŵyl Fwyd Llangollen yw un o'r gwyliau bwyd mwyaf hirhoedlog yng Nghymru.

11.90 Rhoddodd LEADER gymorth i'r fforwm i ymhelaethu ar eu syniadau a datblygu'r cysyniad. Ar ôl i hyn gael ei sefydlu, roedd cyllid LEADER yn talu am gostau fel llogi stondinau, llogi lleoliadau, marchnata, arddangosiadau coginio, ac ati. Bu Cadwyn Clwyd yn rhedeg y digwyddiad gyda chyllid LEADER am 10 mlynedd ac wedyn ffurfiwyd sefydliad i ymgymryd â'r gwaith o gynnal yr ŵyl.

11.91 Roedd LEADER, fodd bynnag, yn darparu llawer mwy na chyllid yn unig. Roedd yn trefnu camau i drosglwyddo gwybodaeth, er enghraifft drwy ymweld â Gŵyl Fwyd Limerick i ddysgu gan ŵyl sydd wedi ennill ei phlwyf a sut mae hyrwyddo cynnyrch i farchnadoedd newydd e.e. drwy fynd â chynhyrchwyr i sioeau masnach yn ne'r Eidal i hybu marchnadoedd newydd. Yn lleol, gwnaeth Cadwyn Clwyd gynorthwyo i sefydlu marchnadoedd ffermwyr yn Helygain a Bae Colwyn yn ogystal â Marchnad Ffermwyr Glyndŵr ar Stad y Rhug ger Corwen. Sefydlwyd marchnad i feicro-gynhyrchwyr yn Rhuthun. Roedd modd i Gadwyn Clwyd wneud hyn oherwydd y cysylltiadau a wnaeth drwy fusnesau lleol a rhwydweithiau cymunedol.

11.92 Mae Swyddog Partneriaethau Busnes Cadwyn Clwyd yn dal i ddarparu arweiniad a chymorth i bwyllgor presennol Gŵyl Fwyd Llangollen, sydd â'i holl aelodau'n wirfoddolwr. Cyn pandemig COVID-19, byddai'r ŵyl yn denu mwy na 100 o stondinau yn rheolaidd, gyda theimlad gwirioneddol ryngwladol. Byddai'n denu cynrychiolwyr o Ffrainc, Gwlad Pwyl, yr Eidal a Sbaen. Cafodd ei henwi'n un o 10 o wyliau bwyd gorau'r DU ym mhapurau newydd y Daily Telegraph a'r Independent.[32]

11.93 Ym 2019, amcangyfrifwyd y byddai Gŵyl Fwyd Llangollen yn denu cyfanswm o £400,000 o wariant gan ymwelwyr i'r economi leol.[33] Meddai Jo Edwards, cadeirydd Gŵyl Fwyd Llangollen:


> "Mae Cadwyn Clwyd wedi bod yn cynorthwyo Gŵyl Fwyd Llangollen am dros 23 mlynedd ac wedi parhau i wneud hynny drwy'r pandemig. Mae eu gwybodaeth, eu sgiliau a' dealltwriaeth fanwl o anghenion cymunedau gwledig yn golygu bod Gŵyl Fwyd Llangollen bellach yn un i'r gwyliau bwyd uchaf ei pharch a mwyaf bywiog yn y wlad, ac mae'r gymuned leol yn gwbl ganolog iddi.

[32] Enwi Gŵyl Fwyd Llangollen yn y 10 uchaf ym Mhrydain
[33] Disgwyl i'r ŵyl fwyd ddod â hwb o £400k i Langollen

Gan mai sefydliad nid-er-elw ydyw, a'r ŵyl yn cael ei rhedeg gan dîm o wirfoddolwyr, mae rôl a chyngor Cadwyn Clwyd wedi bod amhrisiadwy."




**Pecyn cymorth mapio cymunedol, Bro Morgannwg**




11.94 Gwnaeth y Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol ym Mro Morgannwg ddatblygu pecyn cymorth i helpu cymunedau lleol i ymgysylltu a chael gwybod beth sy'n digwydd yn eu cymuned fel rhan o gyflawni LEADER, a chyhoeddwyd y fersiwn derfynol ym mis Mawrth 2017.

11.95 Mae'r pecyn cymorth yn ganllaw hawdd i'w ddefnyddio i helpu cymunedau i ddeall a chymryd rhan yn y broses o fapio'r gymuned, ac mae'n cynnwys:

- pethau i feddwl amdanynt cyn cychwyn ar y broses o fapio'r gymuned
- sut i drefnu digwyddiadau mapio cymunedol
- syniadau i ymgysylltu â'r gymuned
- cyngor ac arweiniad ar sut i ddod â'r holl wybodaeth ynghyd er mwyn bwrw ymlaen â phethau, gwerthuso'r broses a rhoi adborth i'r gymuned.

11.96 Esblygodd y pecyn cymorth wrth i'r Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol weithio gyda chymunedau Sain Tathan, Gwenfô a'r Rhws i dreialu ffyrdd newydd o fapio'r gymuned.

- roedd y broses yn cynnwys cael pobl i siarad am yr hyn sydd eisoes yn bodoli
- asedau cymdeithasol: grwpiau cymunedol, sefydliadau ac unigolion
- asedau ffisegol: canolfannau cymunedol, mannau agored a busnesau
- beth sydd wir yn bwysig i'r gymuned.

11.97 Nodwyd nifer o fanteision mapio cymunedol yn ystod y cynlluniau peilot, gan gynnwys:

- adeiladu ar gryfderau presennol y gymuned
- meithrin partneriaethau a pherthnasoedd newydd
- galluogi'r gymuned i archwilio a bod yn ymwybodol o'u hasedau
- nodi adnoddau newydd
- darparu gwybodaeth ar draws rhanddeiliaid
- darparu tystiolaeth o'r angen am gyllid allanol.

11.98 Mae defnyddio'r broses fapio yn bwysig i ddarparu tystiolaeth ar gyfer derbyn cyllid. Gall yr awdurdod lleol hefyd ddangos bod y pentrefi hynny lle y cynhaliwyd broses fapio wedi derbyn mwy o gyllid ar gyfartaledd na'r pentrefi eraill yn y sir. Mae hefyd yn cael ei defnyddio gan yr awdurdod lleol fel ffordd o ddyrannu a thargedu cyllid grantiau Adran 106 yn fwy effeithiol.[34]

11.99 Mae'r broses o fapio'r gymuned a dreialwyd yn ardaloedd gwledig Bro Morgannwg yn cael ei hystyried yn y Cyngor yn un effeithiol a llwyddiannus, i'r fath raddau fel bod y pecyn cymorth a'r broses bellach yn cael eu defnyddio gan y Cyngor ar draws y sir mewn ardaloedd trefol yn ogystal â rhai gwledig. Mae felly yn enghraifft o sut y gall proses a gafodd ei datblygu a'i threialu gan LEADER gael ei 'phrif-ffrydio' ar draws awdurdod lleol. Mae hefyd yn enghraifft o sut gall cysylltiadau agos rhwng awdurdod lleol a grŵp LEADER hwyluso'r arfer o brif-ffrydio proses a dreialwyd yn llwyddiannus.

---

[34] Mae'r adroddiadau ar gyfer y tair ardal i'w gweld fan yma: [Cynllun Peilot Mapio Cymunedol (valeofglamorgan.gov.uk)]

11.100 Mae’r fideo isod yn rhoi trosolwg o’r Pecyn Mapio Cymunedol yn ogystal ag astudiaethau achos o gymunedau a ddilynodd y broses.




**Pitch Perfect, Bro Morgannwg**

11.101 Prosiect peilot oedd Pitch Perfect a ddatblygwyd ac a redwyd gan Gymunedau Gwledig Creadigol, y grŵp LEADER ym Mro Morgannwg. Yn ystod ei waith gyda ffermwyr a pherchnogion tir, daeth Cymunedau Gwledig Creadigol yn ymwybodol bod nifer gynyddol o berchnogion tir yn holi sut i agor safle gwersylla. Roedd llawer yn cael eu llethu gan y broses a’r amryw ganiatâd oedd yn ofynnol.[35]

11.102 Cynhaliwyd y prosiect peilot yn haf 2012 ac roedd yn canolbwyntio ar safleoedd ger Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Dim ond tri safle gwersylla a charafanau oedd yn weithredol yn yr ardal ar y pryd ac roedd disgwyl i’r galw fod yn uwch na’r arfer am fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal ym Mro Morgannwg yr haf hwnnw.

11.103 Amcanion allweddol y prosiect oedd ateb y galw uwch a ragwelwyd, codi proffil gwersylla ym Mro Morganwg, hyrwyddo’r ardal ar gyfer twristiaeth ac atal gwersylla

[35] Ymgynghori â Datrysiadau Cynllunio, (Hydref 2012). Gwerthuso Pitch Perfect: Adroddiad Terfynol.

anghyfreithlon drwy ddarparu safleoedd eraill. Roedd y prosiect hefyd am brofi agwedd yr awdurdod cynllunio tuag at safleoedd gwersylla dros dro.

11.104 Roedd pump o ffermydd / perchnogion tir a dau safle gwersylla presennol yn rhan o'r peilot. Cymerodd y ddau safle gwersylla presennol ran yn yr ymarferiad marchnata ar y cyd, a chynorthwywyd y busnesau newydd i ymsefydlu. Nid oedd y peilot yn cynnwys carafanau a champerfanau oherwydd y rheoliadau a oedd yn eu lle ar gyfer safleoedd dros dro ac ethos 'effaith fach' y fenter.

11.105 Cafodd ffermwyr a pherchnogion tir eu recriwtio drwy alwad agored a oedd yn cynnwys post uniongyrchol, hysbysebion yn y wasg leol a hyrwyddo ar-lein. Derbyniwyd 16 o geisiadau a thrafodwyd y rhain gyda'r gwasanaethau cynllunio i asesu pa mor addas oeddent. Roedd panel o aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol wedyn yn dewis y safleoedd llwyddiannus.

11.106 Gwahoddwyd pob safle llwyddiannus i wneud cais am gyllid LEADER hyd at fwyafswm o £5k i helpu i ddatblygu eu safleoedd gwersylla. Roedd hyn yn cynnwys hyd at £2.5k tuag at welliannau i'r seilwaith ar y safle a £2.5k tuag at gostau llogi/prynu amwynderau ar y safle, fel cyfleusterau cawod / toiled / golchi dwylo.

11.107 Roedd gofyn i berchnogion tir gael cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer yr holl gostau, er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau caffael llym sy'n ofynnol ar gyfer cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig.

11.108 Nid dull ariannu'n unig oedd LEADER. Yn wir, swm bach iawn o arian a oedd ar gael. Drwy LEADER, roedd modd i Gymunedau Gwledig Creadigol nodi angen, dylunio a gweithredu prosiect peilot, ac yn hanfodol darparu cymorth i'r prosiectau peilot. Roedd y cymorth ychwanegol hwn yn cynnwys ymgyrch farchnata, arwyddion, cymorth gyda rheoliadau (gan gynnwys treialu trefniadau trwyddedu newydd ar gyfer safleoedd dros dro) a hyfforddiant. Trefnodd Cymunedau Gwledig Creadigol daith astudio i ymweld â safleoedd yng Ngŵyr a hwylusodd yr arfer o ddysgu rhwng cymheiriaid.

11.109 Roedd y dull LEADER yn elfen hanfodol o lwyddiant y prosiect. Roedd swyddogion Cymunedau Gwledig Creadigol yn frwdfrydig ac yn gweithio gyda'r prosiectau peilot i oresgyn unrhyw anawsterau. Roedd hyn yn cynnwys hwyluso'r cyfathrebu rhwng cymunedau lleol pan fyddai rhai'n gwrthwynebu'r cynigion.

